Nursing & Midwifery Council

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019–2020 a Chynllun Strategol 2020–2025

Cefnogi Dylanwadu Rheoleiddio

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019–2020 a Chynllun Strategol 2020–2025

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2019–2020 a Chynllun Strategol 2020–2025 i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyflwynwyd y Cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

***Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 16 Gorffennaf 2020***

HC 529

OGL

© **Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2020**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/ doc/open-government-licence/version/3**.

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.nmc.org.uk**.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-2032-1

CCS0620790214

Argraffwyd ar bapur y mae o leiaf 75% ohono'n ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Ein rôl | 6 |
| Adolygiad o berfformiad 2019–2020 | 8 |
| Cynllun strategol 2020–2025 | 45 |
| Adolygiad ariannol | 48 |
| Adroddiad am gydnabyddiaeth ariannol | 52 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon | 65 |
| Datganiad llywodraethu blynyddol | 67 |
| Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | 88 |
| Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd | 92 |
| Datganiad o weithgareddau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | 97 |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2020 | 98 |
| Datganiad o'r llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | 99 |
| Cysoni'r incwm net â'r llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 100 |
| Dadansoddiad o arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 101 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 102 |
| Atodiad 1 – Penderfyniad ar y cyfrifon | 127 |

# Rhagair

Daethom i ddiwedd y flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad blynyddol hwn ar yr union adeg yr oedd maint yr argyfwng COVID-19 yn dechrau ei amlygu ei hun. Mae'r pandemig yn creu heriau enfawr i gymdeithas, i'r system iechyd a gofal, i'r gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr ac i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei hun. Ond mae'r cynnydd sylweddol a wnaethom dros y flwyddyn ddiwethaf yn ein rhoi mewn lle da i fynd i'r afael â'r heriau hyn, er budd pawb rydym yn eu gwasanaethu.

Fel sefydliad a ariennir gan y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, mae'n hanfodol i ni barhau â'r cynnydd a wnaethom yn y blynyddoedd diwethaf. Ar ddiwedd y flwyddyn, rhoddodd y Cyngor ei gymeradwyaeth i'n strategaeth uchelgeisiol ar gyfer 2020–2025. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein gweledigaeth a'n pwrpas, ein rôl a'r gwerthoedd a fydd yn sail i'n gwaith. Hoffem ddiolch i'r miloedd o bobl y mae eu barn wedi helpu i siapio'r glasbrint hwn ar gyfer ein dyfodol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, gwnaethom welliannau yn ein ffordd o gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd. Rydym yn falch iawn o fod wedi lansio ein safonau newydd trawsffurfiol ar gyfer bydwreigiaeth, ar ôl gweithio arnynt am ddwy flynedd. Byddant yn helpu i sicrhau bod menywod, babanod a theuluoedd yn cael y gofal gorau a mwyaf diogel posibl.

Rydym wedi symleiddio'r broses ar gyfer gweithwyr proffesiynol o wledydd tramor sy'n ymuno â'n cofrestr gan sicrhau, ar gyfer y rheini sydd â phrofiad a galluoedd priodol, fod y broses yn gyflym, yn drwyadl ac yn effeithlon. Gwnaethom ragor i gynorthwyo'r rheini sydd eisoes ar ein cofrestr, gan sefydlu llinell gefnogaeth emosiynol i rai a gofrestrwyd mewn perthynas â chymhwyster i ymarfer, a thynnu sylw at y gwaith rhagorol y mae nyrsys yn ei wneud wrth i ni ddathlu canmlwyddiant y drefn cofrestru nyrsys.

Mae ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus wedi parhau i fynd o nerth i nerth, a thrwy wrando ar bryderon pobl sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith, rydym yn cymryd camau pellach i gynorthwyo tystion mewn gwrandawiadau cymhwyster i ymarfer a all fod yn agored iawn i niwed.

Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol yn fewnol. Mae'r gostyngiad trawiadol yn ein trosiant staff o 21.9 y cant ddwy flynedd yn ôl i 13.5 y cant yn awgrymu bod ein hymdrechion i wneud y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn lle rhagorol i weithio yn cael effaith wirioneddol.

Nid oeddem yn gwybod wrth wneud yr holl waith hwn drwy gydol 2019–2020 ein bod yn paratoi at yr her fwyaf yn ein bywydau proffesiynol. Wrth i'r coronafeirws daro, ac o fewn ychydig wythnosau, roeddem wedi symud ein holl gydweithwyr i weithio gartref, wedi sefydlu cofrestr argyfwng dros dro, wedi newid ein ffyrdd o weithio ac wedi cryfhau ein cydweithio â phartneriaid a gweithwyr proffesiynol. Ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl heb osod y seiliau yn yr 11 mis blaenorol.

Teimlir effeithiau'r coronafeirws am gyfnod hir. Fodd bynnag, mae ein strategaeth newydd yn gosod sylfaen gadarn i ni ddelio â'r heriau sydd o'n blaen. A thrwy weithio mewn ffordd sy'n garedig, yn deg, yn gydweithredol ac yn uchelgeisiol, rydym yn hyderus y gall y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth barhau i wella.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**6 Gorffennaf 2020**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**6 Gorffennaf 2020**

# Ein rôl

Ni yw'r corff proffesiynol sy'n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Nodwyd ein hamcanion yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

*Amcan cyffredinol y Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd.*

Mae dilyn yr amcan cyffredinol gan y Cyngor yn cynnwys dilyn yr amcanion canlynol –

*(a) diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;*

*(b) hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan y Gorchymyn hwn; ac*

*(c) hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.*

Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

- **cadw'r gofrestr** o nyrsys a bydwragedd sy'n cwrdd â'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU, ac o gymdeithion nyrsio sy'n cwrdd â'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- pennu'r **gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n helpu pobl i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sydd eu hangen i gael eu cofnodi neu eu hanodi ar ein cofrestr
- siapio ymarfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr drwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau**, yn cynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ailddilysu
- **ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau** lle codir pryderon difrifol am gymhwyster nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Ein corff llywodraethu yw ein Cyngor, sy'n cynnwys chwe pherson lleyg a chwe gweithiwr proffesiynol sydd ar ein cofrestr.

Goruchwylir ein gwaith gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n gwaith rheoleiddwyr proffesiynau iechyd a gofal. Rydym yn i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig a cheisiwn sicrhau bod ein holl waith yn dod â cyhoedd – fel rydym yn disgrifio yn yr adroddiad hwn.

> Rydym yn deg, yn garedig, yn gydweithredol ac yn uchelgeisiol

Rydym yn **rheoleiddio** er budd y cyhoedd, gan roi hyder i bobl yn ein proffesiynau. Credwn fod angen grymuso'r cyhoedd ac ymgysylltu â nhw'n barhaus ac mewn ffordd ystyrlon er mwyn gallu gwneud hyn yn dda.

Bydd ein rôl rheoleiddio'n cael ei chyflawni'n well pan fyddwn yn **cefnogi'r** cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid. Drwy ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i bawb sydd â rhan yn ein prosesau, sicrheir gwell canlyniadau i bawb. Drwy ddarparu canllawiau defnyddiol, gan gydweithio â chyflogwyr ac addysgwyr, caiff ein proffesiynau gymorth i gynnal ein safonau proffesiynol uchel wrth ymarfer. Mae hyn yn ein helpu i ganolbwyntio o'r newydd ar ymarfer da yn hytrach nag ymarfer gwael, er mwyn atal niwed ac nid ymateb iddo'n unig.

Drwy rannu'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith, a chydweithio â phartneriaid i ddelio â'n pryderon cyffredin, gallwn **ddylanwadu'n** gadarnhaol ar y cyd-destun lle mae dysgu a gofal yn digwydd.

Rydym wedi mabwysiadu gwerthoedd newydd yn 2020 sy'n sail i'n holl waith. Maen nhw'n siapio ein ffordd o feddwl a gweithredu.

### Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch yn hanfodol i gyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy a thryloyw.

### Rydym yn garedig

Rydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n garedig ac sy'n parchu pobl, eu mewnwelediadau, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.

### Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gweld gwerth mawr yn ein perthnasoedd (y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau wrth gydweithio'n dda ag eraill.

### Rydym yn uchelgeisiol

Ymfalchïwn yn ein gwaith. Rydym yn barod i ystyried ffyrdd newydd o weithio ac yn ceisio gwneud ein gorau bob amser dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a wasanaethwn a'n cydweithwyr.

# Adolygiad o berfformiad review 2019–2020

Drwy gydol y flwyddyn roeddem wedi parhau i ganolbwyntio ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd – cydweithio ag addysgwyr i sicrhau bod ein safonau nyrsio a bydwreigiaeth newydd wedi'u rhoi ar waith ac i sicrhau ansawdd eu rhaglenni; cadw'r gofrestr, gan groesawu newydd-ddyfodiaid o'r DU, Ewrop a gwledydd tramor; darparu cymorth ar gyfer ailddilysu; ymateb i bryderon a sicrhau bod nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwragedd yn parhau'n gymwys i ymarfer. Parhau hefyd a wnaeth ein gwaith i wella ein seilwaith TG, ein swyddfeydd a'n cymorth i gydweithwyr, i ddefnyddio adnoddau'n ddoeth, a pharhau i lywodraethu a chyfathrebu'n dda.

Hon oedd blwyddyn olaf ein Strategaeth 2015–2020: *Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid*. Roeddem wedi asesu ein cynnydd ar gyflawni'r amcanion a osodwyd yn 2015 wrth i ni ddatblygu ein syniadau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Gwnaed cynnydd sylweddol yn y pum mlynedd diwethaf drwy gyflwyno Cod newydd a datblygu safonau hyfedredd newydd, cyflwyno'r broses ailddilysu, a moderneiddio rhai o'n prif ddulliau rheoleiddio gan gynnwys, er enghraifft, cofrestru mewn gwledydd tramor a chymhwyster i ymarfer. Arwydd o'r hyder cynyddol yn ein perfformiad fel rheoleiddiwr oedd gofyn i ni gymryd cyfrifoldeb dros reoleiddio, yn Lloegr, broffesiwn newydd y cymdeithion nyrsio. Er ein bod wedi cymryd camau mawr ymlaen ym maes data a gwybodaeth, drwy sefydlu Uned Gwybodaeth Reoleiddio, er enghraifft, ac ailddechrau adrodd i'r cyhoedd am ein cofrestr, mae rhagor i'w wneud yn hyn o beth. Dyma pam mae mewnwelediad yn parhau'n thema yn ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025.

Roeddem wedi cynnal deialog yn fynych yn 2019–2020 â'n nifer mawr o randdeiliaid ynghylch y galwadau a fydd yn ein hwynebu ni a'n proffesiynau yn y cyfnod sydd o'n blaen. Clywsom gan aelodau o'r cyhoedd, ein proffesiynau, cyflogwyr, addysgwyr a sefydliadau cenedlaethol sy'n bartneriaid i ni, drwy ymgyngoriadau, digwyddiadau, ac ymweliadau ledled y DU. Cyhoeddwyd ein strategaeth 2020–2025 newydd yn Ebrill 2020.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roeddem ni ynghyd â gweddill y DU a'r byd ehangach yn ymateb i'r pandemig COVID-19. Yn wyneb yr argyfwng hwn, roeddem wedi ymateb yn ddi-oed drwy gyflwyno set o fesurau i'n galluogi i barhau i gynorthwyo nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddarparu gofal.

Roeddem wedi cydweithio â'r llywodraeth i wneud newidiadau brys yn ein deddfwriaeth i'n galluogi i reoleiddio'n wahanol ar yr adeg hon o angen dwys yn y sector iechyd a gofal. Roedd hyn yn ein galluogi i roi cofrestriad dros dro i grwpiau a ddewiswyd yn ofalus er mwyn iddynt allu ymarfer ochr yn ochr â'r rheini sydd â chofrestriad parhaol gyda'r bwriad o hyrwyddo gallu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod cyfnod yr argyfwng.

Roeddem wedi cydweithio hefyd â darparwyr addysg i ganiatáu i fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth yn chwe mis olaf eu cwrs gradd gael dewis treulio'r cyfnod hwn o dan oruchwyliaeth mewn lleoliadau clinigol estynedig, fel y gallent fod ar gael i gynorthwyo'r gweithlu cymwysedig. Addaswyd ein dull o asesu cymhwyster i ymarfer er mwyn asesu'r rheini a atgyfeiriwyd atom ar sail risg fel y gallem ryngweithio'n llai aml â chyflogwyr tra oeddent yn canolbwyntio ar yr argyfwng COVID-19 a chynnal gwrandawiadau rhithiol achlysurol. Rydym yn datblygu ein dull o ddelio ag atgyfeiriadau cysylltiedig â COVID-19, gan fod yn effro i'r pwysau eithriadol sydd ar nifer mawr o'r rheini sydd ar ein cofrestr ac ar eraill yn y cyfnod hwn. Rydym yn ymateb i ymholiadau sy'n ymwneud â COVID-19 ac yn rhannu gwybodaeth a deunydd cymorth lle'r ydym yn credu y gallwn helpu pobl sydd ar ein cofrestr i wneud y peth iawn wrth wynebu heriau'r cyfnod hwn.

O ganlyniad i wella ein technoleg, mae'r sefydliad cyfan wedi gallu gweithio gartref, gan gynnal cyfarfodydd rhithiol o'r Cyngor, a hyd yn oed gynnal gallu ein Canolfan Gyswllt i weithio mewn cyfnod prysur iawn. Ac rydym yn gwneud ein gorau i gyflawni ein dyletswydd gofal fel cyflogwr drwy ddarparu'r cymorth a hyblygrwydd sydd eu hangen ar ein cydweithwyr, gan gofio am eu gwahanol amgylchiadau.

Rydym yn parhau i hysbysu ein myfyrwyr, ein gweithwyr proffesiynol, eu cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill am y mesurau rydym wedi'u cymryd drwy ein **canolfan COVID-19**.

## Ein cyfrifoldebau rheoleiddio

Mae'r gofrestr yn ganolbwynt i'n holl waith ac mae'r nifer sydd ar y gofrestr yn parhau i gynyddu. Nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio â chofrestriad llawn ar ein cofrestr ar 31 Mawrth 2020 oedd 716,607, y nifer mwyaf erioed.

**Ar 31 Mawrth 2020 roedd:**

**669,854**
**o nyrsys**

**37,918**
**o fydwragedd**

**7,142**
**o nyrsys a bydwragedd â**

**1,693**
**o gymdeithion nyrsio**

**ar ein cofrestr, cyfanswm o**

**716,607**


**sy'n 18,370 yn fwy nag ym Mawrth 2019 (ffigur 2018–2019: 698,237)**

Yn ogystal â hyn, erbyn 31 Mawrth 2020 roeddem wedi rhoi cofrestriad dros dro i 8,129 o nyrsys a bydwragedd gan ddefnyddio ein pwerau argyfwng COVID-19.

### Pwy sydd ar ein cofrestr?

Rydym yn dal manylion demograffig a gwybodaeth arall am weithwyr proffesiynol sydd â chofrestriad llawn. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i'w rheoleiddio a'u cynorthwyo ac yn ein galluogi i rannu mewnwelediadau ag eraill.

Ein cofrestr ar 31 Mawrth 2020 yn ôl y wlad lle hyfforddwyd:




**Oed:** Rhwng 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020, gwelsom ostyngiad yn nifer a chanran y bobl yn yr ystodau oedran 41 i 50 a 51 i 55 (-1.09 y cant a -2.48 y cant yn y drefn honno). Roedd cynnydd yn y grwpiau oedran hŷn, gyda chynnydd o 11.32 y cant yn yr ystod oedran 61 i 65 a chynnydd o 11.82 y cant yn yr ystod oedran 66 i 70. Ym mhen arall y raddfa oed, roedd twf hefyd yn y grwpiau oedran 21 i 30 a 31 i 40, sef 4.04 y cant a 6.19 y cant yn y drefn honno. At ei gilydd, gall y ffigurau hyn ddangos bod y gofrestr yn heneiddio.

**Ethnigrwydd:** Nyrsio oedolion a gofal cyffredinol, a nyrsio iechyd meddwl, oedd y meysydd ymarfer mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd: er enghraifft, tra oedd 7 y cant o'r rheini a ailddilysodd wedi nodi eu bod yn Ddu Affricanaidd, roedd 16 y cant o'r rheini a ddywedodd eu bod yn ymarfer ym maes iechyd meddwl wedi nodi eu bod yn Ddu Affricanaidd. Roedd pobl a gyflogwyd drwy asiantaeth yn fwy amrywiol eu hethnigrwydd na rhai a gyflogwyd yn uniongyrchol: roedd mwy nag un rhan o dair o'r rolau asiantaeth yn cael eu cyflawni gan bobl ag ethnigrwydd Du Affricanaidd.

**Rhywedd:** Menywod yw mwyafrif y rheini sydd ar ein cofrestr. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 89 y cant o'r bobl ar ein cofrestr yn fenywod, o'i gymharu ag 11 y cant a oedd yn ddynion. Nid yw'r cyfrannau hyn wedi newid er 2014–2015. Menywod oedd y rhan fwyaf o hyd mewn rhai meysydd ymarfer a lleoliadau gwaith, yn cynnwys bydwreigiaeth, ymweliadau iechyd, nyrsio ysgolion, practisau meddygon teulu a'r sectorau cosmetig ac anestheteg. Roedd menywod yn gwneud mwy na 95 y cant o'r gwaith yn y sectorau hyn. Roedd dynion yn cyflawni cyfrannau mwy o'r swyddi (o leiaf un ym mhob pump) ym maes nyrsio iechyd meddwl ac anableddau dysgu, y lluoedd arfog, undebau llafur a chyrff proffesiynol, y gwasanaeth ambiwlans, a gwasanaethau carchardai a'r heddlu. Roedd dynion yn cyflawni cyfrannau mwy o'r swyddi drwy asiantaeth (19 y cant) a thrwy hunangyflogaeth (17 y cant).

**Cartrefi gofal:** Roedd yr amrywiaeth ethnig yn y sector cartrefi gofal yn fwy o lawer nag mewn lleoliadau gwaith eraill: llai na hanner (49 y cant) y rheini ar ein cofrestr sy'n gweithio mewn cartrefi gofal a nododd eu bod yn Wyn Prydeinig. Mae cartrefi gofal hefyd yn dibynnu'n fwy ar weithwyr proffesiynol a hyfforddwyd y tu allan i'r DU: darparwyd 38 y cant o'r gofal gan rai ar y gofrestr a hyfforddwyd y tu allan i'r DU.

Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod gennym ddata amrywiaeth hefyd am y rheini sy'n dal cofrestriad dros dro i ddibenion y pandemig COVID-19.

Rydym yn dysgu rhagor o hyd am y rheini sy'n dal cofrestriad llawn ac am effaith ein gwaith arnyn nhw. Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, yn 2019–2020 roeddem wedi dechrau ymchwil newydd i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i gael gwell gwybodaeth am y ffordd y mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn symud drwy ein prosesau, ac i ganfod a oes canlyniadau anghymesur i unrhyw grwpiau. Yn rhan o'n strategaeth newydd, rydym hefyd yn ystyried sut i sicrhau gwell data yn gyffredinol, er mwyn ymateb yn well i anghenion y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cadw'r gofrestr

Yn 2019–2020 roeddem wedi prosesu 38,227 o geisiadau gan bobl a oedd yn gwneud cais am ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf.

**38,227**
**o geisiadau i ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf**
(2019–2020)

**25,381**
**gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn y DU**
(2018–2019: 23,498)

**913**
**gan rai a hyfforddwyd yn yr UE/EEA**
(2018–2019: 968)

**11,933**
**gan ymgeiswyr a hyfforddwyd y tu allan i'r UE/EEA**
(2018–2019: 6,157)

Roedd ein perfformiad wedi parhau'n gryf drwy gydol y flwyddyn ar ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cofrestru.

- Cwblhawyd mwyafrif (97.1 y cant) y ceisiadau cyntaf am gofrestru yn y DU o fewn un diwrnod, gan gyrraedd ein targed o 97 y cant.
- Cymerir mwy o amser i brosesu rhai ceisiadau, os nodwyd pryder yn eu cylch. Cwblhawyd 99.7 y cant o'r ceisiadau cyntaf am gofrestru yn y DU o fewn 60 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 95 y cant.
- Cwblhawyd 99.8 y cant o'r ceisiadau am gofrestru o'r UE o fewn ein nod o 30 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 90 y cant (2018–2019: 100 y cant o fewn 60 diwrnod).
- Cwblhawyd 99.0 y cant o'r ceisiadau am gofrestru o wledydd tramor o fewn ein nod o 60 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 90 y cant (2018–2019: 100 y cant o fewn 60 diwrnod).

Roeddem wedi parhau i wella profiad y rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau cofrestru. O dan ein proses aildderbyn newydd, mae rhai a gofrestrodd yn y DU bellach yn gallu ailymuno â'r gofrestr o fewn 60 munud. Mae hyn wedi helpu cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol ac wedi lleihau nifer yr ymholiadau a chwynion i'n Canolfan Gyswllt.

Mae ein Canolfan Gyswllt yn helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio drwy ateb ymholiadau ganddynt am eu cofrestriad. Dros y 12 mis diwethaf, mae ein perfformiad wedi gwella fel bod 92.5 y cant o'r galwadau a geir yn cael eu hateb (2018–2019: 88 y cant). Roedd hyn yn cymharu â tharged o 90 y cant. Yn 2019–2020 roedd y Ganolfan Gyswllt wedi ateb 923 o alwadau y dydd ar gyfartaledd (2018–2019: 857), a'r nifer hwnnw'n codi i 1,078 yn y cyfnodau prysur ar gyfer cofrestru ac adnewyddu. Roedd y niferoedd mwyaf o alwadau ym Mawrth 2020 pan gafwyd 24,576 o alwadau, 22.90 y cant yn fwy nag ym Mawrth 2019 pan gafwyd 19,996 o alwadau. Cawsom 5,420 o negeseuon e-bost ym Mawrth 2020 – 27.89 y cant yn fwy nag ym Mawrth 2019 pan gafwyd 4,238. Roedd y gweithgarwch wedi cyrraedd ei uchafbwynt ar yr adeg hon o ganlyniad i ymholiadau mewn cysylltiad â'r pandemig COVID-19 ac, yn benodol, ynghylch cofrestru brys dros dro.

**92.5%** o'r galwadau a gafwyd wedi'u hateb
**o'i gymharu â tharged o 90%**
(2018–2019: 88%)

**923** o alwadau y dydd ar gyfartaledd
**1,078** yn y cyfnodau prysuraf
(2018–2019: 857)

**24,576** o alwadau ym Mawrth 2020
cynnydd o **22.90%**
(Mawrth 2019: 19,996)

**5,420** o negeseuon e-bost yn 2020
cynnydd o **27.89%**
(Mawrth 2019: 4,238)

> Gyda chynnydd cyffredinol yn y galw, a chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn helpu'r Ganolfan Gyswllt, ein perfformiad o ran ateb galwadau ffôn ym Mawrth 2020 oedd 89.5 y cant, ychydig o dan ein targed o 90 y cant. Roedd hyn yn gyflawniad eithriadol o ystyried bod y Ganolfan Gyswllt yn gweithredu o gartrefi cydweithwyr am y tro cyntaf yn hanes yr NMC.

## Cyhoeddi data am ein cofrestr

Yn ystod 2019–2020, roeddem wedi cyhoeddi dau adroddiad data am nyrsys, bydwragedd ac, am y tro cyntaf, am gymdeithion nyrsio sydd ar ein cofrestr. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein hadroddiad data diweddaraf ym mis Gorffennaf 2020. Drwy rannu data a gwybodaeth am dueddiadau, rydym yn ceisio cynorthwyo partneriaid allweddol a phartïon cysylltiedig eraill yn eu gwaith ar gynllunio ac ymchwilio i'r gweithlu.

Ym Mai 2019, roeddem wedi cyhoeddi ystadegau blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2018–2019. Roedd yr adroddiad yn dangos bod cynnydd o tua 8,000 yn nifer y bobl ar ein cofrestr rhwng Mawrth 2018 a Mawrth 2019. Gwelsom niferoedd mwy o'r rheini a hyfforddwyd yn y DU yn ymuno â'r gofrestr fel nyrsys, bydwragedd ac, ar gyfer Lloegr yn unig, gymdeithion nyrsio, a niferoedd llai ohonynt yn gadael, yn 2018–2019, o'i gymharu â 2017–2018. Cafwyd cynnydd o 126 y cant yn nifer y nyrsys a hyfforddwyd dramor a ymunodd â'r gofrestr, o 2,724 yn ystod 2017–2018 i 6,157 yn ystod 2018–2019. Roedd hyn yn dilyn nifer o newidiadau a wnaed i symleiddio ein systemau a rhoi gwell cymorth i ymgeiswyr o wledydd tramor i fynd drwy'r broses cofrestru.

Cyhoeddwyd adroddiad byrrach yn Rhagfyr 2019 ar ein ffigurau canol blwyddyn ar 30 Medi 2019. Am y tro cyntaf, roeddem wedi cyhoeddi ffigurau am bobl sydd â chofnodion cofrestru ychwanegol neu gymwysterau cofnodadwy. Y ddau grŵp mwyaf oedd 22,967 sydd â chymhwyster nyrs iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol (SCPHN) i ymwelwyr iechyd a 15,608 o bobl sydd â chymwysterau nyrsio ardal arbenigol.

Mae ein hadroddiad data diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn cynnwys y cyfan o flwyddyn ariannol 2019–2020. Mae'n dangos bod cyfanswm y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr wedi cynyddu o 698,237 ar ddechrau'r flwyddyn i 716,607 ar ddiwedd y flwyddyn, sef cynnydd o 2.6 y cant.

Roedd y twf hwn yn ganlyniad yn bennaf i gynnydd yn nifer y bobl a oedd yn ymuno yn y DU, ac o wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Roedd nifer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig o'r DU wedi codi o 591,894 i 600,906 (1.52 y cant). Yn yr un cyfnod, roedd nifer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig o'r tu allan i'r EEA wedi codi o 73,308 i 84,316 (15 y cant).

Mae nifer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig o'r EEA wedi gostwng yn raddol er 2016– 2017. Yn 2019–2020 y cyfanswm oedd 31,385, sef 1,650 (5 y cant) yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol.

## Adolygiad o gofrestru gan ymgeiswyr o wledydd tramor

Mae nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr a hyfforddwyd y tu allan i'r DU yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i wasanaethau iechyd a gofal ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Roeddem hefyd wedi derbyn y cymdeithion nyrsio cyntaf o wledydd tramor i'r gofrestr, pump ohonynt i gyd, yn ystod 2019–2020.

Parhaodd y gwaith a ddechreuwyd yn 2018–2019 i wneud y broses ar gyfer ymgeisio i gofrestru gan rai a hyfforddwyd mewn gwledydd tramor (y tu allan i'r UE/EEA) yn un mor syml â phosibl.

Yn Hydref 2019 lansiwyd ein proses newydd ar gyfer ymgeiswyr o wledydd tramor. Rhai o'r gwelliannau allweddol yw:

- mabwysiadu system ymgeisio ar-lein sy'n rhoi cyfrif personol i ymgeiswyr fel y gallant dracio eu cais
- symleiddio ein gofynion am dystiolaeth drwy eu cysoni â'r gofynion gan gyrff eraill fel Fisâu a Mewnfudo y DU, er mwyn lleihau'r costau ac ymdrech i ymgeiswyr
- ailddylunio ein gwefan a'n cyfarwyddiadau sydd bellach yn cynnwys canllawiau hawdd eu deall ac offeryn gwirio cyn ymgeisio ar gyfer ymgeiswyr a'r rheini sy'n eu helpu i ymgeisio.

Gwelsom gynnydd yn nifer yr ymgeiswyr o wledydd tramor a gostyngiad sylweddol hefyd yn yr amser a gymerir i ymgeisio, rhwng dechrau a diwedd y broses, ac rydym yn cael adborth cadarnhaol iawn am y broses newydd.

Rydym hefyd wedi dechrau datblygu Prawf Cymhwysedd newydd – sydd ar ffurf prawf ar gyfrifiadur ac arholiad clinigol strwythuredig gwrthrychol ar hyn o bryd – i'w gysoni â'n safonau newydd ar gyfer hyfedredd cyn cofrestru. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2020–2021, ond o ganlyniad i newid blaenoriaethau oherwydd y pandemig COVID-19, rydym yn adolygu'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r prawf newydd ar hyn o bryd.

## Ymadawiad y DU â'r UE

Rydym wedi sefydlu gweithgor mewnol ar effaith ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac rydym mewn cysylltiad yn gyson â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn drwyadl y goblygiadau i'n gwaith ac i'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio.

Yn y cyfnod cyn ymadawiad y DU â'r UE yn Ionawr 2020, roeddem wedi cysylltu â'r bobl o'r UE sydd ar ein cofrestr ar hyn o bryd a hefyd â'r rheini sydd wedi dechrau ar y broses o wneud cais i ymuno â'r gofrestr, i roi gwybodaeth iddynt am yr effeithiau posibl arnyn nhw. Rydym hefyd wedi diweddaru ein gwefan.

Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau ac i ymgysylltu'n agos â'r llywodraeth a rheoleiddwyr eraill yn ystod y cyfnod pontio hyd at 31 Rhagfyr 2020, fel y byddwn yn barod ar gyfer unrhyw ganlyniad o'r negodiadau presennol. Rydym hefyd yn monitro ac yn paratoi at y canlyniad i unrhyw negodiadau eraill ar gytundebau masnach â gwledydd tramor a all effeithio ar y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr neu ar ein prosesau cofrestru.

## Ailddilysu

Ers Ebrill 2016, mae angen i'r holl weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ddilyn y broses ailddilysu er mwyn adnewyddu eu cofrestriad bob tair blynedd. Mae'r broses ailddilysu'n hyrwyddo dysgu gydol oes drwy ofyn i weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol fyfyrio ar eu hymarfer a sut mae'r Cod yn gymwys i'w gwaith. Yn 2019–2020, roedd nifer mawr o'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn ailddilysu am yr ail dro, gan ymgymryd â dysgu gydol oes, gweithredu ar sail adborth a myfyrio'n gyson ar eu hymarfer yn unol â gofynion y broses ailddilysu.

Mae ailddilysu'n ffordd allweddol i ni hyrwyddo ymarfer diogel ac effeithiol. Rydym yn helpu gweithwyr proffesiynol a'r rheini o'u cwmpas i ddilyn y broses drwy ddarparu **set o ganllawiau, astudiaethau achos a fideos** sy'n egluro'r gofynion i bawb ar ein cofrestr. Mae'r broses ailddilysu'n darparu cyfoeth o ddata i ni hefyd am y gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr, fel y wybodaeth am gyflogaeth ac ymarfer y cyfeiriwyd ati'n gynharach yn yr adroddiad hwn.

Yn 2019–2020, roedd 211,588 o weithwyr proffesiynol yn y DU wedi ailddilysu, sef ychydig llai na 95 y cant. Mae'r ganran hon yn debyg i'r un yn y blynyddoedd cynt ac yn dangos bod gweithwyr proffesiynol yn cymryd rhan yn gyson yn y broses hon. Mae'r cyfraddau'n debyg ym mhob un o bedair gwlad y DU, ac yn yr holl fathau o gofrestriadau.

## Sut mae ailddilysu'n gweithio i wahanol grwpiau

Rhai canfyddiadau allweddol o ddata ailddilysu'r flwyddyn ddiweddaraf yw:

- **Oed:** Hyd at 60 mlwydd oed, mae'r cyfraddau ailddilysu'n weddol debyg rhwng grwpiau oedran, ond yn gostwng ar ôl yr oedran hwn. Mae ein harolwg o bobl sydd wedi gadael y gofrestr yn dangos mai ymddeol yw un o'r prif resymau dros adael y gofrestr ymhlith rhai dros 50 oed a gall hyn egluro'r cyfraddau is ar gyfer ailddilysu.
- **Ethnigrwydd:** Mae'r cyfraddau ailddilysu'n weddol debyg rhwng gwahanol grwpiau ethnig, ond mae rhai gwahaniaethau rhwng grwpiau. Er enghraifft, y gyfradd ailddilysu ymysg y grŵp Asiaidd/Asiaidd Prydeinig Indiaidd oedd 97 y cant o'i gymharu â 90 y cant ar gyfer y grŵp Asiaidd/Asiaidd Prydeinig Tsieineaidd.
- **Hunaniaeth rhywedd:** Mae'r cyfraddau ailddilysu ar gyfer y rheini y mae eu hunaniaeth rhywedd yn cyfateb neu heb gyfateb i'r rhyw a aseiniwyd iddynt ar eu geni yn debyg iawn (94 a 96 y cant yn y drefn honno).

- **Anabledd:** Roedd y gyfradd ailddilysu ymysg y rheini a oedd wedi datgan anabledd ar adeg yr ailddilysu ychydig yn is (91 y cant) nag ymysg y rheini a oedd heb ddatgan anabledd (95 y cant). Rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i ddarparu cymorth ac addasiadau rhesymol i bobl sydd ag anabledd. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y **diweddariad o'n polisi ar addasiadau rhesymol**.

Rydym hefyd wedi cael dadansoddiad gan arbenigwyr annibynnol o'r effaith, y prosesau a'r gofynion ar gyfer ailddilysu drwy ymchwil mewn tri maes gan **Ipsos MORI**. Rydym yn parhau i weithredu ar sail y canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn, er enghraifft, drwy ddarparu canllawiau ychwanegol i'r rheini sydd mewn lleoliadau ar wahân a chryfhau'r prosesau dilysu. Un agwedd bwysig ar ein hymchwil i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yw edrych ymhellach i weld a yw rhai grwpiau'n ei chael yn fwy anodd ailddilysu a beth allwn ei wneud am hyn.

## Pam mae pobl yn dewis peidio ag ailddilysu

Yn ôl y disgwyl, roedd 23 y cant o bobl sy'n ymarfer y tu allan i'r DU wedi peidio ag ailddilysu. Credwn mai'r rheswm bod y ffigur hwn yn uwch na'r ffigur o 4 i 5 y cant ar gyfer y rheini sy'n ymarfer yn y DU ac yn dewis peidio ag ailddilysu yw bod rhai ohonynt heb fwriad i ddychwelyd i'r DU i weithio.

Yn ein harolwg diweddaraf o'r rheini sydd wedi gadael y gofrestr, cafwyd mai'r tri rheswm a nodwyd amlaf dros adael y gofrestr, fel yn y blynyddoedd cynt, oedd: ymddeol; gormod o bwysau; a newidiadau mewn amgylchiadau personol. Roedd 18 y cant wedi nodi pryderon am fethu â chwrdd â'r gofynion am ailddilysu yn un o'r tri phrif reswm. Roedd hyn yn fwyaf tebygol o gael ei nodi gan bobl 41-50 oed a'r rheini a hyfforddwyd yn y DU neu'r tu allan i'r UE.

Mae ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025 yn glir bod ailddilysu'n aros yn flaenoriaeth. Bwriadwn adeiladu ar sail llwyddiant y pedair blynedd diwethaf er mwyn parhau i fireinio ein dull o gefnogi a hyrwyddo newidiadau mewn ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth ledled y DU.

## Galluogi gweithwyr proffesiynol

Cymeradwywyd ein safonau **Bydwraig y Dyfodol** newydd yn Hydref 2019 a'u lansio yn Ionawr 2020. Maent yn cynnwys safonau hyfedredd newydd i fydwragedd a safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru. Mae'r safonau'n ganlyniad i ddwy flynedd o ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â menywod a'u teuluoedd, bydwragedd, myfyrwyr a phartneriaid ac i adolygiad o'r dystiolaeth gyfoes yn y DU ac mewn gwledydd eraill.

Mae'r safonau hyfedredd yn pennu'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau y mae'n rhaid i fydwragedd eu dangos ar adeg ymgymhwyso, wrth ofalu am fenywod ar bob cam yn eu mamolaeth, am fabanod newydd-anedig, partneriaid a theuluoedd ym mhob math o leoliad gofal. Maent yn adlewyrchu'r hyn y gall y cyhoedd ddisgwyl i fydwragedd ei wybod a gallu ei wneud i ddarparu gofal diogel, effeithiol, parchus, caredig a thosturiol sy'n canolbwyntio ar y person. Bydd y safonau'n sicrhau bod bydwragedd sy'n ymuno â'r proffesiwn yn gallu gweithio mewn partneriaeth â menywod i ymateb i anghenion, barn, dewisiadau a phenderfyniadau menywod a'u babanod, gan ystyried yr amgylchiadau a chyd-destunau penodol lle mae menywod yn byw.

Cynhaliwyd digwyddiadau lansio ym mhedair gwlad y DU ar ddechrau 2020 i ddathlu'r proffesiwn a dangos yr effaith a gaiff gofal da gan fydwragedd ar y menywod a theuluoedd y maent yn eu cynorthwyo. Roeddem hefyd wedi noddi ein gwobr bydwreigiaeth gyntaf, gwobr Rhoi Polisi ar Waith Coleg Brenhinol y Bydwragedd.

> Mae'r safonau hyn yn agor y drws i gydraddoldeb mewn iechyd. Maen nhw'n cydnabod bod ein poblogaeth wedi newid ac nad yw bod yn 'uchel eich risg' yn ymwneud â chyflyrau meddygol yn unig, ond hefyd ag anghenion cymdeithasol cymhleth.
>
> **Bydwraig**

Roedd yr Athro Mary Renfrew, ein cynghorydd arweiniol annibynnol ar fydwreigiaeth, wedi cydweithio'n helaeth â'r Grŵp Arweinyddiaeth Meddwl ar fydwreigiaeth. Ymhlith y nifer mawr o arbenigwyr ar fydwreigiaeth yn y Grŵp yr oedd myfyrwyr, cynrychiolwyr grwpiau eirioli, bydwragedd, ymchwilwyr, disgyblaethau perthynol a chyrff proffesiynol a oedd wedi cefnogi'r gwaith i bennu cyfeiriad a siâp y safonau hyfedredd newydd drwy gydol y ddwy flynedd.

Yr Athro Gwendolen Bradshaw a arweiniodd ar ddatblygu safonau'r rhaglenni gyda grŵp cyflawni a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr ac addysgwyr ym meysydd theori ac ymarfer.

Darparwyd trosolwg a sicrwydd hanfodol gan ein Panel Bydwreigiaeth. Rydym yn ddiolchgar am ymrwymiad ac ymroddiad pawb a oedd yn gysylltiedig â datblygu, cydgynhyrchu a chyflwyno ein safonau newydd; bydd y safonau hyn o gymorth i fenywod, babanod a theuluoedd nawr ac yn y degawd nesaf. Rydym yn parhau i helpu i weithredu'r safonau newydd hyn drwy hybu gweithgarwch i ymgysylltu a darparu gwybodaeth, yn cynnwys taflen sy'n egluro'r safonau newydd i fenywod a theuluoedd.

Cyhoeddwyd ein safonau **Nyrs y Dyfodol** ym Mai 2018 a daethant i rym yn Ionawr 2019, ynghyd â'n safonau newydd ar addysg. Ers hynny, rydym wedi parhau i helpu i weithredu'r safonau newydd hyn ledled y DU wrth i ddarparwyr addysg a'u partneriaid mewn lleoliadau ymarfer fynd ati i ddyfeisio rhaglenni newydd sy'n cwrdd â'r safonau newydd. Cymeradwywyd y set gyntaf o raglenni nyrsio cyn cofrestru mewn pryd i gofrestru'r myfyrwyr ym Medi 2019. Oherwydd yr argyfwng COVID-19, rydym wedi ymestyn y cyfnod ar gyfer cymeradwyo'r holl raglenni sy'n weddill tan fis Medi 2021.

> Rydw i'n falch iawn y byddaf yn cael cyfle nawr i ddangos hyfedredd a dysgu ystod ehangach o sgiliau i gwrdd ag anghenion y bobl sydd o dan fy ngofal.
>
> **Myfyriwr nyrsio yn yr ail flwyddyn sydd wedi trosglwyddo i'r rhaglen sydd newydd gael ei chymeradwyo**

Mae ein **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** newydd yn cyflwyno rolau'r goruchwyliwr ymarfer ac asesydd ymarfer.

> Mae dysgu a chael adborth gan wahanol weithwyr proffesiynol fel goruchwylwyr ymarfer wedi bod yn rhan werthfawr iawn o'm profiad dysgu.
>
> **Myfyriwr bydwreigiaeth sy'n mynd ymlaen i'w hail flwyddyn**

## Cymdeithion nyrsio yn Lloegr

Yn Lloegr, cymdeithion nyrsio yw'r proffesiwn diweddaraf sydd wedi ymuno â'n cofrestr. Ers Ionawr 2019, rydym wedi cymeradwyo darparwyr rhaglenni gradd sylfaen ar sail ein safonau newydd ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru. Ar hyn o bryd, mae 46 o sefydliadau addysg wedi'u cymeradwyo i ddarparu rhaglenni cymdeithion nyrsio. Mae'r rôl hon yn datblygu ac yn cael ei derbyn fwyfwy mewn timau ledled Lloegr.

> Mae rheoleiddio'n ei gwneud yn rôl broffesiynol, ac rydw i'n teimlo'n frwd iawn ynghylch bod yn atebol ac yn gyfrifol am gwrdd â set o safonau a fydd yn gwneud ein rôl yn unigryw.
>
> **Cydymaith nyrsio dan hyfforddiant**

Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio'n agos â chyrff cenedlaethol eraill yn Lloegr i sicrhau bod cyflogwyr yn cael y cymorth a chanllawiau sydd eu hangen arnynt wrth leoli cymdeithion nyrsio.

> Rydw i'n credu ei fod yn beth gwych ein bod wedi cofrestru gyda'r NMC. Mae'n ein helpu i aros yn atebol, nid yn unig i ni'n hunain, ond i bawb rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw hefyd.
>
> **Cydymaith nyrsio**

## Dychwelyd i weithio

Cyhoeddwyd ein safonau newydd ar gyfer dychwelyd i weithio ym Mai 2019. Mae'r safonau hyn yn dangos sut mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gallu ailymuno â'n cofrestr os ydynt wedi bod i ffwrdd o'u gwaith. Mae'r safonau newydd yn caniatáu i bobl un ai llwyddo mewn cwrs dychwelyd i weithio seiliedig ar ganlyniadau neu fodloni Prawf Cymhwysedd yr NMC er mwyn gallu ailymuno â'n cofrestr. Rydym yn parhau i helpu i weithredu'r safonau dychwelyd i weithio ledled y DU wrth i ddarparwyr addysg gydweithio â phartneriaid sy'n darparu lleoliadau ymarfer er mwyn dyfeisio rhaglenni newydd sy'n gyson â'r fframwaith safonau addysg. Rydym yn datblygu Prawf Cymhwysedd newydd a fydd yn gyson â'n safonau newydd ar hyfedredd cyn cofrestru. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2020–2021 ond o ganlyniad i oedi oherwydd y pandemig COVID-19, rydym wrthi'n paratoi amserlen newydd ar gyfer cyflwyno'r prawf newydd.

## Safonau ôl-gofrestru

Wrth baratoi at adolygiad o'n gwaith mewn cysylltiad â safonau ôl-gofrestru, roeddem wedi cyhoeddi gwerthusiad annibynnol o'n safonau cymhwyster ar gyfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol ac ymarfer arbenigol ym Mai 2019. Rydym wedi sefydlu grŵp llywio safonau ôl-gofrestru ar gyfer y DU gyfan sy'n helpu i bennu cyfeiriad ein gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol, o dan gadeiryddiaeth Dr David Foster OBE.

Mae'r grŵp llywio safonau ôl-gofrestru wedi edrych yn ofalus ar y dystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn ledled y DU, er mwyn gallu trafod a gwneud argymhellion ar y llwybr i'w ddilyn yn y dyfodol. Daeth y grŵp i gonsenswS ar yr angen i ddatblygu safonau drafft newydd ar gyfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol ym meysydd ymweliadau iechyd, nyrsio ysgol a nyrsio iechyd galwedigaethol. Drwy gwmpasu cynnwys y safonau drafft newydd ar gyfer nyrsio cymunedol, gellir ffurfio barn ar sail tystiolaeth yn ddiweddarach yn y prosiect ar gymwysterau ymarfer arbenigol ar gyfer y dyfodol.

> Er bod gennym lawer o waith i'w wneud eto, rydw i'n falch iawn o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn. Mae'n bwysig rhoi digon o amser i wneud hyn yn iawn, fel y bydd nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned ym mhob un o'r pedair gwlad yn gallu parhau i ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel i bawb.
>
> **Dr David Foster OBE**
> **Cadeirydd, Grŵp Llywio Safonau Ôl-gofrestru**

> Ym mhob rhan o'r wlad, mae nyrsys ardal a chymunedol yn darparu gofal hyfedr yng nghartrefi pobl sydd yn aml yn gymhleth, gan arwain timau integredig mewn llawer achos, ac arloesi wrth ddatblygu ymarfer uwch gyda meddygon teulu ym maes gofal sylfaenol…. mae safonau hyfedredd yr NMC yn sylfaen hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol i bobl yn y gymuned.
>
> **Dr Bob Brown**
> **Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin, Gogledd Iwerddon**

## Sicrhau ansawdd addysg

Yn 2018–2019 roeddem wedi cyflwyno safonau newydd seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer sefydliadau addysg a phartneriaid iddynt sy'n darparu lleoliadau ymarfer, ochr yn ochr â Fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd. Ers hynny, rydym wedi cymeradwyo sefydliadau addysg ar sail y safonau newydd hyn. Mae adolygiad mwy manwl o'n gweithgarwch sicrhau ansawdd wedi'i ddarparu yn ein **Diweddariad Blynyddol ar Sicrhau Ansawdd** a gyhoeddwyd ar ein gwefan.

## Cymeradwyo

Roedd nifer y sefydliadau addysg cymeradwyedig wedi codi o 83 i 86 erbyn 31 Mawrth 2020, a'r rhain yn darparu 1,087 o raglenni cymeradwyedig. Rydym wedi gwrthod cymeradwyo dwy raglen ar sail ein safonau newydd, un rhaglen nyrsio cyn cofrestru ac un rhaglen i gymdeithion nyrsio.

Cododd nifer y sefydliadau addysg cymeradwyedig
**o 83 i 86**

a'r rhain yn darparu
**1,087**
o raglenni cymeradwyedig

## Monitro

Ar ôl cymeradwyo rhaglenni, byddwn yn eu monitro i sicrhau eu bod yn parhau i gwrdd â'n safonau.

Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg cymeradwyedig gyflwyno hunanasesiad a hunanddatganiad blynyddol mewn perthynas â rhaglenni a gymeradwywyd gan yr NMC. Roedd pob un o'r 82 o sefydliadau addysg a gymeradwywyd am fwy na blwyddyn, ac a oedd felly i adrodd yr un pryd am eu hunanasesiad blynyddol, wedi cyflwyno eu hadroddiadau hunanasesu ar gyfer blwyddyn academaidd 2018– 2019. O'r rhain, roedd 21 (26 y cant) heb ddarparu sicrwydd yn eu hadroddiad hunanasesu fod risgiau allweddol wedi'u rheoli. Roedd yn ofynnol i'r sefydliadau hyn ailgyflwyno eu hadroddiad, ac mae'r rhain wedi'u hadolygu ac mae sicrwydd wedi'i ddarparu bellach.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull newydd o fonitro sefydliadau ar sail data, fel y gallwn gymryd camau penodol a phriodol lle mae pryderon wedi'u codi, neu lle mae perygl o beidio â chyrraedd ein safonau. Mae hyn yn galw am gydweithio'n agos â rheoleiddwyr eraill ym meysydd addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn rhannu gwybodaeth a mynnu bod sefydliadau'n cymryd camau i roi gwybod am unrhyw bryderon.

Rydym wedi cyflwyno cyfnod o fonitro rhaglenni newydd yn yr holl sefydliadau sydd newydd gael eu cymeradwyo, ac mewn sefydliadau a gymeradwywyd eisoes sy'n rhedeg rhaglen cyn cofrestru newydd am y tro cyntaf. Ym mlwyddyn academaidd 2018–2019, cafodd 36 o sefydliadau eu monitro mewn perthynas â rhaglenni newydd.

## Cydweithio

Yr unig ffordd i ni wneud ein gwaith yn dda yw drwy gydweithio â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid ledled y DU er mwyn deall yn well y cyd-destun lle mae ein gweithwyr proffesiynol yn ymarfer.

Ar sail y canfyddiadau yn ein harolwg annibynnol o ganfyddiadau yn 2019, rydym wedi dechrau mabwysiadu dull cydgynhyrchu yn ein gwaith gyda'r cyhoedd, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a phartneriaid yn y sector iechyd a gofal.

> "Rydym yn gydweithredol: rydym yn gweld gwerth mawr yn ein perthnasoedd ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau wrth gydweithio'n dda ag eraill"

Mae hyn yn dilyn llwyddiant ein gwaith i gydgynhyrchu safonau Nyrs y Dyfodol a Bydwraig y Dyfodol, yn ogystal â'n strategaeth ar gyfer 2020–2025.

Drwy weithredu fel hyn, mae pobl yn cael eu cynnwys ar ddechrau prosiectau allweddol, gallant ddylanwadu ar benderfyniadau a sicrhau ein bod yn hyderus wrth wneud penderfyniadau.

Er mwyn cryfhau'r berthynas â phartneriaid ym mhedair gwlad y DU, rydym wedi penodi pedwar o'n cyfarwyddwyr presennol yn 'arweinwyr gwlad'. Rydym wedi datblygu dull cyson a chydgysylltiedig o ymgysylltu ledled y DU, dan arweiniad y cyfarwyddwyr gwlad, sydd wedi ein galluogi i gynyddu ein cysylltiad â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a chyrff iechyd a gofal er mwyn deall yn well y cyd-destun unigryw a phenodol lle maent yn gweithredu.

## Hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y proffesiynau

Mae meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn hanfodol i'n gallu i hyrwyddo hyder yn eu gwaith ac mae'n ein helpu i fod yn rheoleiddiwr effeithiol a dibynadwy.

Ym mis Tachwedd 2019, gwnaethom ddatganiad yn cydnabod y cyfraniad pwysig gan nyrsys ym maes gofal cymdeithasol oedolion i fywydau miliynau o bobl ledled y DU. Roedd y datganiad yn ymateb i bryderon bod nyrsys ym maes gofal cymdeithasol oedolion yn cael eu gweld yn llai medrus rywsut nag eraill ar ein cofrestr. Pwysleisiwyd nad oedd hyn yn wir a'n bod yn disgwyl yr un safonau, ymddygiadau a sgiliau gan nyrsys ym mha faes bynnag y maent yn gweithio.

> Ni ddylid byth beri i nyrsys ym maes gofal cymdeithasol deimlo eu bod yn cael eu diystyru neu eu gweld yn ail orau. Fel eu rheoleiddiwr proffesiynol, rydym yn fawr ein parch at nyrsys gofal cymdeithasol ac yn gwybod am y gwahaniaeth y maent yn ei wneud ym mywydau'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.
>
> **Andrea Sutcliffe**
> **Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC**

Yn Rhagfyr 2019, roeddem wedi dathlu 100 mlynedd o reoleiddio a balchder mewn nyrsio proffesiynol er mwyn nodi canmlwyddiant Deddf Cofrestru Nyrsys 1919. Roedd hyn yn gyfle i ni gryfhau ein cysylltiad â'r gweithlu nyrsio, gan gydnabod eu proffesiynoldeb a'u cyfraniad i iechyd a gofal ledled y DU.

Roeddem wedi cynnal digwyddiad dathlu yn Ysbyty St Thomas lle daeth mwy na 150 o'r rhai ar y gofrestr a'u partneriaid at ei gilydd. Yn dilyn cystadleuaeth a gynhaliwyd ar y cyd â'r *Nursing Times*, lansiwyd y bathodyn dathlu a gyflwynwyd i fwy na 10,000 o bobl. Ein gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch y digwyddiad oedd y mwyaf llwyddiannus hyd yma.

*Y bathodyn a ddewiswyd o blith 100 o gynigion: fe'i dyluniwyd gan Karen May Mojica, Arweinydd Tîm Nyrsio yn Ymddiriedolaeth GIG Dwyrain a Gogledd Swydd Hertford.*

2020 yw Blwyddyn y Nyrs a'r Fydwraig Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Oherwydd y pandemig COVID-19 rydyn ni a'n partneriaid wedi gorfod gohirio nifer o'r digwyddiadau a drefnwyd. Er hynny, rydym yn manteisio ar gyfleoedd yn y cyfryngau cymdeithasol a rhithiol i ddathlu'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth a hyrwyddo rôl hanfodol y proffesiynau.

# Cymhwyster i ymarfer

## Cyfeiriad strategol newydd

Fel y nodir yn yr adran am ein rôl ac yn ddiweddarach yn y Datganiad llywodraethu blynyddol, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adolygu ein perfformiad bob blwyddyn. Yn ei adolygiad ar gyfer 2018–2019, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2020, cafodd yr Awdurdod ein bod yn cwrdd â'r holl Safonau Rheoleiddio Da, ar wahân i ddwy sy'n ymwneud â chymhwyster i ymarfer. Yn ein gwaith ar gyflawni ein cyfeiriad strategol newydd, rydym yn ceisio ymateb i ganfyddiadau'r Awdurdod. Gwnaethom gynnydd da drwy gydol 2019–2020 a byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn 2020–2021.

Rydym yn parhau i annog pobl i geisio datrys pryderon ynghylch cymhwyster rhywun i ymarfer drwy weithredu ar lefel leol yn gyntaf, fel mai dim ond mewn perthynas â'r pryderon mwyaf difrifol y bydd angen cymryd camau rheoleiddio. Rydym wedi cydweithio'n agos â chyflogwyr i ddatblygu canllawiau newydd i'w helpu i ddeall pa bryd y dylid cyfeirio materion atom ni.

Lle mae defnyddwyr gwasanaethau neu aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â ni'n uniongyrchol am bryderon ynghylch gweithiwr proffesiynol, byddwn yn annog cyflogwr y gweithiwr proffesiynol hwnnw i gynnal ymchwiliad lleol os nad yw hynny wedi digwydd yn barod.

Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu ein gallu i gasglu gwybodaeth i'n helpu i asesu risg a gwneud penderfyniadau pan fydd achosion yn dod atom gyntaf.

Credwn ei bod yn bwysig ystyried y cyd-destun i ddigwyddiadau yn rhan o'n prosesau cymhwyster i ymarfer. Rydym wedi datblygu canllawiau newydd i'n timau cymhwyster i ymarfer sy'n amlinellu pwysigrwydd y cyd-destun. Rhoesom brawf ar 76 o achosion yn y cam sgrinio ar sail y canllawiau newydd hyn, a dechrau ail ran y profi ym mis Tachwedd 2019 ar bob cam yn y broses cymhwyster i ymarfer. Bydd y profi'n parhau yn 2020–2021 a bydd yn cynnwys ystyriaeth i'r cyd-destun mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

> "Rydyn ni'n ceisio gwella'r ffordd rydyn ni'n ystyried y cyd-destun…rydyn ni am ddeall y stori gyfan, nid rhan ohoni'n unig"
>
> **Matthew McClelland**
> **Cyfarwyddwr Cymhwyster i Ymarfer, NMC**

Rydym wedi helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i unioni pryderon am eu hymarfer cyn gynted â phosibl drwy'r canlynol:

- llunio pecyn gwybodaeth i helpu pobl i ddeall beth yw unioni a sut i ddarparu gwybodaeth i ni
- datblygu ffurflen disgrifio myfyriol i helpu pobl i ffurfio strwythur a chynnwys yn eu myfyrion ar eu hymarfer a beth aeth o'i le

- darparu astudiaethau achos sy'n dangos sut mae'r wybodaeth hon yn gallu helpu ein penderfynwyr.

Rhoesom brawf ar ein cyngor ar unioni drwy gydol 2018–2019 a'i lansio'n swyddogol yn Rhagfyr 2019. Yn rhan o'n hymholiadau cychwynnol, rydym bellach yn anfon ein canllawiau ar unioni at yr holl nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a gyfeiriwyd atom.

Gall gwrandawiadau fod yn brofiad llawn straen i bawb sy'n gysylltiedig. Dyma pam rydym am fabwysiadu trefn lle cynhelir gwrandawiad dim ond lle mae anghytuno ar ffeithiau'r achos. Rydym wedi ceisio gwella ein ffordd o ymgysylltu â nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ynghylch sut byddwn yn edrych ar eu hachos, beth yw'r honiadau a pha dystion a thystiolaeth rydym yn dibynnu arnynt i'w helpu i ymateb yn llawn, yn cynnwys dweud wrthym sut maent wedi unioni'r pryderon am eu hymarfer. Lle na fydd rhywun yn ymgysylltu â ni, ac nad oes anghytuno ar ffeithiau'r achos, yna byddwn yn cynnal cyfarfod yn hytrach na gwrandawiad llawn. Rydym wedi darparu hyfforddiant i aelodau'r paneli a pharhawn i wneud hynny drwy gydol 2020–2021 fel y gallant ddatrys mwy o achosion mewn cyfarfodydd yn hytrach na gwrandawiadau. Penodir aelodau'r paneli ar sail annibynnol i wneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd a gwrandawiadau cymhwyster i ymarfer. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan am **y ffordd y mae ein paneli'n gweithio**.

Rydym yn gweithio gyda phartner allanol sy'n ein helpu i weithredu'r newidiadau hyn yn effeithiol. Byddwn yn darparu hyfforddiant pwrpasol i'n timau i helpu i gryfhau'r ymddygiadau cadarnhaol a fydd yn ein helpu i ddilyn ein cyfeiriad strategol newydd. Parhawn i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cyflogwyr, nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a chyrff proffesiynol i'w hannog i ryngweithio â ni mewn ffordd sy'n hybu'r ffyrdd newydd o weithio drwy gydol y broses cymhwyster i ymarfer.

## Dull sy'n canolbwyntio ar y person

Yr amcan o ddod yn rheoleiddiwr mwy caredig a pherson-ganolog oedd wrth wraidd ein holl waith y flwyddyn hon, wrth i ni barhau i weithredu ar yr argymhellion yn adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o'r gwersi i'w dysgu o'r ffordd roeddem wedi delio ag achosion cymhwyster i ymarfer Bae Morecambe.Rydym hefyd wedi cymryd camau ar yr argymhellion yn adroddiad Verita, sy'n cael ei drafod yn fwy manwl yn yr adran ar 'Bod yn sefydliad sy'n dysgu' yn yr adroddiad hwn.

- Dylai'r NMC sicrhau bod Cadeiryddion Paneli wedi'u briffio'n drwyadl am y pwysigrwydd o ddangos parch tuag at berthnasau a gafodd brofedigaeth.

- Dylai'r NMC roi blaenoriaeth i sicrhau ei fod yn trin teuluoedd a chleifion gyda pharch a'i fod yn onest ac yn agored gyda nhw.

Yng nghyswllt cymhwyster i ymarfer, rydym wedi canolbwyntio ar roi llais i aelodau o'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o deuluoedd sy'n gysylltiedig â'n hachosion, yn ogystal â sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'n hachosion yn gallu cael y cymorth priodol ar yr adeg iawn.

Yn 2019–2020 rydym wedi ceisio helpu i gryfhau llais y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd yn y broses cymhwyster i ymarfer mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys: eu helpu i roi'r dystiolaeth orau yn eu hachos drwy roi mwy o eglurhad i'r bobl sy'n cymryd rhan; datrys achosion yn gynharach; a gwneud ein proses yn fwy agored a thryloyw.

Mae ein Grŵp Llywio Cymorth Cyhoeddus wedi parhau â'i gyfarfodydd drwy gydol 2019–2020 ac rydym wedi ymgysylltu ag ef ar gynlluniau, syniadau a mentrau ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus. Cyfrannodd y Grŵp Llywio at ddatblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025 ac at brosiect ymchwil a gomisiynwyd gennym ar lais y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Rydym yn treialu llwybr cymorth cyhoeddus newydd sy'n cynnig cymorth teilwredig i ddefnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o deuluoedd sy'n codi pryderon gyda ni, o'r ymholiad cyntaf hyd at derfyn yr achos. Lansiwyd hyn yn Hydref 2019 a byddwn yn adolygu'r gwasanaeth ar ôl 12 mis.

Y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi lansio llinell gymorth sy'n cynnig cefnogaeth emosiynol i aelodau o'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd a gymerodd ran yn ein proses.

**Yn 2019–2020, cafodd ein llinell cefnogaeth emosiynol 880 o alwadau ffôn gan aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran yn ein prosesau cymhwyster i ymarfer**

Rydym hefyd wedi cyflwyno llinell gofal sydd ar gael am ddim i gynnig cefnogaeth emosiynol a help ymarferol i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n gysylltiedig ag achosion cymhwyster i ymarfer. Lansiwyd y llinell gofal ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref 2019 am gyfnod treialu o 12 mis. Ar ôl hynny, byddwn yn ei hadolygu a'i chynnwys yn ein holl brosesau.

**Rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020, cafodd y llinell gofal 280 o alwadau gan nyrsys, bydwragedd a cymdeithion nyrsio a oedd yn gysylltiedig â'n prosesau cymhwyster i ymarfer**

## Perfformiad ar Gymhwyster i Ymarfer

Yn 2019–2020 codwyd 5,704 o bryderon newydd gyda ni, sy'n 6 y cant yn fwy na'r nifer a godwyd yn 2018–2019.

Roeddem wedi cyrraedd ein dau darged perfformiad ar gymhwyster i ymarfer.

- Roeddem wedi gorfodi 81 y cant o'r gorchmynion interim o fewn 28 diwrnod ar ôl codi pryderon gyda ni (2018–2019: 84 y cant). Mae gorchymyn interim yn gyfyngiad dros dro ar yr ymarfer gan nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio a fydd yn para tra byddwn yn ymchwilio i bryderon.
- Roeddem wedi cwblhau 81 y cant o'n hachosion o fewn 15 mis (2018–2019: 86 y cant).

Roeddem wedi gorfodi

**81 y cant**

**o'r gorchmynion interim**

o fewn **28 diwrnod**

ar ôl codi pryderon gyda ni

(2018–2019: 84 y cant)

Roeddem wedi cwblhau

**81 y cant**

**o'n hachosion**

o fewn **15 mis**

(2018–2019: 86 y cant)

Mae'r perfformiad ar y cam sgrinio wedi amrywio y flwyddyn hon. O ganlyniad i hyn, mae ein perfformiad ar y targed ar gyfer gorchmynion interim wedi gostwng, ac roedd ein llwyth achosion yn fwy nag a ragwelwyd oherwydd oedi yn y broses penderfynu. Rhoesom nifer o gynlluniau ar waith i wella amseroldeb yn y maes hwn. Ar ddechrau 2020 recriwtiwyd nifer o benderfynwyr ychwanegol. Fodd bynnag, ni welsom y manteision o hyn eto oherwydd effaith y pandemig COVID-19 ar ein gweithrediadau.

Gwelsom gynnydd yn nifer y ceisiadau am ailystyried penderfyniadau i gau achosion ar y cam sgrinio ac rydym wedi sefydlu strwythur newydd i'r tîm sy'n rheoli'r ceisiadau hyn, yn cynnwys recriwtio i nifer o rolau asesu achosion. Rydym hefyd yn ailedrych ar ffyrdd i wella ansawdd ein penderfyniadau ar y cam sgrinio.

Yn ogystal â hyn, cafwyd gostyngiad yn nifer y penderfyniadau gan ein Harchwilwyr Achosion yn ystod y flwyddyn – cyfanswm o 1,405 (1,638 yn 2018–2019) fel bod llai o achosion wedi cyrraedd y cam dyfarnu. Felly gwelsom lai o ganlyniadau ar gam terfynol y broses. Mewn 58 y cant o'r penderfyniadau, roedd yr Archwilwyr Achosion wedi penderfynu peidio â chymryd camau pellach.

Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at ostyngiad yng nghanran yr achosion a gwblheir o fewn 15 mis. Rydym yn disgwyl y bydd ein perfformiad yn y maes hwn yn gostwng ymhellach yn 2020–2021 oherwydd oedi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 ond byddwn yn dal ein llwythi achosion o dan sylw drwy'r amser.

Ym Mawrth 2020, roeddem wedi cymryd camau brys i newid blaenoriaethau ein gwaith yng nghyd-destun y pandemig COVID-19. Ein prif amcan oedd parhau â'n rôl bwysig i ddiogelu'r cyhoedd gan leihau'r baich rheoleiddio ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyflogwyr. Roeddem wedi nodi pedwar gwasanaeth hanfodol ym maes cymhwyster i ymarfer y mae'n rhaid eu cynnal drwy gydol cyfnod y pandemig:

- asesu lefel y risg o ganlyniad i godi pryderon a chael gwybodaeth newydd
- gwneud ceisiadau am orchmynion interim ac am eu hadolygu mewn achosion lle'r oedd pryder o ran diogelwch y cyhoedd ar y pryd, neu newid yn lefel y risg
- adolygu gorchmynion parhaol a oedd i fynd yn ddi-rym er mwyn parhau i ddiogelu'r cyhoedd
- gwneud ceisiadau i'r Uchel Lys/Llys y Sesiwn i ymestyn cyfnod gorchmynion interim a oedd i fod i ddod i ben er mwyn parhau i ddiogelu'r cyhoedd.

Er ein bod yn ceisio cyflawni cymaint â phosibl o'n gwaith arall ar achosion, bydd COVID-19 yn cael effaith hir a sylweddol ar ein perfformiad gweithredol ac ar weithredu ein dull strategol o ddelio â chymhwyster i ymarfer.

## Ffigurau cymhwyster i ymarfer 2019–2020

Mae ffigurau 2018–2019 rhwng cromfachau er mwyn cymharu.

### Sgrinio

Pan godir pryderon gyda ni ynghylch cymhwyster rhywun i ymarfer **byddwn yn cadarnhau a yw ar ein cofrestr ac yn asesu a yw'r pryderon yn galw am ymchwiliad llawn.**

Codwyd

**5,704**

**o bryderon newydd**

(2018–2019: 5,373)

### Gorchmynion interim

Lle bo angen, **ar unrhyw adeg gall ein paneli annibynnol gymryd camau brys, dros dro i ddiogelu'r cyhoedd** tra byddwn yn ymchwilio i'r pryderon a godwyd.

**Cytunodd ein paneli ar:**

### Ymchwiliadau

**Lle bo angen, byddwn yn ymchwilio'n llawn i'r pryderon a godwyd ynghylch cymhwyster i ymarfer.**

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd ein Harchwilwyr Achosion yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach i ddiogelu'r cyhoedd. Gall Archwilwyr Achosion benderfynu peidio â chymryd camau pellach os byddant yn dod i'r casgliad nad yw'r pryderon yn galw am gamau rheoleiddio neu os yw'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi cymryd camau digonol i wella ei ymarfer.

Cwblhawyd

**1,405**

**o ymchwiliadau**

**Penderfynodd ein Harchwilwyr Achosion:**

(2018–2019: 1,638)

### Dyfarnu

**Lle bo angen, bydd ein paneli annibynnol yn dyfarnu ar achosion.**

Bydd y paneli'n penderfynu a oes angen cymryd camau rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd. Gall paneli benderfynu peidio â chymryd camau pellach os byddant yn dod i'r casgliad na phrofwyd yr honiadau neu os yw'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi cymryd camau digonol i wella ei ymarfer.

**Dyfarnodd ein paneli mewn**

**452**

**o achosion**

**a phenderfynu:**

(2018–2019: 661)

Daethom i benderfyniadau ar **4,650** o achosion (2018–2019: 5,379)

**Penderfynwyd bod angen ymchwiliad llawn i** **1,669** **o achosion** (2018–2019: 1,990)

**Penderfynwyd nad oedd angen ymchwiliad llawn i** **2,981** **o achosion** (2018–2019: 3,389)

Gorchmynion **atal dros dro** mewn **245** **o achosion** (2018–2019: 238)

Gorchmynion **amodau ymarfer dros dro** mewn **316** **o achosion** (2018–2019: 268)

Peidio â **chymryd camau pellach mewn** **812** **o achosion** (2018–2019: 963)

**Rhoi cyngor** neu **rybudd,** neu **gytuno ar ymgymeriad** mewn **59** **achos** (2018–2019: 155)

**Cyfeirio** **534** **achos** **i'w dyfarnu** (2018–2019: 520)

**Tynnu'r person** oddi ar y gofrestr mewn **127** **o achosion** (2018–2019: 162)

Tynnu enw'r person oddi ar y gofrestr dros dro mewn **142** **o achosion** (2018–2019: 231)

Rhoi gorchmynion amodau ymarfer mewn **69 achos** (2018–2019: 99)

**Rhoi rhybuddiad mewn** **42 achos** (2018–2019: 57)

**Peidio â chymryd camau pellach mewn** **72 achos** (2018–2019: 112)

## Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr a Gwybodaeth Reoleiddio

### Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr

Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr (GCC) yn parhau i ymgysylltu'n lleol ac mae ganddo Gynghorydd Rheoleiddio sy'n gysylltiedig â Chymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a phob un o saith rhanbarth y GIG yn Lloegr.

Mae'r GCC yn darparu llinell gynghori i gyflogwyr i'w helpu i ddelio mewn ffordd deg a chyson ag unrhyw bryderon am gymhwyster i ymarfer. Yn 2019–2020 ymatebodd y GCC i 686 o alwadau i'w linell gynghori. O'r rhain, cynghorwyd 295 o alwyr i gyfeirio'r achos i'n timau cymhwyster i ymarfer.

Hefyd, darparodd y Cynghorwyr Rheoleiddio 101 o setiau dysgu y flwyddyn hon, wedi'u haddasu i wahanol sefydliadau a chynulleidfaoedd. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau dysgu a ddarparwyd gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar Ymddygiadau Proffesiynol a Diogelwch Cleifion. Ar hyn o bryd, mae'r GCC yn datblygu ffyrdd i gynorthwyo a deall yn well yr amgylcheddau sydd gan rai ar y gofrestr mewn sectorau cymhleth ac amrywiol, fel gofal cymdeithasol oedolion, yn y DU.

### Yr Uned Gwybodaeth Reoleiddio

Roeddem wedi parhau i ddatblygu ein gallu dadansoddol, gan gynhyrchu adroddiadau mewnwelediad amrywiol i helpu i wneud penderfyniadau a chael mewnwelediad i'n prosesau rheoleiddio. Roeddem wedi cyflwyno offer a galluoedd gwyddorau data ac rydym wedi dechrau arbrofi â thechnegau dysgu peirianyddol er mwyn adeiladu modelau i gynnal ein swyddogaethau craidd. Mae'r offer a gallu newydd yn ein galluogi i ddatblygu algorithmau a systemau i gael gwybodaeth a mewnwelediadau na ellid eu cael o'r blaen o ddata strwythuredig ac anstrwythuredig.

Roeddem wedi cynnal adolygiad o'n Grŵp Cydgysylltu Gwybodaeth a sefydlwyd i gydgysylltu camau ar draws y sefydliad sy'n ymwneud â risgiau rheoleiddio a nodwyd mewn gwahanol ffynonellau gwybodaeth. O ganlyniad i hyn, diwygiwyd aelodaeth a rôl y grŵp er mwyn ystyried yr holl risgiau rheoleiddio, o ba ffynhonnell bynnag, i benderfynu'r llwybr a'r camau gweithredu gorau i ddelio â nhw, yn ein holl gyfrifoldebau rheoleiddio. Mae'r grŵp hefyd yn ystyried themâu a thueddiadau newydd sy'n dod i'r golwg drwy ein gweithgarwch rheoli risg rheoleiddio, gan nodi a lledaenu'r gwersi a ddysgwyd wrth reoli risg rheoleiddio.

Gwnaethom femoranda cyd-ddealltwriaeth a chytundebau rhannu data â rheoleiddwyr a sefydliadau eraill ledled y DU.

Roeddem wedi cydweithio â rheoleiddwyr eraill i adolygu a gwella'r **Protocol pryderon newydd** yn Lloegr ac wedi defnyddio'r broses hon i gychwyn trafodaethau â rheoleiddwyr a sefydliadau eraill ar faterion newydd sydd wedi dod i'n sylw. Rydym hefyd yn cydweithio ag eraill i ddatblygu protocol cyfatebol yn yr Alban.

## Chwythu'r chwiban wrth yr NMC fel person rhagnodedig

Mae'r NMC yn 'berson rhagnodedig' o dan y gyfraith. Mae hyn yn golygu bod nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio, myfyrwyr neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn gallu codi pryderon gyda ni os ydynt wedi canfod drwgweithredu yn eu gweithle neu leoliad ymarfer. Mae ein polisi yn amlinellu'r meini prawf a ddefnyddiwn i benderfynu a ddylid trin gwybodaeth a gawn fel datgeliad chwythu'r chwiban.

Yn 2019–2020 cawsom 107 o ddatgeliadau a oedd yn cwrdd â'n meini prawf ar gyfer yr hyn y credwn yn rhesymol eu bod yn ddatgeliadau chwythu'r chwiban (2018–2019: 34). O'r 107, cafwyd 23 drwy ein blwch post chwythu'r chwiban ac roedd 84 yn ddatgeliadau a wnaed yn ystod achosion cymhwyster i ymarfer.

Rhai o'r pynciau a godwyd amlaf gyda ni gan chwythwyr chwiban yn y flwyddyn hon oedd: diogelwch a gofal cleifion; arwain a rheoli; ac ymddygiad (yn cynnwys bwlio, bygwth neu aflonyddu ar gydweithwyr).

Bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd â rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill ar y ffordd roeddem wedi delio â datgeliadau chwythu'r chwiban. Gellir gweld yr adroddiad ar y cyd ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban ar gyfer 2018–2019 **ar ein gwefan**. Cyhoeddir yr adroddiad ar y cyd ar gyfer 2019–2020 yn ddiweddarach eleni.

## Bod yn sefydliad sy'n dysgu

Rydym yn cyflawni rôl bwysig fel rheoleiddiwr drwy ddeall sut y gallwn ddysgu gwersi pan aiff pethau o'i le mewn gwasanaethau iechyd a gofal ac yn ein prosesau ein hunain. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â rheoleiddwyr eraill a chyflogwyr i helpu i feithrin diwylliant agored sy'n dysgu er mwyn sicrhau newid a gwelliant. Byddwn yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd yn yr holl ymchwiliadau pwysig.

Gwyddom ein bod wedi gwneud cam â nifer mawr o bobl yn ein hymateb i'r methiannau mewn gofal yn Ysbyty Coffa Rhyfel Gosport – ond rydym wedi gwneud rhai newidiadau pwysig ers y digwyddiadau trist hynny. Rydym wedi nodi themâu allweddol yn adroddiad Panel Annibynnol Gosport y credwn y bydd yn fuddiol eu hystyried gan weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol. Ar sail y themâu hyn, rydym wedi creu adnodd i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael **ar ein gwefan**.

Yn yr adroddiad Lessons Learned Review a gyhoeddwyd yn 2018 gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar y ffordd roeddem wedi delio ag achosion cymhwyster i ymarfer Bae Morecambe, nodwyd rhai cwestiynau a oedd heb eu hateb ynghylch yr hyn a ddigwyddodd i eitem o dystiolaeth mewn un o'r achosion. O ganlyniad i'r cwestiynau hynny, roeddem wedi gofyn i sefydliad annibynnol, Verita, edrych ar yr hyn a ddigwyddodd a sut roedd ein cyfathrebiadau wedi troi'n anghyson. Mae'n glir o'r **ymchwiliad** i ni gael nifer Rydym wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed gan yr ymchwilwyr annibynnol ac wedi cyflawni gwaith arall i ddeall sut y gallwn wneud mwy

i sicrhau bod tystion, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed, yn gallu rhoi tystiolaeth mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o ofid â phosibl. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddysgu gwersi o'r gorffennol, i weithredu ar yr argymhellion o'r ymchwiliad hwn ac i barhau â'r gwelliannau diweddar wrth i ni geisio meithrin diwylliant cyfiawn sy'n dysgu, o fewn yr NMC ac yn y system iechyd a gofal yn gyffredinol.

Yn Chwefror 2020, cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad annibynnol i'r arferion a oedd yn gysylltiedig â diofalwch llawfeddyg y fron Ian Paterson a gafodd effaith drychinebus ar nifer mawr o gleifion. Rhoesom dystiolaeth i'r ymchwiliad ar y ffordd roeddem wedi delio â nifer o achosion cymhwyster i ymarfer ac roeddem wedi adolygu'r argymhellion yn adroddiad yr ymchwiliad yn fanwl pan gyhoeddwyd ef er mwyn deall beth allem ei wneud yn rhagor i sicrhau bod modd darparu gofal gwell a mwy diogel. Y cam nesaf rydym wedi cytuno i'w gymryd yw y byddwn yn cydweithio â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac eraill i gytuno ar ffordd i ymateb ar y cyd.

## Dysgu gwersi o gwynion am ein gwaith

Mae cwynion yn bwysig i ni. Rydym yn cydnabod bod pob pryder a godir gan rywun sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn cynnig cyfle i wella. Bydd cwynion yn dwyn problemau i'n sylw ac yn rhoi cyfle gwerthfawr i ddysgu gwersi wedi i bethau fynd o'i le.

Rydym yn ceisio trin unrhyw gwynion a gawn am y gwasanaeth a ddarparwyd drwy weithio mewn ffordd deg ac amserol, gan ddangos parch at y rheini sy'n codi cwynion a gwrando ar eu pryderon. Rydym wedi nodi 203 o bwyntiau dysgu yn 2019–2020 ac wedi sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn helpu i wella ein gwasanaethau. Rydym yn darparu adroddiadau rheolaidd i gydweithwyr am y prif wersi a ddysgwyd o gwynion a byddwn yn gweithio gyda thimau i sicrhau eu bod yn gweithredu ar sail adborth.

### Cwynion

Yn ystod y flwyddyn lansiwyd ein swyddogaeth Ymholiadau a Chwynion newydd i wella ein ffordd o ddelio â chwynion, drwy sicrhau ein bod yn deall yn iawn beth oedd achos y gŵyn a datrys materion mor gyflym â phosibl.

Yn 2019–2020, cawsom 888 (2018–2019: 759) o gwynion ffurfiol. Roeddem wedi ymateb i 94 y cant o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith (2018–2019: 86 y cant o fewn 20 diwrnod gwaith).

Yn dilyn ein hymateb, roedd 19 o bobl yn parhau'n anfodlon (2018–2019: 94). Felly roeddem wedi adolygu'r ffordd roeddem wedi delio â'u cwyn ac wedi ymateb iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfartaledd (2018–2019: 13.5 diwrnod gwaith).

Cawsom
**888** **o gwynion ffurfiol**
(2018–2019: 759)

ac ymateb i 94% o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith
**(2018–2019: 86%)**

Yn unol â'n dull person-ganolog, roeddem wedi cwrdd ag wyth o bobl a wnaeth gwynion a oedd yn gymhleth ac wedi'u cyflwyno ers amser hir, ac wedi cytuno ar gynllun gweithredu a ffordd ymlaen i ddatrys y materion.

## Adborth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau

Yn ystod 2019–2020, roeddem wedi datblygu dull newydd o gasglu adborth gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau – yn cynnwys nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio ac aelodau o'r cyhoedd a gysylltodd â ni. Mae'r dull hwn o weithredu yn hanfodol i sefydliad sy'n dysgu, sydd â diwylliant agored sy'n croesawu, yn parchu ac yn gweithredu ar sail y mewnwelediad a gafwyd gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Mae tair prif elfen yn ein dull newydd o weithredu:

- cyflwyno ein cwestiynau safonol newydd mewn arolygon ym mhob un o'r prif feysydd gweithredol
- mapio taith y defnyddiwr gwasanaethau ym mhob un o'r prif feysydd gweithredol
- ymgysylltu â'r prif grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau drwy raglen o grwpiau ffocws ar ein swyddogaethau allweddol.

Rydym wedi dechrau defnyddio holiadur newydd i gael adborth yn y Ganolfan Gyswllt ac yn ystod 2020–2021 byddwn yn cyflwyno'r holiadur yng ngweddill y sefydliad. Byddwn yn gofyn cwestiynau penodol am bob proses ar gyfer defnyddwyr allanol ym mhob rhan o'r sefydliad fel y gallwn gasglu adborth ar bwyntiau allweddol.

Os yw pobl yn anfodlon ar ein gwasanaethau, byddwn yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol ac wedyn yn trefnu i ymchwilio i unrhyw bryderon a godwyd drwy ein proses gwyno.

# Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau eraill am wybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad agored a thryloyw ac wedi ceisio gwella ein ffordd o ymateb i geisiadau, yn cynnwys ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau am ddiogelu data. Mae'r rhain yn cynnwys hawl pobl i weld eu gwybodaeth bersonol eu hunain, yn ogystal â'r hawl i herio'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn prosesu eu data personol.

Rydym hefyd yn ymateb i geisiadau am ddatgelu gan sefydliadau fel yr heddlu a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Disclosure Scotland, sy'n sefydliadau y gallwn rannu gwybodaeth bersonol â nhw os oes sail gyfreithlon dros ddatgelu.

Yn 2019–2020, gwnaethom newidiadau sylweddol yn ein prosesau mewnol er mwyn ymateb yn fwy amserol a sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth person-ganolog i'n cwsmeriaid, gan weithredu mor dryloyw â phosibl o fewn terfynau'r gyfraith. Dim ond lle mae hynny'n angenrheidiol y gwrthodir datgelu gwybodaeth ac rydym yn gweithio gyda'r rheini sy'n gwneud ceisiadau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth y maent yn ei cheisio.

### Rhyddid Gwybodaeth

**344**
wedi dod i law
(2018–2019: 397)

**86%**
(2018–2019: 72%)
wedi'u hateb o fewn y cyfnod statudol o 20 diwrnod gwaith

### GDPR

**166**
wedi dod i law
(2018–2019: 204)

**81%**
(2018–2019: 75%)
wedi'u hateb o fewn y cyfnod targed o 1 mis calendr

### Trydydd Parti

**829**
wedi dod i law
(2018–2019: 515)

**94%**
(2018–2019: 90%)
wedi'u hateb o fewn y cyfnod targed o 1 mis

### Cyfanswm y ceisiadau am wybodaeth lle rhoddwyd ymateb prydlon y flwyddyn hon

**1,211**
allan o **1,339**
**neu 90%**

Os bydd rhywun yn anfodlon ar y ffordd y mae ei gais am wybodaeth wedi'i drin, bydd ganddo hawl i wneud cais am adolygiad mewnol. Cawsom 16 o geisiadau am adolygiad mewnol yn ystod 2019–2020, sy'n ffigur isel ar gyfartaledd, sef dim ond 1.2 y cant o'r achosion.

Roedd dau berson yn parhau'n anfodlon yn dilyn y canlyniad i adolygiad mewnol ac wedi ein hatgyfeirio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Yn yr achos cyntaf, cytunodd yr ICO â'n penderfyniad a dewis peidio ag ymchwilio ymhellach. Yn yr ail achos, roedd yr ICO wedi derbyn (ar ôl ymchwilio) y rhesymau nad oeddem yn gallu darparu'r wybodaeth a geisiwyd.

Rydym am fynd ati i gynyddu'r wybodaeth a gyhoeddir ar ein gwefan, yn rhan o'n hymrwymiad i fod yn rheoleiddiwr tryloyw. Bob chwarter blwyddyn, byddwn yn dadansoddi tueddiadau mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth lle'r ydym wedi datgelu gwybodaeth. Yn ystod 2020–2021, byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o ddadansoddi yn y meysydd hynny lle byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

## Equality, diversity and inclusion

Roedd ein tîm cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn falch iawn o gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Tîm y Flwyddyn 2019 y Rhwydwaith Cyflogwyr dros Gydraddoldeb a Chynhwysiant (ENEI). Cawsom gydnabyddiaeth, ymysg pethau eraill, am gyflwyno **Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant,** penodi uwch hyrwyddwyr amrywiaeth, a chreu pecyn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r pecyn hwn wedi bod yn amhrisiadwy o ran sicrhau ein bod yn rheoleiddio'n deg ac yn gwneud asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wrth gynllunio a rheoli newid.

Mae data a gwybodaeth yn hanfodol i'n gwaith a'r flwyddyn hon rydym wedi diweddaru ein holiadur monitro amrywiaeth i gynnwys cyfrifoldebau gofalu, mathau o anabledd a blwch testun agored ar gyfer hunaniaeth rhywedd er mwyn cael darlun manylach o ddemograffeg y bobl sydd ar ein cofrestr. Fel y nodwyd yn gynharach, roeddem hefyd wedi dechrau ar **waith ymchwil newydd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**, er mwyn cael gwell gwybodaeth am y ffordd y mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn symud drwy ein prosesau ac er mwyn gweld a oes unrhyw ganlyniadau anghymesur i unrhyw grwpiau. Bwriadwn gyhoeddi'r ymchwil hon yn ddiweddarach yn 2020.

Rydym wedi diweddaru ein **polisi ar addasiadau rhesymol ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau** ac wedi llunio canllawiau gweithredol i'w ategu ar gyfer ein cyflogeion. Enghreifftiau eraill o gamau i wella hygyrchedd oedd datblygu taflenni cwynion hawdd eu darllen a gynigir gan ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus a'n tîm Cwynion Corfforaethol.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u sefydlu ar bob lefel yn y sefydliad. Yn ogystal ag uwch hyrwyddwyr amrywiaeth, mae uwch grŵp arwain ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n monitro cynnydd ar bob mater sy'n gysylltiedig â hyn. Darperir hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'r holl staff yn ogystal â hyfforddi ac ymgysylltu atodol i wella dealltwriaeth ein cydweithwyr o bynciau sy'n gysylltiedig â hyn a'u cymhwysedd ynddynt (er enghraifft, hunaniaeth rhywedd a gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cwsmeriaid). Roeddem hefyd wedi cynnal digwyddiadau i hybu ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau iechyd a'r canlyniadau gwahanol i bobl LGBT, lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau dysgu. Ym mis Gorffennaf 2019, ni oedd y rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol cyntaf i ymuno ag ymgyrch **'Ask Listen Do'** NHS England. Nod yr ymgyrch hon yw ei gwneud yn haws i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth leisio barn a gwella ein ffordd o wrando a gweithredu ar gwynion.

Mae ymgysylltu â grwpiau amrywiol yn allweddol i'n dull o weithredu. Y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi cynnal grwpiau ffocws gyda phobl ag anhwylderau iechyd hirdymor, anhwylderau iechyd meddwl, anableddau dysgu a phobl ifanc ag awtistiaeth. Wrth ddatblygu ein safonau Bydwraig y Dyfodol newydd, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda phobl o leiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches, ffoaduriaid, menywod sy'n byw â HIV, pobl ag anawsterau dysgu, pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, menywod â chanser a menywod a gafodd salwch ôl-enedigol.

Mae ymgysylltu o'r fath wedi'i adlewyrchu mewn **gofynion** bod rhaid i fydwragedd ddarparu gofal unigol a diwylliannol sensitif i'r holl fenywod. Mae gennym berthynas dda â sefydliadau cydraddoldeb fel Grŵp Cynghorol Strategol BME Prif Swyddog Nyrsio Lloegr, MINT (Men Into Nursing Together), Fforwm Anabledd Busnes, Mind, a Mencap.

Rydym yn ceisio defnyddio ein dylanwad i greu gwell canlyniadau i bobl â nodweddion gwarchodedig. Y flwyddyn ddiwethaf, rhoesom ymateb i ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol **ar gynigion i gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar anableddau dysgu ac awtistiaeth i staff gofal iechyd**, ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar gydnabod rhywedd mewn cyfraith, ac ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Fenywod a Chydraddoldebau i **Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chymunedau LGBT**.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae'n bwysig parchu a dathlu ffigyrau arloesol o'r gorffennol. Ym Mehefin 2019, cafodd swyddfa'r Cadeirydd ei henwi'n swyddogol yn Ystafell Mary Seacole. Daeth cynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Mary Seacole atom i gymryd rhan mewn digwyddiad dathlu, ynghyd ag aelodau o Grŵp Cynghorol Strategol BME Prif Swyddog Nyrsio Lloegr, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas Nyrsys Jamaica a Black Cultural Archives, yn ogystal â Martin Jennings a greodd y cerflun o Mary Seacole sydd yn Ysbyty St Thomas.

Ceir gwybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithle yn yr adran isod ar 'Ein pobl a'n sefydliad'.

# Ein pobl a'n sefydliad

Pwrpas ein Strategaeth Pobl 2017–2020 oedd sicrhau bod y sefydliad yn gyflogwr dibynadwy sydd â'r gallu a'r adnoddau i reoleiddio'n effeithiol. Mae'n hollbwysig ein bod yn ysgogi ein cydweithwyr, yn gwrando arnynt ac yn cydgynhyrchu â nhw er mwyn creu amgylchedd gwaith cadarnhaol. 2019–2020 oedd blwyddyn olaf ein Strategaeth Pobl ac rydym yn adolygu'r cynnydd ac yn gosod ein nodau nesaf.

## Datblygu pobl a'r sefydliad

Yn 2019–2020, roeddem wedi canolbwyntio ar fentrau ar gyfer pobl a phrosiectau sy'n ceisio gwneud ein sefydliad yn lle rhagorol i weithio. Mae ein gwaith wedi sicrhau canlyniadau, drwy wella trosiant ac ymgysylltu ymysg ein cyflogeion. Y duedd gyffredinol o ran trosiant cyflogeion oedd ei fod wedi gostwng yn gyson yn ystod y flwyddyn ac ar 31 Mawrth 2020 roedd yn 13.5 y cant o'i gymharu â 21.6 y cant ar 31 Mawrth 2019. Rydym wedi gwella ein ffordd o gyfathrebu ac ymgysylltu â dechreuwyr newydd, a'n diwrnod sefydlu corfforaethol. Mae'r gwelliannau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y dechreuwyr newydd sy'n gadael o fewn chwe mis i 12.7 y cant ar 31 Mawrth 2020 o'i gymharu â 19.6 y cant ar 31 Mawrth 2019.

Byddwn yn cynnal arolygon yn gyson ymysg cydweithwyr er mwyn deall a gwella lefel ein hymgysylltu â chyflogeion. Rydym wedi nodi heriau cyson a phryderon mewn ambell faes a pharhawn i wella ein mentrau ymgysylltu. Mae'r duedd o ran ymgysylltu â chyflogeion wedi gwella'n gyson ac yn ein harolwg ym Mawrth 2020 cafwyd sgôr o 6.6 (allan o 10) o'i gymharu â 5.8 yn 2018–2019. Mae cydweithwyr wedi gofyn i ni wella'r ffordd rydym yn eu talu a'u gwobrwyo am eu gwaith, a gwella'r swyddfeydd lle rydym yn gweithio a'r dechnoleg a ddefnyddiwn wrth ein gwaith.

Yn dilyn ymgynghori, rydym wedi cyflwyno strwythur graddio a thâl newydd i gysoni ein hamrediadau tâl â'r rheini mewn sefydliadau tebyg.

Fel y nodwyd eisoes, yn ogystal â'n strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025, rydym wedi mabwysiadu set newydd o werthoedd ac ymddygiadau yn sail i bob agwedd ar ein gwaith. Byddwn yn darparu rhagor o ddeunydd a gweithgarwch i sefydlu'r gwerthoedd ac ymddygiadau hyn yn ystod 2020–2021.

Parhawn i ganolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth. Yn 2019 lansiwyd rhaglen sgiliau hyfforddi ar gyfer ein rheolwyr i'w helpu i wella sgyrsiau am berfformiad.

Mewn adroddiad archwilio mewnol ym Medi 2019, gwnaed nifer o argymhellion i gryfhau ein proses recriwtio. Roedd yr argymhellion yn ymwneud â llenwi a chadw gwaith papur ar recriwtio, adrodd am wybodaeth reoli ar effeithiolrwydd y broses recriwtio, a threfniadau ar gyfer recriwtio a chymryd ymlaen staff dros dro a staff contractwyr. Cymerwyd camau i ymateb i'r argymhellion hyn ac yn Chwefror 2020, mewn adolygiad archwilio dilynol, cafwyd bod cynnydd wedi'i wneud mewn chwech o'r 11 o feysydd i'w gwella a nodwyd. Roedd y meysydd a oedd yn weddill yn ymwneud â chyflwyno darparwr gwasanaethau a reolir, a gyflawnwyd wedyn, a chytuno ar bolisi diwygiedig ar gyfer cymryd staff ymlaen a dangosyddion perfformiad allweddol, lle mae'r gwaith yn parhau.

Yn unol â'n polisi ar Ddiogelu ac Amddiffyn Pobl rhag Niwed, rydym wedi ymgynghori ar ofynion newydd ar gyfer diogelu a fetio a fydd yn rhoi sicrwydd i ni ynghylch staff presennol a newydd. Mae hyn yn cael ei roi ar waith yn awr a bydd yn galw am gynnal gwiriad diogelwch ar nifer bach o rolau.

Rydym wedi cymryd camau i helpu cydweithwyr i reoli absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r canlyniadau cyntaf yn dangos gostyngiad bach mewn absenoldeb oherwydd salwch o 3.0 y cant i 2.7 y cant yn 2019–2020.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithle

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu amgylchedd gwaith lle mae ein pobl yn gallu ffynnu ac ymroi'n llawn i'w gwaith. Yn 2019–2020 rhoesom gynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith a oedd yn cynnwys tair thema: amrywiaeth y gweithlu; cynhwysiant yn y gweithle; a dull gweithredu cynaliadwy ac atebol.

Mae ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'n Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi cael hyfforddiant arwain ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac wedi mabwysiadu rolau sy'n hyrwyddo'r rhain a nodweddion gwarchodedig penodol. Rydym wedi datblygu a dechrau cyflwyno hyfforddiant i reolwyr ar adeiladu timau cynhwysol, i'w helpu i greu amgylcheddau lle mae croeso i wahanol gefndiroedd, sgiliau a phrofiadau.

Un nod ar gyfer y flwyddyn hon oedd cyflwyno mesurau i helpu i sicrhau bod ein gweithlu'n amrywiol a'i fod yn adlewyrchu ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi:

- newid ein ffordd o recriwtio, gan sicrhau anhysbysrwydd i ymgeiswyr drwy ein system tracio ymgeiswyr er mwyn lliniaru effaith rhagfarn ddiarwybod
- cryfhau ein Grwpiau Rhwydwaith gan sicrhau eu bod yn cael cymorth i ddylanwadu ar ein gwaith a hybu ymwybyddiaeth mewn perthynas â gwahanol nodweddion gwarchodedig. Mae rhai enghreifftiau wedi'u disgrifio isod
- datblygu set newydd o bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'w lansio yn 2020–2021, i ategu ein polisïau adnoddau dynol diwygiedig
- chwilio am ffyrdd gwahanol i gael sicrwydd bod ein gwaith yn cael effaith o ran creu diwylliant amrywiol a chynhwysol, yn cynnwys defnyddio asesiadau achredu allanol.

## Enghreifftiau o'n gwaith a'r camau gweithredu a'u canlyniadau

Mae ein Rhwydwaith LGBT+ wedi cynnal nifer o wahanol weithgareddau i hybu ymwybyddiaeth o bobl LGBT+. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan yn Pride in London a hyrwyddo Mis Hanes LGBT gyda chyfres o sgyrsiau a digwyddiadau i hybu ymwybyddiaeth o faterion trawsryweddol, gwaith nyrsys HIV, anghydraddoldebau iechyd LGBT a'r camau a gymerir i ddelio â'r rhain.

**Canlyniad**

O ganlyniad i'n gwaith ar gynhwysiant LGBT+ rydym wedi codi 251 safle'n uwch ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall (WEI) y flwyddyn hon. Mae'r WEI yn archwiliad blynyddol o gynhwysiant LGBT+ mewn sefydliadau ledled y DU. Y flwyddyn hon, rydym wedi codi i safle 106 (o 357 yn 2018) allan o fwy na 500 o sefydliadau.

Trefnwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau gan y Rhwydwaith Diwylliannol, sydd bellach wedi'i ailenwi'n BMe, yn cynnwys dathliad o fywyd a gwaddol Mary Seacole, cyfres o ddigwyddiadau 'dysgu dros ginio' yn ystod mis Hanes Du, taith gerdded hanes Du a digwyddiad arweinyddiaeth Ddu.

**Cam gweithredu**

Yn 2019, roeddem wedi mabwysiadu Safonau Cydraddoldeb Hiliol yn y Gweithle (WRES). Datblygwyd WRES gan y GIG i fesur gwelliannau ym mhrofiad staff Du a Lleiafrifol Ethnig yn y gweithlu. Gellir cymhwyso nifer o'r dulliau at grwpiau eraill. Byddwn yn cyflwyno ein set gyntaf o ddata i WRES yn 2020.

Roedd y Rhwydwaith Gweithio o Gwmpas, ein rhwydwaith diweddaraf sy'n cynrychioli cydweithwyr ag anableddau, wedi nodi Diwrnod Rhyngwladol y Person Anabl drwy gynnal marchnad anabledd mewn cydweithrediad â Chanolfan Dyslecsia Helen Arkell, Disability Rights UK a'r Fforwm Anabledd Busnes.

**Cam gweithredu**

Rydym wedi cynnal asesiad allanol gyda'r Fforwm Anabledd Busnes i'w ystyried wrth gynllunio ein camau gweithredu a gweithgareddau.

Rydym wedi cymryd camau i sicrhau lles ein cydweithwyr yn y gweithle. Mae ein swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl wedi parhau i ddarparu cymorth lle'r oedd angen.

**Cam gweithredu**

Rydym wedi cynnal asesiad allanol gyda Mind – yr elusen iechyd meddwl – i'n helpu i ganfod meysydd lle mae angen gwella ac i lywio ein cynllun gweithredu.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Mae ein rhaglen i foderneiddio ein systemau TG yn parhau ac mae wedi dod â budd mawr i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ogystal â phobl sy'n gwneud cais i ymuno â'r gofrestr. Mae ein proses newydd ar gyfer gwledydd tramor a'n proses newydd ar gyfer aildderbyn pobl i'r gofrestr yn fwy hyblyg ac effeithlon, ac wedi lleihau'r amser a gymerir i aildderbyn pobl i'r gofrestr i gyn lleied â 60 munud. Ym Mawrth 2020, drwy ddefnyddio ein llwyfan Microsoft Dynamics 365 newydd, dim ond tair wythnos a gymerodd i ni ddatblygu a lansio ein cofrestr dros dro i nyrsys a bydwragedd sy'n dychwelyd i weithio mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19.

Er hynny, mae'r rhaglen yn rhedeg yn hwyr ac wedi costio mwy na'r gyllideb ar ei chyfer. Y garreg filltir nesaf yn y rhaglen yw trosglwyddo'r gofrestr graidd i lwyfan Dynamics 365. Yn wreiddiol, roedd hynny wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd 2019, ond bellach rydym yn disgwyl cwblhau'r trosglwyddo erbyn diwedd 2020. Mae rhagor o fanylion am reoli ein risgiau TGCh yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Darparwyd gliniaduron i bron pob un o'n cydweithwyr yn ystod 2019–2020, yn rhan o'r newid i weithio ystwyth, a chawsom brawf annisgwyl o'r manteision o hynny pan wnaethom gau ein swyddfeydd mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19. Roedd bron pob un o'n gwasanaethau, yn cynnwys y Ganolfan Gyswllt, yn gallu parhau fel arfer wrth i staff weithio o'u cartrefi. Rydym wedi defnyddio technoleg fideogynadledda i gynnal y gwrandawiadau cyntaf yn y broses cymhwyster i ymarfer, fel bod rhai sydd ar y gofrestr yn gallu dychwelyd i weithio cyn gynted â phosibl os yw'n briodol. Bydd y dulliau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol hefyd drwy gynnig ffyrdd newydd o weithredu yn y dyfodol.

## Swyddfeydd

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd y broses o symud ein timau cymhwyster i ymarfer o ddau adeilad yng nghanol Llundain i swyddfa newydd yn nwyrain Llundain. Mae hyn wedi arbed mwy nag £1 miliwn y flwyddyn i ni mewn rhent a thaliadau gwasanaeth. Roedd y symud yn llwyddiant ac yn rhoi amgylchedd newydd i gydweithwyr sy'n cynnwys ffyrdd newydd o weithio sy'n gyson â'n dull strategol o drafod cymhwyster i ymarfer. Rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer parhad busnes ac i gynnal hyfforddiant ac ymarferiadau ar ein holl safleoedd bob blwyddyn ac mae hyn wedi ein helpu i ymateb i'r pandemig COVID-19.

## Cyllid a chaffael

Rydym yn ffodus o fod mewn sefyllfa ariannol gryf ac mae gennym gyfrifoldeb i wneud defnydd da o'n hadnoddau ariannol. Mae ein strategaeth ariannol yn ceisio manteisio ar ein sefyllfa ariannol gryf i fuddsoddi i foderneiddio ein systemau, i wella gwasanaethau ac effeithlonrwydd; i wneud buddsoddiadau ariannol a fydd yn ein diogelu rhag chwyddiant; ac i reoli risgiau ariannol. Mae hefyd yn rhoi pwys ar gynllunio tymor canolig a hir, ac ar ddull hwylus a chydweithredol o ddefnyddio adnoddau, ochr yn ochr â rheolaethau ariannol priodol. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y cyllidebau a'r gwariant dangosol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Nod ein strategaeth ariannol yw rhoi'r gallu i fuddsoddi yn ôl yr angen i gyflawni ein strategaeth newydd, gan sicrhau cynaliadwyedd a gwerth am arian yr un pryd. Bydd hyn yn dod â budd i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio drwy gadw'r ffi gofrestru ar £120 mor hir â phosibl.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion o ran cynaliadwyedd a gwerth am arian, rydym hefyd wedi datblygu a gweithredu polisi cynhwysfawr ar gaffael. Cynhelir ein gweithgareddau tendro yn unol â rheolau caffael y sector cyhoeddus ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, defnyddiwn gytundebau fframwaith y sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn rhoi mynediad at ddewis da o gyflenwyr, cyfraddau marchnad cystadleuol a thelerau ac amodau dibynadwy. Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod ein cyflenwyr yn cydymffurfio â'n gwerthoedd a'n polisïau ar faterion pwysig fel cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chaethwasiaeth fodern.

Ein polisi yw talu ein cyflenwyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i ddeiliaid cyllidebau gadarnhau bod y nwyddau neu'r gwasanaeth wedi'u derbyn yn foddhaol. Yn ystod yr argyfwng COVID-19, rydym wedi newid ein telerau talu safonol er mwyn talu'r cyflenwyr o fewn cyfnod byrrach, i sicrhau bod arian parod yn llifo'n gyflym drwy'r gadwyn gyflenwi i hybu parhad busnesau a helpu i ddiogelu swyddi.

Yn ystod y flwyddyn, talwyd 82 y cant o'r anfonebau o fewn 30 diwrnod (2018–2019: 78 y cant o fewn 30 diwrnod). Ni thalwyd unrhyw log o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 (2018–2019: dim).

# Edrych tua'r dyfodol

## Datblygu ein Strategaeth 2020–2025

Roeddem wedi dechrau gweithio ar ein strategaeth newydd yn Ebrill 2019 ac wedi treulio'r flwyddyn yn cydweithio'n ddyfal â phobl y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad i gydgynhyrchu blaenoriaethau strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Roedd cam cyntaf y gwaith (Ebrill–Mehefin) yn adolygiad desg o'r dystiolaeth, yn cynnwys ymchwil ddiweddar i ganfyddiadau rhanddeiliaid. Cawsom drafodaeth ragarweiniol â llywodraeth, rheoleiddwyr a phartneriaid eraill ledled y DU. Cawsom sylwadau cychwynnol gan randdeiliaid a oedd yn sail i'r ymgysylltu rhyngom wedyn.

Yn ystod yr ail gam (Gorffennaf–Hydref) cynhaliwyd ymgynghoriad cenedlaethol ar sail y themâu a oedd wedi codi, gan gasglu ymatebion ar-lein a chynnal nifer o ddigwyddiadau ym mhedair gwlad y DU. Roeddem wedi cydweithio â'r Prif Swyddog Nyrsio ym mhob un o wledydd y DU a chael cymorth ganddynt i gyrraedd rhanddeiliaid allweddol, ac wedi cynnal grwpiau ffocws i ategu'r ymgysylltu er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan grwpiau fel oedolion ag anableddau dysgu, a phobl ifanc ag awtistiaeth. At ei gilydd, roedd mwy na 4,000 o bobl wedi ymgysylltu â ni.

Yn ystod y cam olaf (mis Tachwedd 2019 i fis Mawrth 2020) roeddem wedi cyfosod yr adborth a gawsom. Roeddem wedi cydweithio â chymheiriaid mewnol ac allanol i gwblhau ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau strategol, ac wedi sicrhau bod y rhain wedi'u hadlewyrchu yn ein cynllun corfforaethol.

Mae ein **strategaeth** yn cynnwys tair thema gyd-ddibynnol sy'n cwmpasu ein gwaith: ***Rheoleiddio***, **Cefnogi** a ***Dylanwadu***. Rydym yn glir bod ein swyddogaethau rheoleiddio statudol yn parhau'n ganolbwynt i'n gwaith a'u bod yn rhoi cyfleoedd ehangach i ni ddylanwadu ar yr amgylchedd ymestynnol a chyfnewidiol lle mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gweithio, gan helpu i ddelio â heriau i'r gweithlu, anghydraddoldebau a risgiau i ddiogelwch.

Rydym yn cefnogi'r bobl y mae ein gwaith yn effeithio arnynt fel y byddwn yn cyfrannu at greu diwylliant mwy cadarnhaol mewn perthynas â dysgu a chodi llais. Rydym yn cynorthwyo'r rheini sydd ar y gofrestr drwy ddarparu deunyddiau a chyfleoedd i'w helpu i gynnal ein safonau. Ac mae modd i ni alluogi pobl o gefndiroedd amrywiol i ddeall a siapio ein gwaith. Yn olaf, drwy reoleiddio'n dda, rydym yn creu mwy o gyfleoedd i ddylanwadu, drwy gydweithio ag eraill, a gwneud gwell defnydd o ymchwil a gwybodaeth. Rydym yn ceisio rhag-weld a siapio dulliau rheoleiddio'r dyfodol, ac addysg ac ymarfer ein proffesiynau yn y dyfodol.

Fel llawer o rai eraill – a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn anad neb – roeddem wedi troi ein sylw ym Mawrth 2020 at ymateb i'r pandemig COVID-19 a chynorthwyo'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i ddiwallu anghenion y wlad. O ganlyniad i hyn, er ein bod wedi cyhoeddi ein strategaeth yn Ebrill 2020, nid oeddem wedi gallu ei lansio fel y bwriadwyd ac rydym wedi gorfod gohirio nifer o raglenni gwaith.

Byddwn yn ailedrych ar ein cynlluniau i gyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais ar gyfer newid sydd yn ein strategaeth newydd ar yr adeg briodol. Yn y cyfamser, mae tair colofn ganolog y strategaeth – ***Rheoleiddio***, ***Cefnogi*** a ***Dylanwadu*** – yn parhau i arwain ein gwaith.

# Cynllun strategol 2020–2025

Rydym wedi cydgynhyrchu ein strategaeth â gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, ein partneriaid a'n cydweithwyr yn yr NMC. Cafwyd barn gan filoedd o gyfranwyr a daeth pum thema strategol i'r amlwg.

Roedd ein ffocws wedi newid ym Mawrth 2020 at ymateb i'r pandemig COVID-19 felly, er i ni gyhoeddi ein strategaeth yn Ebrill 2020, rydym wedi gorfod gohirio nifer o raglenni gwaith. Byddwn yn ailedrych ar ein cynlluniau ar yr adeg briodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais am newid sydd yn ein strategaeth newydd.

Bydd y themâu strategol yn sail i'r ffordd rydym yn cynllunio ein gwaith, a'n buddsoddiad mewn pobl ac adnoddau rhwng 2020 a 2025. Y rhain yw:

1. Gwella ac arloes
2. Cymorth rhagweithiol i'n proffesiynau
3. Bod yn fwy gweladwy a gwybodus
4. Ymgysylltu a grymuso'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid
5. Mewnweledeiad a dylanwad.

## Gwella ac arloesi

Gwella ac arloesi yn ein holl swyddogaethau rheoleiddio, gan ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, a sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd o'n gwaith.

### Pam mae hyn yn bwysig

Mae ein cyfrifoldebau rheoleiddio statudol yn unigryw i ni, ac yn sylfaen i'n holl waith. Roedd eu cyflawni'n dda yn brif flaenoriaeth i'r rheini roeddem wedi ymgysylltu â nhw.

### Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Bydd prosesau, cymorth a chyngor ar gael yn rhwydd i'r rheini sy'n rhyngweithio â ni.
- Bydd yn fwy syml i ymgeiswyr â chymwysterau addas ddod yn rhan o weithlu nyrsio a bydwreigiaeth y DU, wrth barhau i sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol.
- Bydd yr hyn a ddysgwyd am effaith ffactorau cyd-destunol yn cael ei nodi a'i rannu.
- Bydd gwerth ein cofrestr i'r cyhoedd, i'r rhai sydd wedi cofrestru ac i gyflogwyr wedi cynyddu, gyda gwybodaeth fwy hygyrch, cywir a defnyddiol.

## Cymorth rhagweithiol i'n proffesiynau

Galluogi ein proffesiynau i gynnal ein safonau heddiw ac yfory, gan rag-weld a siapio ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth y dyfodol.

### Pam mae hyn yn bwysig

Mae angen i'n safonau ymateb i'r amgylchedd ymestynnol a chyfnewidiol lle mae'r rhai sydd ar y gofrestr yn gweithio. Mae gan bobl anghenion clinigol mwy cymhleth ac mae angen galluogi'r rhai sydd ar y gofrestr i gwrdd â'r anghenion hynny'n well. Mae llwybrau gofal cymhleth yn galw am fwy o benderfyniadau clinigol gan dimau o weithwyr sydd â chymysgedd o sgiliau.

### Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Bydd ein safonau rheoleiddio, addysg a phroses ailddilysu yn helpu ein gweithwyr proffesiynol i addasu'n well i anghenion newidiol y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i ddiwallu'r anghenion hynny'n well.
- Bydd ein gweithwyr proffesiynol yn gallu cael adnoddau a chanllawiau a fydd yn ddefnyddiol ar hyd eu gyrfa, gan eu helpu i gwrdd â'n safonau wrth ymarfer ac ymateb i heriau newydd, er enghraifft, o dechnolegau newydd a datblygol.

## Rheoleiddiwr mwy gweladwy a gwybodus

Bod â chysylltiad agosach â'n proffesiynau, eu cyflogwyr a'u haddysgwyr fel y gallwn reoleiddio â dealltwriaeth ddyfnach o'r amgylchedd dysgu a gofal ym mhob un o wledydd y DU.

### Pam mae hyn yn bwysig

Er mwyn gwneud penderfyniadau da, gwybodus, mae angen gwell dealltwriaeth o gwmpas yr ymarfer – tri phroffesiwn, nifer mawr o rolau, pedair gwlad, a nifer o fathau o leoliad. Mae rhai ar y gofrestr wedi ein gweld yn 'bell' ac 'anhygyrch'. Maent yn teimlo ein bod wedi siarad ar lefel rhy uchel am ein proffesiynau ac nad ydym bob amser yn adlewyrchu eu profiadau o ymarfer.

### Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Bod yn gyfrannwr gwerthfawr ac adeiladol at bolisi iechyd a gofal lleol/rhanbarthol/cenedlaethol ac at ddatblygu ymarfer.
- Byddwn yn gallu gwerthuso effaith ein gwaith rheoleiddio ar wahanol grwpiau ar y gofrestr, gyda gwell dealltwriaeth o'r gwahanol amgylcheddau lle maent yn gweithio.
- Bydd defnyddwyr ein gwasanaethau yn cael ymatebion mwy amserol sy'n sensitif i'w hanghenion penodol.

## Ymgysylltu a grymuso'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid

Cymryd camau i ymgysylltu a grymuso'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid. NMC sy'n ddibynadwy ac yn ymatebol ac yn meithrin dealltwriaeth o beth rydyn ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud dros bobl.

### Pam mae hyn yn bwysig

Dywedodd pobl wrthym eu bod am gymryd rhan yn ein gwaith yn fwy rheolaidd ac yn gynharach. Mae angen i ni rymuso pobl i gymryd rhan yn ystyrlon a dylanwadu ar ganlyniadau. Rhaid i ni glywed gan grwpiau amrywiol, yn cynnwys y rheini a all fod heb gymryd rhan yn ein gwaith yn draddodiadol.

### Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Perthnasoedd cryfach a mwy ystyrlon â'n partneriaid ym mhob un o'r pedair gwlad.
- Byddwn wedi cyfleu'n glir beth mae dull person-ganolog yn ei olygu, mewn ffordd y bydd y cyhoedd, ein proffesiynau, ein cydweithwyr ac eraill yn gallu ei defnyddio i'n dal yn atebol.
- Bydd y cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid yn gweld mai cydgynhyrchu yw ein dull arferol o ddatblygu safonau a pholisi.
- Gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd o'n proffesiynau ac o'n rôl ni.

## Mewnwelediad a dylanwad

Dysgu o ddata a gwaith ymchwil er mwyn gweithio'n well a chydweithio i rannu mewnwelediad yn gyfrifol er mwyn helpu i wella'r system iechyd a gofal gyffredinol.

### Pam mae hyn yn bwysig

Bydd y mewnwelediadau o'n gwaith yn ein helpu i wella ein ffordd o reoleiddio, ac yn tynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar allu gweithwyr proffesiynol i ymarfer yn ddiogel ac effeithiol. Mae'n bwysig i'n partneriaid nid yn unig ein bod wedi ymrwymo i gydweithio, ond ein bod hefyd yn fedrus ac yn gallu chwarae rhan gadarnhaol ac ychwanegu gwerth wrth gydweithio.

### Ble rydym yn disgwyl bod erbyn 2025

- Gwybodaeth hygyrch, gywir, ddefnyddiol a mwy perthnasol ar ein cofrestr.
- Bydd ein partneriaid yn ein gweld yn lladmerydd blaenllaw ac yn elwa o'r mewnwelediadau a syniadau buddiol y byddwn yn eu cyfrannu ar faterion fel proffiliau gyrfa a ffactorau risg cyd-destunol.
- Bydd gennym hanes o siarad o blaid amgylcheddau gwaith iach, cynhwysol a chadarnhaol i'n proffesiynau.

# Adolygiad ariannol

## Incwm a gwariant

Fel y nodwyd yn ein datganiad o weithgareddau ariannol, cyfanswm ein hincwm ar gyfer 2019–2020 oedd £89.8 miliwn (2018–2019: £92 miliwn) a chyfanswm ein gwariant oedd £82.3 miliwn (2018–2019: £81.6 miliwn). Mae hyn wedi arwain at warged net o incwm dros wariant o £7.5 miliwn (2018–19: £10.4 miliwn) cyn yr enillion actwaraidd ar y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio. Ar ôl ailbrisio'r cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio, roedd cyfanswm ein cyllid wedi cynyddu £9.2 miliwn (2018–2019: £7.1 miliwn) dros y flwyddyn.

cyfanswm incwm 2019–2020
**£89.8 miliwn**
(2018–2019: £92 miliwn)

cyfanswm gwariant
**£82.3 miliwn**
(2018–2019: £81.6 miliwn)

Roeddem wedi cynllunio ar gyfer diffyg bach yn 2019–2020. Mae'r gwarged net yn ganlyniad i incwm mwy na'r disgwyl yn ogystal â gwariant llai yn ein busnes craidd ac yn rhai o'n prosiectau o'u cymharu â'r gyllideb.

Roedd cyfanswm ein hincwm yn £3.3 miliwn (3 y cant) yn fwy nag a gyllidebwyd ond roedd yn £2.2 miliwn yn llai nag yn 2018–2019. Mae'r gostyngiad mewn incwm o'i gymharu â 2018–2019 yn ganlyniad i eitemau untro yn yr incwm y flwyddyn ddiwethaf.

Yr ad-daliadau gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) oedd £2.3 miliwn yn 2018–2019 ond yn ddim ond £0.3 miliwn yn 2019–2020 gan fod y rhaglen Cymdeithion Nyrsio wedi'i chyflawni; ac yn 2018–2019 cawsom ad-daliad untro o £2.1 miliwn gan Gyllid EM am dreth incwm ac Yswiriant Gwladol roeddem wedi'u talu ar ffioedd y panelwyr cymhwyster i ymarfer mewn blynyddoedd blaenorol.

Yr incwm o ffioedd cofrestru oedd £88.5 miliwn, 6 y cant yn fwy nag a gyllidebwyd ac yn £3.2 miliwn yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol (2018–2019: £85.2 miliwn). Roedd nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar y gofrestr wedi cynyddu'n gynt na'r disgwyl, o 2.6 y cant, i 716,607. Hefyd cawsom fwy o geisiadau gan nyrsys a bydwragedd a hyfforddwyd mewn gwledydd tramor o ganlyniad yn rhannol, yn ein barn ni, i symleiddio ein prosesau ymgeisio. Nid yw'r gofrestr argyfwng COVID-19 dros dro yn rhan o'r cynnydd mewn incwm gan nad yw rhai sydd ar y gofrestr argyfwng yn talu ffi.

Roedd ein gwariant yn £7.2 miliwn (8 y cant) yn llai nag a gyllidebwyd ond roedd yn £0.8 miliwn yn fwy nag yn 2018–2019.

Mae Nodyn 4 yn y cyfrifon yn dangos yr holl gostau a ddyrannwyd ar gyfer pob gweithgarwch elusennol yn unol â'r Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir. Mae hyn yn didoli costau uniongyrchol pob gweithgarwch ochr yn ochr â'r costau cynnal cysylltiedig a ddyrannwyd ar sail cyfrif pennau neu ddefnydd o orbenion. Mae'r sylwadau sy'n dilyn yn seiliedig ar y golofn costau uniongyrchol, cyn dyrannu costau cymorth.

Llai nag 1 y cant o nyrsys a bydwragedd a atgyfeirir i'r NMC bob blwyddyn, a dim ond oddeutu 10 y cant o'r atgyfeiriadau hynny sy'n arwain at wrandawiad ond, er hynny, y costau cymhwyster i ymarfer yw'r rhan fwyaf o'n cyllideb.

Costau uniongyrchol cymhwyster i ymarfer oedd £37.9 miliwn, wedi gostwng o £39.1 miliwn yn 2018–2019, sef 3 y cant yn llai. Gwariant gohiriedig yw hwn yn hytrach nag arbedion parhaol: cynhaliwyd llai o wrandawiadau yn 2019–2020 am fod llai o achosion wedi deillio o ymchwiliadau.

Y costau uniongyrchol am gadw'r gofrestr oedd £6.4 miliwn yn 2019–2020 (2018–2019: £8.1 miliwn). Mae'r costau'n llai nag yn y flwyddyn flaenorol am fod y rhaglen cymdeithion nyrsio wedi'i chwblhau yn ystod 2019–2020.

Y costau am gymorth (Cyfleusterau, Cyllid, Adnoddau Dynol, TGCh, Llywodraethu, Cyfreithiol, dibrisiant a'r gost am bensiynau buddion wedi'u diffinio o dan FRS 102) oedd £30.3 miliwn (2018–2019: £27.7 miliwn). Mae'r cynnydd/lleihad yn ganlyniad yn bennaf i fwy o wariant ar TGCh i'n helpu i ddarparu gwasanaethau'n well.

Roedd ein cynllun corfforaethol 2019–2020 yn cynnwys wyth rhaglen a phrosiect i gyflawni ein strategaeth ar gyfer 2015–2020. Y rhain oedd y prosiect Swyddfeydd, Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg, y rhaglen Addysg, y rhaglen cyfeiriad strategol Cymhwyster i Ymarfer, y Strategaeth Pobl, y rhaglen Gwledydd Tramor, y rhaglen Gweithle Digidol a'r rhaglen Cymdeithion Nyrsio. Cwblhawyd y prosiect Swyddfeydd, y rhaglen Gweithle Digidol a'r rhaglen Cymdeithion Nyrsio yn ystod y flwyddyn: mae'r rhaglenni eraill yn parhau yn 2020–2021.

Cost refeniw gyfanredol y rhaglenni hyn oedd £3.6 miliwn ynghyd ag £8.7 miliwn ychwanegol ar ffurf gwariant cyfalaf, felly cyfanswm costau'r rhaglenni oedd £12.3 miliwn. O'i gymharu â'r gyllideb, roeddem wedi tanwario £3.1 miliwn ar ein cyllidebau refeniw. Mae hyn yn cynnwys arbedion a wnaed, o'i gymharu â'r gyllideb, ar y rhaglen Addysg a'r rhaglen Gweithle Digidol, a llithriant ar y Strategaeth Pobl a'r rhaglen cyfeiriad strategol Cymhwyster i Ymarfer. Roedd y gwariant ar y rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg yn llai nag yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn, ond roedd y llithriant ar ei chyflawni'n fwy ar gyfartaledd, ac mae'r gwariant ar y rhaglen yn fwy nag yn y gyllideb ar gyfer y cam cyflawni a gyrhaeddwyd.

Y diffyg net ar ein cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth asedau'r cynllun a gwerth y rhwymedigaethau pensiwn, sef gwerth presennol wedi'i ddisgowntio y buddion pensiwn a enillwyd gan aelodau'r cynllun. Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae asedau'r cynllun yn cael eu hailbrisio yn ôl eu gwerth ar y farchnad, ac mae actiwariaid y cynllun yn diweddaru eu hamcangyfrif o werth y rhwymedigaeth. Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o ragdybiaethau, yn cynnwys cyfraddau marwolaethau disgwyliedig, chwyddiant ac arenillion ar fondiau corfforaethol dros nifer o flynyddoedd i'r dyfodol.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd diffyg y cynllun wedi lleihau i £11.6 miliwn, fel y cafwyd enillion o £1.7 miliwn, sydd wedi'u dangos yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel 'Enillion actwaraidd ar y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio' (2018–2019: colled o £3.3 miliwn). Roedd gwerth asedau'r cynllun ar y farchnad wedi gostwng £13.8 miliwn o'i gymharu â'r twf disgwyliedig o ganlyniad i'r gostyngiadau ym marchnadoedd ecwiti'r byd yn Chwefror a Mawrth 2020 mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Fodd bynnag, roedd y rhwymedigaethau pensiwn wedi gostwng £15.5 miliwn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod y gyfradd chwyddiant yn is na'r disgwyl ers prisiad y flwyddyn flaenorol.

## Cronfeydd wrth gefn

Ein polisi ar gronfeydd wrth gefn yw cadw cronfeydd rhydd o fewn amrediad targed. Cronfeydd rhydd yw arian sydd ar gael i'w wario heb gyfyngiad, felly nid ydynt yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau diriaethol sefydlog a symiau wedi'u dynodi ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol. Rydym hefyd yn pennu isafswm ar gyfer y balansau arian parod a buddsoddiadau cyfanredol a ragwelir yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y Cyngor yn adolygu'r amrediad targed ac isafswm y balansau arian parod a buddsoddiadau unwaith y flwyddyn o leiaf.

Mae'r targed ar gyfer isafswm y cronfeydd rhydd yn cael ei bennu i sicrhau ein bod yn gynaliadwy, gan ystyried sicrwydd ein ffrwd incwm, ein balansau arian parod a buddsoddiadau, ac asesiad o effaith ariannol ddichonol y risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu. Pennir y targed ar gyfer isafswm y cronfeydd rhydd i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, gan gydbwyso buddiannau'r bobl ar ein cofrestr sy'n ein hariannu drwy dalu ffioedd, a buddiannau'r cyhoedd sy'n elwa o'n gwaith.

Mae'n ofynnol bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn talu ffioedd cofrestru i ni er mwyn cael ymarfer. Gallant wneud hyn bob chwarter neu bob blwyddyn ymlaen llaw. Felly mae gennym ffrwd incwm sicr iawn ac rydym yn dal balansau arian parod mawr, ar ben ein cronfeydd rhydd. O ganlyniad i hyn, mae ein hangen am gronfeydd rhydd yn llai o lawer na nifer o elusennau neu gyrff cyhoeddus eraill.

Mae'r graddau y mae ein balansau arian parod a buddsoddiadau yn fwy na balans ein cronfeydd rhydd yn dibynnu ar gyfran y rhai sy'n talu ffioedd cofrestru bob chwarter drwy ddebyd uniongyrchol a lefel diffyg y cynllun pensiwn. Mae pennu isafswm ar gyfer y balansau arian parod a buddsoddiadau cyfanredol a ragwelir yn fesur diogelu pellach sy'n sicrhau ein bod yn cadw hylifedd heb yr angen am gyfleusterau benthyca.

Ym Mawrth 2020, asesodd y Cyngor y sefyllfa bresennol o ran y polisi cronfeydd wrth gefn a chytuno y bydd amrediad targed y cronfeydd rhydd yn aros rhwng dim a £25 miliwn, ac y bydd isafswm y balansau arian parod a buddsoddiadau cyfanredol yn aros ar £20 miliwn.

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2020 oedd £57.5 miliwn (2019: £48.3 miliwn), a chyfanswm y cronfeydd rhydd oedd £31 miliwn (2019: £28.6 miliwn). Er bod lefel y cronfeydd rhydd yn uwch na lefel uchaf yr amrediad targed ar hyn o bryd, y disgwyl yw y bydd ein cynlluniau cyflawni strategaeth, yn cynnwys y buddsoddiadau cyfalaf sylweddol yn ein seilwaith, yn dod â'r cronfeydd rhydd i lawr tua lefel isaf yr amrediad targed erbyn diwedd cyfnod y strategaeth.

## Polisi buddsoddi

Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn talu eu ffi gofrestru un ai'n flynyddol neu'n chwarterol ymlaen llaw. Oherwydd hyn, a'r cronfeydd rhydd sydd gennym, rydym yn dal balansau sylweddol o arian parod. Yn ystod 2019–2020, daliwyd arian dros ben mewn cyfrifon cadw sy'n ennill llog mewn pump o fanciau'r stryd fawr yn y DU. Y llog a enillwyd yn 2019–2020 oedd £1.0 miliwn (2018–2019: £0.6 miliwn).

Cymeradwywyd polisi buddsoddi newydd gan y Cyngor ym Mai 2019, sy'n dynodi cronfa o £30 miliwn i'w buddsoddi mewn ecwitïau dros y tymor hir. Rydym wedi penodi Sarasin & Partners yn rheolwyr buddsoddi ar gyfer y gronfa honno o £30 miliwn. Ers Ebrill 2020, rydym wedi dechrau buddsoddi symiau o'r gronfa mewn nifer o wahanol ecwitïau, cronfeydd a bondiau. Rydym yn gweithredu'n ofalus iawn, am fod y marchnadoedd ariannol yn gyfnewidiol o hyd, a chredwn fod ein strategaeth buddsoddi yn briodol o hyd ar gyfer y tymor hir. Byddwn yn agored yn awr i'r risg o golledion cyfalaf, a byddwn yn gweld gwerth ein hasedau'n amrywio yn y tymor byr. Ond ar gyfer y tymor hir, gwelwyd mai ecwitïau yw'r math o fuddsoddi sy'n perfformio orau, ac rydym yn disgwyl mai felly y bydd yn y dyfodol hefyd. Ein nod wrth fuddsoddi yw sicrhau elw sy'n fwy na chwyddiant dros y tymor hir, gan gadw gwerth termau real yr arian a delir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, a helpu i gadw'r ffi gofrestru yn isel.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**6 Gorffennaf 2020**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**6 Gorffennaf 2020**

# Adroddiad am gydnabyddiaeth ariannol

Archwiliwyd yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan yr archwilwyr allanol, haysmacintyre, a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC a chanddo ef y mae'r awdurdod penderfynu terfynol sydd wedi'i ddisgrifio yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen.

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfynu'r lwfansau a delir i aelodau'r Cyngor. Mae aelodau'r Cyngor yn cael lwfans blynyddol sy'n seiliedig ar y gofyniad i aelodau dreulio tri diwrnod y mis ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC. Mewn gwirionedd, mae aelodau'r Cyngor yn rhoi mwy o lawer o'u hamser na hyn.

Er mwyn dileu gwrthdaro buddiannau, mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith fel bod Panel Annibynnol o arbenigwyr allanol yn asesu lefel briodol y lwfansau. Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd un ai'n derbyn neu'n gostwng lefel y lwfans y mae'r Panel yn ei hargymell ond na fydd yn ei chynyddu. Cafodd lwfansau blynyddol aelodau'r Cyngor eu cynyddu ddiwethaf o £13,250 i £14,724 yn unol ag argymhelliad y Cyngor Annibynnol ar 1 Ebrill 2017. Nid ydynt wedi cynyddu wedyn. Mae lwfans blynyddol Cadeirydd y Cyngor wedi aros ar £78,000. Mae'r lwfans a dalwyd i'r Cadeirydd yn 2018–2019 yn cynnwys swm o £10,000 a dalwyd ar gyfradd ddyddiol gyfatebol am 20 diwrnod o weithgarwch sefydlu a pharatoi a gyflawnwyd gan y Cadeirydd cyn dechrau yn ei swydd ar 1 Mai 2019, ar ôl ei gymeradwyo gan Is-gadeiryddion y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae aelodau partneriaid, sef aelodau o bwyllgorau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, yn cael lwfans dyddiol o £286 am amser a dreuliwyd ar fusnes yr NMC ac ad-daliad am gostau teithio rhesymol. Cafodd lwfans dyddiol yr aelod partner ei gynyddu ddiwethaf o £260 i £286 o 1 Ebrill 2017.

Yn unol â'r trefniadau a ddisgrifiwyd uchod, galwyd cyfarfod o Banel Annibynnol yn Chwefror 2020 i gynnal adolygiad llai manwl o lwfansau aelodau'r Cyngor ac aelodau partneriaid. Roedd canfyddiadau ac argymhellion y Panel i gael eu hystyried gan y Cyngor ym Mawrth 2020 ond, oherwydd y pandemig COVID-19, gohiriwyd hyn tan 2020–2021.

Cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau'r Cyngor yn 2019–2020 oedd £239,964 (2018–2019: £243,810). Ni wnaed unrhyw daliadau contractiol ychwanegol i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2019–2020.

Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor ac aelodau partneriaid drwy'r gyflogres gan ddidynnu symiau am dreth incwm ac Yswiriant Gwladol. Mae treuliau a ysgwyddwyd yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau'n cael eu had-dalu'n unol â pholisi teithio a chynhaliaeth yr NMC ar gyfer aelodau'r Cyngor.

Mae treuliau'n cynnwys costau teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth ac yn cael eu hysgwyddo pan fydd aelodau'n cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r treuliau a gaiff aelodau'n amrywio'n fawr oherwydd y costau teithio a llety ar gyfer mynychu cyfarfodydd mewn lleoliadau oddi wrth eu cartrefi yn y DU. Mae hyn yn arbennig o wir am yr aelodau hynny sy'n gorfod teithio o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn gorfod aros dros nos. Yn ogystal â hyn, mae aelodau'n teithio i gyfarfodydd y Cyngor a digwyddiadau a gynhelir y tu allan i Lundain; er enghraifft, roeddem wedi cynnal cyfarfodydd o'r Cyngor ym Manceinion a'r Alban yn 2019. Bydd aelodau hefyd yn teithio i ddigwyddiadau ym mhob un o'r pedair gwlad i ymgysylltu â rhanddeiliaid, er enghraifft, mewn gweithdai a digwyddiadau ymgynghori, neu i ymweld â'r mannau lle mae nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwragedd yn gweithio a lle mae myfyrwyr yn derbyn addysg a hyfforddiant.

Mae'r holl lwfansau a threuliau a dalwyd i aelodau'r Cyngor wedi'u dangos yn nhabl 1. Mae'n gwahaniaethu rhwng treuliau trethadwy a threuliau eraill. Pan gynhelir cyfarfodydd yn Llundain, mae'r treuliau cysylltiedig yn cael eu hystyried yn fudd mewn nwyddau sy'n drethadwy, felly maent yn rhan o gydnabyddiaeth ariannol yr aelodau. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm sy'n codi drwy gytundeb setlo TWE â CThEM, ac mae gwerth y budd wedi'i ddangos yn swm gros sy'n cynnwys y dreth incwm sy'n cael ei phriodoli iddo.

Pan gynhelir cyfarfodydd yn Llundain, darperir pryd gyda'r hwyr i aelodau'r Cyngor a thîm y Weithrediaeth yn y ffreutur yn 23 Portland Place. Mae cost y prydau bwyd hynny'n cael ei hystyried bellach yn fudd mewn nwyddau sy'n drethadwy ac mae wedi'i chynnwys yn y golofn treuliau trethadwy yn nhabl 1 ac yn y cytundeb setlo TWE â CThEM. Lle cynhelir cyfarfodydd a digwyddiadau y tu allan i Lundain, ni fydd y treuliau am deithio, llety a phrydau bwyd yn drethadwy.

Roedd y treuliau ar gyfer 2018–2019 wedi'u datgelu o'r blaen mewn un golofn, heb wahaniaethu rhwng treuliau trethadwy a threuliau eraill, a heb gynnwys y prydau gyda'r hwyr yn Llundain na grosio'r treuliau trethadwy sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd yn Llundain. Maent bellach wedi'u didoli rhwng treuliau trethadwy a threuliau eraill ac mae'r treuliau trethadwy wedi'u hailddatgan, yn cynnwys y prydau gyda'r nos a'r gwerth gros yn cynnwys treth incwm.

## Dulliau o asesu perfformiad aelodau

Mae'r Cyngor wedi gweithredu polisi a phroses a gytunwyd ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun ac effeithiolrwydd ei aelodau. Cynhelir adolygiad o berfformiad Cadeirydd y Cyngor gan yr Is-gadeiryddion. Mae'r adolygiad yn strwythuredig ac wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd ac asesiad gan gymheiriaid sy'n aelodau o'r Cyngor. Defnyddir y canlyniadau i gytuno ar amcanion a chanfod anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol y Cyngor ac mae'n cael ei harwain gan y Cadeirydd. Cynhaliwyd adolygiadau perfformiad blynyddol yn 2019–2020.

## Aelodau'r Cyngor ac aelodau partneriaid yn ôl rhywedd

Mae rhywedd aelodau'r Cyngor ac aelodau partneriaid ar 31 Mawrth 2020 wedi'i ddangos isod.

**Aelodau'r Cyngor**

5 gwryw

7 benyw

cyfanswm o 12

**Aelodau Partneriaid**

3 gwryw

4 benyw

cyfanswm o 7

## Tabl 1: Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

| | 2019–2020 | | | | 2018–2019 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lwfans (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau trethadwy (i'r £100 agosaf) | Cyfanswm y taliadau (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau eraill (i'r £100 agosaf) | Lwfans (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau trethadwy (wedi'u hailddatgan) (i'r £100 agosaf) | Cyfanswm y taliadau (wedi'i ailddatgan) (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau eraill (i'r £100 agosaf) |
| Philip Graf CBE – Cadeirydd (o 1 Mai 2018) | 75-80 | 2,500 | 80-85 | 0 | 80-85 | 700 | 80-85 | 2,500 |
| Yr Athro y Fonesig Janet Finch – Cadeirydd (hyd 30 Ebrill 2018) | 0 | 0 | 0 | 0 | 5-10 | 7,200 | 10-15 | 100 |
| Dr Anne Wright CBE | 10-15 | 1,000 | 15-20 | 0 | 10-15 | 900 | 15-20 | 0 |
| Claire Johnston (o 01 Medi 2018) | 10-15 | 1,800 | 15-20 | 0 | 5-10 | 500 | 5-10 | 0 |
| Derek Pretty | 10-15 | 4,200 | 15-20 | 800 | 10-15 | 5,200 | 15-20 | 0 |
| Sir Hugh Bayley | 10-15 | 1,700 | 15-20 | 0 | 10-15 | 3,800 | 15-20 | 0 |
| Yr Athro Karen Cox | 10-15 | 2,100 | 15-20 | 600 | 10-15 | 2,900 | 15-20 | 0 |
| Lorna Tinsley | 10-15 | 3,000 | 15-20 | 300 | 10-15 | 5,000 | 15-20 | 100 |
| Marta Phillips OBE | 10-15 | 1,400 | 15-20 | 0 | 10-15 | 400 | 15-20 | 0 |
| Maura Devlin MBE | 10-15 | 13,700 | 25-30 | 400 | 10-15 | 11,800 | 25-30 | 300 |
| Maureen Morgan OBE (hyd 30 Ebrill 2018) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 | 1,000 | 0-5 | 0 |
| Robert Parry | 10-15 | 4,900 | 15-20 | 200 | 10-15 | 7,300 | 20-25 | 100 |
| Ruth Walker MBE | 10-15 | 5,200 | 15-20 | 400 | 10-15 | 6,100 | 15-20 | 0 |
| Stephen Thornton CBE | 10-15 | 4,500 | 15-20 | 1,000 | 10-15 | 4,400 | 15-20 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **240.0** | **46,000** | **286.0** | **3,700** | **244.0** | **57,200** | **301.0** | **3,100** |

# Cydnabyddiaeth ariannol ac asesiad o berfformiad yr uwch dîm rheoli

Yr uwch dîm rheoli (a elwir yn Weithrediaeth) yw'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd (Prif Weithredwr) a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Yn ystod 2019–2020, roedd yr holl gyfarwyddwyr yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Nid oes Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n aelodau o'r Cyngor neu'n ymddiriedolwyr i'r elusen. Mae manylion y gydnabyddiaeth ariannol i'r holl unigolion hyn wedi'u datgelu'n llawn yn nhablau 2 a 3.

Y Prif Weithredwr yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sydd yn atebol iddo. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i'r graddau a ddisgrifiwyd yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Penodwyd Andrea Sutcliffe yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd yr NMC ar 14 Ionawr 2019.

## Asesiad o berfformiad y Weithrediaeth

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad y Weithrediaeth. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd am berfformiad y Prif Weithredwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr am berfformiad y cyfarwyddwyr.

## Cydnabyddiaeth ariannol y Weithrediaeth

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i'r Weithrediaeth yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol bob blwyddyn yn unol ag egwyddorion fframwaith tâl y Weithrediaeth a gymeradwywyd yn 2016.

Adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y gydnabyddiaeth ariannol i'r Weithrediaeth ar gyfer 2019– 2020 yn Chwefror 2019. Daeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i'r casgliad, ar gyfer 2019– 2020, y dylai'r Weithrediaeth gael yr un dyfarndal costau byw ag a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflogeion eraill (2.5 y cant). Gofynnodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd am beidio â chael y cynnydd ar gyfer costau byw.

Roedd pecyn tâl y Prif Weithredwr ar gyfer 2019–2020 yn cynnwys cyflog sylfaen o £175,000 (2018–2019: £175,000) a buddion mewn nwyddau o £163. Yn ogystal â hyn, ymunodd Andrea Sutcliffe â chynllun pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio yr NMC ar 14 Ebrill 2019 a chyfanswm y cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr yn 2019– 2020 oedd £14,000, fel mai'r ffigur am gyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol oedd £189,163. Yn 2018–2019, ei chyflog o'i dyddiad dechrau ar 14 Ionawr 2019 oedd £37,634 gyda buddion mewn nwyddau o £110 a dim buddion pensiwn, fel mai'r ffigur am gyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol oedd £37,744.

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i dîm y Weithrediaeth wedi'i dangos yn nhabl 2. Talwyd cyfanswm o £1.268 miliwn i dîm y Weithrediaeth (yn cynnwys cyfarwyddwyr dros dro) yn 2019–2020 (2018– 2019: £1.245 miliwn).

Fel y nodwyd uchod, pan fydd cyfarfodydd y Cyngor yn Llundain, bydd aelodau tîm y Weithrediaeth yn cael prydau bwyd gyda'r hwyr gyda'r Cyngor ac mae'r prydau hynny bellach yn cael eu hystyried yn fudd mewn nwyddau sy'n drethadwy. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm sy'n codi drwy gytundeb setlo TWE â CThEM, ac mae gwerth gros y budd wedi'i ddangos yn cynnwys y dreth incwm sydd i'w phriodoli iddo. Mae cydnabyddiaeth ariannol tîm y Weithrediaeth ar gyfer 2018– 2019 wedi'i hailddatgan i gynnwys gwerth gros y budd mewn nwyddau hwn o fewn cyfanswm eu tâl. Nid yw tîm y Weithrediaeth yn cael unrhyw fuddion trethadwy eraill. Mae treuliau'r Weithrediaeth sydd heb fod yn drethadwy wedi'u dangos yn nhabl 2 hefyd.

Yn unol â llawlyfr adroddiadau ariannol Trysorlys EM, mae tabl 3 yn cynnwys rhagor o fanylion am y buddion pensiwn i'r aelod presennol o'r Weithrediaeth sy'n aelod o'r cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio.

Nid yw'r NMC yn gweithredu unrhyw drefniadau tâl neu fonws cysylltiedig â pherfformiad. Felly nid oedd unrhyw un o aelodau'r Weithrediaeth wedi cael bonws am berfformiad.

Mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gofyn am roi rhybudd o chwe mis gan y naill barti neu'r llall i derfynu'r contract. Y cyfnod cyfatebol i gyfarwyddwyr yw tri mis.

Ystyriodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y gydnabyddiaeth ariannol i'r Weithrediaeth ar gyfer 2020–2021 yn Chwefror a Mawrth 2020. Wrth wneud hynny, rhoddodd y Pwyllgor sylw i newidiadau yn rolau cyfarwyddwyr o ganlyniad i ad-drefnu'r sefydliad. Roedd y Pwyllgor wedi seilio ei ystyriaeth ar dystiolaeth allanol am feincnodi a'r canlyniad i werthusiad o rolau newydd/diwygiedig y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Cymeradwyodd y Pwyllgor gynigion ar gyfer diwygio fframwaith tâl y Weithrediaeth i gynnwys amrediad marchnad ac uchafswm tâl.

Cymeradwyodd y Pwyllgor lefelau tâl ar gyfer pob un o rolau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a oedd, ym mhob achos, yn cynnwys cynnydd o 2 y cant am gostau byw yn yr un modd â'r hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor i staff eraill ar gyfer 2020–2021. Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar y lefel tâl arfaethedig ar gyfer recriwtio i rôl newydd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Bobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol.

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn cais gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd am beidio â chael cynnydd yn ei thâl.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal adolygiad mwy strategol o'r Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Weithrediaeth a'i dibenion yn ystod 2020–2021.

## Tabl 2: Cydnabyddiaeth ariannol tîm y Weithrediaeth

| | 2019–2020 | | | | | 2018–2019 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog (bandiau £5,000) £'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £100) | Buddion pensiwn (i'r £'000 agosaf) | Cyfanswm tâl (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau (i'r £100 agosaf) £'000 | Cyflog (bandiau £5,000) £'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £'000 | Cyfanswm tâl (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau (i'r £100 agosaf) £'000 |
| Andrea Sutcliffe<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd o 14 Ionawr 2019 | 170-175 | 200 | 14,000 | 185-190 | 5,400 | 35-40<br>Full year equivalent (FYE) 170-175 | 100 | 0 | 35-40 | 2,200 |
| Emma Broadbent<br>Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | 130-135 | 100 | 15,000 | 145-150 | 1,800 | 125-130 | 300 | 15,000 | 145-150 | 1,900 |
| Sarah Daniels<br>Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | 125-130 | 100 | 15,000 | 140-145 | 700 | 120-125 | 200 | 15,000 | 135-140 | 0 |
| Andrew Gillies<br>Cyfarwyddwr Adnoddau dros dro o 26 Gorffennaf 2018; Cyfarwyddwr Adnoddau a TBI o 1 Awst 2019 | 120-125 | 100 | 15,000 | 135-140 | 1,500 | 75-80<br>FYE 110-115 | 200 | 9,000 | 85-90 | 0 |
| Matthew McClelland[1]<br>Cyfarwyddwr Cymhwyster i Ymarfer | 135-140 | 100 | 39,000 | 175-180 | 3,800 | 130-135 | 300 | 35,000 | 165-170 | 3,100 |
| Richard Sheldon<br>Cyfarwyddwr Technoleg ac Arloesedd Busnes dros dro o 3 Medi 2018 hyd 2 Medi 2019 | 55-60<br>FYE 115-120 | 0 | 4,000 | 55-60 | 100 | 65-70<br>FYE 110-115 | 200 | 5,000 | 70-75 | 1,300 |
| Geraldine Walters<br>Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi | 155-160 | 200 | 13,000 | 170-175 | 3,900 | 155-160 | 300 | 12,000 | 165-170 | 4,500 |
| Edward Welsh<br>Cyfarwyddwr Materion Allanol o 21 Mai 2018 | 140-145 | 100 | 17,000 | 160-165 | 2,700 | 120-125<br>FYE 135-140 | 300 | 14,000 | 135-140 | 1,800 |
| Candace Imison<br>Cyfarwyddwr Datblygu Strategaethau o 8 Ebrill 2019, 3 diwrnod yr wythnos | 70-75<br>Full time equivalent (FTE) 115-120 | 100 | 8,000 | 80-85 | 1,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | 2019–2020 | | | | | 2018–2019 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog (bandiau £5,000) £'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £'000 | Buddion pensiwn (i'r £'000 agosaf) | Cyfanswm tâl (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau (i'r £100 agosaf) £'000 | Cyflog (bandiau £5,000) £'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £'000 | Buddion pensiwn (i'r £'000 agosaf) | Cyfanswm tâl (bandiau £5,000) £'000 | Treuliau (i'r £100 agosaf) £'000 |
| Sue Killen<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd dros dro o 23 Gorffennaf 2018 hyd 16 Ionawr 2019 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100-105<br>FYE 215-220 | 100 | 0 | 100-105 | 300 |
| Jackie Smith[2]<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd hyd 31 Gorffennaf 2018 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 125-130<br>FYE 200-205 | 200 | 11,000 | 140-145 | 2,400 |
| Gary Walker<br>Cyfarwyddwr Adnoddau dros dro o 2 Chwefror 2018 hyd 31 Gorffennaf 2018 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50-55<br>FYE 160-165 | 0 | 0 | 50-55 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **1,126.8** | **1,000** | **140,000** | **1,268.3** | **21,700** | **1,126.8** | **2,200** | **116,000** | **1,245.1** | **17,500** |

[1] *Mae Matthew McClelland yn aelod o'r cynllun buddion wedi'u diffinio, ac mae manylion ei fuddion pensiwn yn 2019–2020 wedi'u dangos yn nhabl 3. Mae ei fuddion pensiwn a ddangosir uchod wedi'u cyfrifo fel y cynnydd gwirioneddol yn ei bensiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i luosi â 20 llai gwerth y cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai. Mae'r cyfarwyddwyr presennol eraill yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio, a gwerth eu buddion pensiwn yw cyfraniadau'r cyflogwr a wnaed gan yr NMC i'w cronfeydd pensiwn.*

[2] *Jackie Smith oedd Prif Weithredwr yr NMC o Hydref 2012. Ei chyflog yn 2018–2019 oedd £200,641. Fel y cytunwyd â'r Cyngor, ei diwrnod olaf yn y swydd oedd 31 Gorffennaf 2018. Cafodd dâl am weddill ei chyfnod rhybudd o chwe mis rhwng 1 Awst a 10 Tachwedd 2018. Cafodd dâl hefyd am naw diwrnod o wyliau yr oedd wedi'u cronni ond heb eu cymryd. Roedd Jackie Smith yn aelod o'r cynllun buddion wedi'u diffinio, a chyfrifwyd ei buddion pensiwn yn ystod 2018–2019 fel y cynnydd gwirioneddol yn ei phensiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i luosi â 20 llai gwerth y cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai.*

## Tabl 3: Gwybodaeth am bensiynau buddion wedi'u diffinio tîm y Weithrediaeth

| | Cynnydd real yn y pensiwn yn 60 oed (bandiau £2,500) £'000 | Pensiwn a gronnir yn 60 oed ar 31 Maw 2020 (bandiau £5,000) £'000 | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebr 2019 £'000 | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Maw 2020 £'000 | Cynnydd real yn y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Matthew McClelland<br>Cyfarwyddwr Cymhwyster i Ymarfer | 0-2.5 | 15-20 | 356 | 467 | 61 |

# Cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres a phecynnau ymadael

Yn unol â gofynion Trysorlys EM, rhaid cyhoeddi gwybodaeth am staff uchel eu tâl a/neu staff uwch a gymerwyd ymlaen oddi ar y gyflogres ar ddiwedd y flwyddyn, ac am nifer a chost y pecynnau ymadael a gytunwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn a'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r un aelod o'r Cyngor neu o dîm y Weithrediaeth wedi'i gymryd ymlaen oddi ar y gyflogres. Asesir yr holl achosion lle cymerir staff ymlaen oddi ar y gyflogres drwy ddefnyddio offeryn gwirio statws cyflogaeth y llywodraeth i ganfod y dull cywir o gyflogi neu gymryd ymlaen.

## Tabl 4: Cymryd ymlaen oddi ar y gyflogres

| Staff a gymerwyd ymlaen oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y diwrnod ac am fwy na chwe mis | |
|---|---|
| **Y nifer a oedd wedi'u cymryd ymlaen ar y pryd ar 31 Mawrth 2020** | 4 |
| O'r rhain: | |
| Y nifer a oedd wedi'u cymryd ymlaen am lai nag un flwyddyn ar adeg yr adroddiad | 1 |
| Y nifer a oedd wedi'u cymryd ymlaen rhwng un a dwy flynedd ar adeg yr adroddiad | 0 |
| Y nifer a oedd wedi'u cymryd ymlaen rhwng dwy a thair blynedd ar adeg yr adroddiad | 2 |
| Y nifer a oedd wedi'u cymryd ymlaen rhwng tair a phedair blynedd ar adeg yr adroddiad | 1 |
| **Ar gyfer pob un a gymerwyd ymlaen o'r newydd, neu am chwe mis o leiaf, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y diwrnod ac am fwy na chwe mis** | |
| Y nifer a gymerwyd ymlaen o'r newydd, neu am chwe mis o leiaf, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 | 3 |
| O'r rhain: | |
| Y nifer yr aseswyd eu bod o fewn cwmpas IR35 | 3 |
| Y nifer yr aseswyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35 | 0 |
| Y nifer sydd wedi'u cymryd ymlaen yn uniongyrchol ac sydd ar y gyflogres | 3 |
| Y nifer a gymerwyd ymlaen a gafodd eu hailasesu i ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 1 |
| Y nifer a gymerwyd ymlaen a welodd newid yn eu statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb | 1 |

## Tabl 5: Pecynnau ymadael

**Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | Holl nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost | Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig |
|---|---|---|---|---|
| Llai na £10,000 | - | 8 | 8 | - |
| £10,001 - £25,000 | 1 | 1 | 2 | - |
| £25,001 - £50,000 | - | 1 | 1 | - |
| **Holl nifer y pecynnau ymadael** | **1** | **10** | **11** | **-** |
| **Cyfanswm y gost** | **14,915** | **87,071** | **101,986** | **-** |

**Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019**

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | Holl nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost | Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig |
|---|---|---|---|---|
| Llai na £10,000 | - | 8 | 8 | - |
| £10,001 - £25,000 | - | 4 | 4 | 1 |
| £25,001 - £50,000 | 1 | 1 | 2 | - |
| £50,001 - £100,000 | - | 1 | 1 | - |
| **Holl nifer y pecynnau ymadael** | **1** | **14** | **15** | **1** |
| **Cyfanswm y gost** | **43,327** | **214,511** | **257,838** | **22,785** |

## Cydnabyddiaeth ariannol ac asesiad o berfformiad cyflogeion heblaw'r uwch dîm rheoli

Mae'r holl gyflogeion yn mynd drwy gyfnod prawf o chwe mis ar ôl dechrau eu cyflogaeth ac mae eu cyfnod rhybudd yn un i dri mis yn ôl gradd eu swydd.

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol i'r holl gyflogeion yn cael ei hadolygu'n flynyddol drwy ystyried gwahanol fathau o wybodaeth, yn cynnwys trosiant cyflogeion, gweithgarwch recriwtio a thueddiadau o ran cadw staff, data meincnodi a fforddiadwyedd cyffredinol. Ar sail y wybodaeth hon, cymeradwyodd y Cyngor gynnydd yng nghyfradd safonol y tâl i'r holl gyflogeion cymwys o 2.5 y cant a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.

Gwnaethom ymrwymiad yn ein Strategaeth Pobl 2017–2020 i adolygu ein tâl i gyflogeion. Roedd lefel uchel y trosiant ymysg cyflogeion, tystiolaeth o arolygon staff a chyfweliadau ymadael fod cydweithwyr yn anfodlon ar eu tâl, a thystiolaeth o feincnodi wedi cadarnhau bod ein cyfraddau tâl yn is na'r rhai mewn sefydliadau tebyg. Yn ystod haf 2019, cwblhawyd ymgynghoriad ffurfiol er mwyn cyflwyno cynllun graddio a thâl newydd, a oedd wedi arwain at ddiwygio graddau tâl a chyflogau cysylltiedig ar sail meincnodi â'r farchnad gyflogaeth.

Gweithredwyd y cynllun diwygiedig yn Hydref 2019. Ochr yn ochr â'r ystodau tâl newydd, roeddem wedi cynyddu cyflogau ymhellach er mwyn symud cydweithwyr yn agosach at ganol eu bandiau cyflog newydd. Daeth y codiadau hyn i rym o 1 Ebrill 2019.

Ar gyfer 2020–2021, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo cynnydd yn y gyfradd tâl safonol i gyflogeion o 2 y cant a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2020. Mae'r cynnydd o 2 y cant wedi'i gymhwyso hefyd at y gwerthoedd lleiaf a mwyaf ym mhob un o'r graddau cyflog staff a gyflwynwyd yn Hydref 2019. Roeddem hefyd wedi gweithredu ail gam y cynnydd mewn cyflogau er mwyn symud cydweithwyr at ganol eu bandiau cyflog, gan ganolbwyntio eto ar y graddau cyflog is, a daeth hyn i rym hefyd o 1 Ebrill 2020.

Roedd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad wedi gweithredu fel y gwnaeth mewn blynyddoedd blaenorol a gosodwyd amcanion blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf ym mis Ebrill a chawsant eu hadolygu ym mis Hydref. Nid yw'r broses hon yn gysylltiedig â thâl.

### Trefniadau pensiwn

Mae ein prif gynllun pensiwn yn gynllun pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio. Y lefel gyfrannu isaf yw bod cyflogeion yn cyfrannu un y cant o'u cyflog a'r NMC yn cyfrannu wyth y cant (2018–2019: wyth y cant). Mae'r NMC yn gwneud cyfraniadau cyfatebol i gyfraniadau ychwanegol gan gyflogeion hyd at gyfraniadau o 12 y cant gan gyflogeion. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 719 o gyflogeion (84.5 y cant) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio (31 Mawrth 2019: 604, 77.5 y cant).

Roedd cyflogeion a ddaeth i weithio i'r NMC cyn Tachwedd 2013 yn gallu ymaelodi â chynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio. Caewyd y cynllun i gyflogeion a ddaeth i weithio i'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013. Mae aelodau'r cynllun buddion wedi'u diffinio yn cyfrannu chwech y cant o'u cyflog. Cyfraniad y cyflogwr yn ystod 2019–2020 oedd 39.3 y cant (2018–2019: 39.3 y cant), yn unol â phenderfyniad Actiwari'r Cynllun. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 94 o gyflogeion (11.0 y cant) yn aelodau o'r cynllun buddion wedi'u diffinio (31 Mawrth 2019: 105, 13.5 y cant).

Mae rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol a phensiynau yn nodiadau 8 a 17 i'r cyfrifon.

## Strwythur graddio a gwahanrediadau cyflog yn yr NMC

### Tabl 6: Cyflogeion yn ôl gradd a rhywedd ar 31 Mawrth

| Lefel cyflog | Gwrywaidd | Benywaidd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 1-4 | 142 | 286 | 428 |
| 5-7 | 116 | 198 | 314 |
| 8-11 | 37 | 64 | 101 |
| Cyfarwyddwr | 3 | 4 | 7 |
| Prif Weithredwr | - | 1 | 1 |
| **Cyfanswm y cyflogeion** | **298** | **553** | **851** |

Y cyflogai parhaol uchaf ei dâl yn yr NMC ar 31 Mawrth 2020 yw Andrea Sutcliffe ac rydym wedi cymryd ei chyflog hi'n gymharydd wrth gyfrifo'r gwahanrediad â'r tâl canolrifol i gyflogeion yr NMC. Roedd y tâl i Andrea Sutcliffe yn 4.86 gwaith y tâl canolrifol i gyflogeion yr NMC, sef £35,983. Yn 2018–2019, roedd y tâl i Andrea Sutcliffe yn 5.57 gwaith y tâl canolrifol i gyflogeion yr NMC, sef £31,424. Mae'r tâl yn y cyfrifiad hwn wedi'i seilio ar y tâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn i'r holl staff (heb gynnwys staff contractwyr a staff asiantaethau) ar y dyddiad adrodd. Nid yw'n cynnwys gwyliau blynyddol â thâl, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

## Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Cyhoeddwyd ein trydydd adroddiad blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn Ebrill 2020. Roedd yn disgrifio'r sefyllfa fel yr oedd ar 5 Ebrill 2019.

Y bwlch cyflog canolrifol yn 2019 oedd 12.6 y cant (2018: 4.8 y cant) a'r bwlch cyflog cymedrig oedd 3.9 y cant yn 2019 (2018: 1.6 y cant). Mae'r newid yn y canolrif yn ganlyniad i newid yn nemograffeg ein cyflogeion: roedd mwy o fenywod ar y graddau isaf ar gyfartaledd nag yn 2018. Roedd hyn wedi arwain at gynnydd yn y bwlch cyflog canolrifol. Mae "cyflogai canolrifol" y cymaryddion gwrywaidd a benywaidd yn 2019 ar yr un radd cyflog. Er hynny, maent yn cyflawni rolau gwahanol o fewn y sefydliad.

Cafwyd effaith negyddol hefyd ar y bwlch cyflog cymedrig yn 2019 fel bod y bwlch wedi cynyddu 2.3 y cant o'i gymharu â 2018. Yn 2019, roedd cyfran y cyflogeion gwrywaidd yn y graddau uchaf eu tâl wedi cynyddu 2 y cant, tra oedd cyfran y cyflogeion benywaidd yn yr un grŵp wedi cynyddu o ddim ond 1 y cant.

Rydym hefyd yn parhau i fonitro cyflogau cyfartal. Mae ein harchwiliadau'n dangos ein bod yn hyderus ein bod yn talu'n gyfartal i bobl o wahanol rywiau. Roedd unrhyw wahaniaeth a gafwyd yn 2019–2020 yn fach iawn ac mae'n parhau i leihau o flwyddyn i flwyddyn.

Er bod cynnydd yn y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn yr NMC yn llai o lawer na'r tueddiadau a gofnodwyd yn y DU: mae'r bwlch cyflog cymedrig yn yr NMC yn llai nag ymysg 90 y cant o gyflogwyr ac mae ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn llai nag ymysg 69 y cant o gyflogwyr.

Rydym yn siomedig bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd i fynd i'r afael â'r mater hwn wrth i ni adolygu ein hagwedd gyffredinol at dalu staff, a hynny'n cynnwys ffyrdd i leihau unrhyw rwystrau posibl i ddilyniant, fel rhagor o hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod, cynlluniau mentora o chwith a strategaethau eraill fel cysgodi a mentora.

## Salwch a throsiant ymysg cyflogeion

Adroddir ar salwch a throsiant ymysg cyflogeion yn yr adran "ein pobl a'n sefydliad" yn yr adolygiad o berfformiad. Roedd yr absenoldeb oherwydd salwch yn 2.7 y cant yn 2019–2020 (2018–2019: 3.0 y cant), a'r trosiant ymysg cyflogeion ar 31 Mawrth 2020 yn 13.5 y cant (31 Mawrth 2019: 21.6 y cant). Rydym yn falch o nodi bod y ddau ddangosydd wedi gwella dros y flwyddyn, yn enwedig trosiant cyflogeion, drwy roi ein Strategaeth Pobl ar waith yn llwyddiannus er mwyn gwneud yr NMC yn lle rhagorol i weithio.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**6 Gorffennaf 2020**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**6 Gorffennaf 2020**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn gofyn am baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r penderfyniad a gafwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd (SoRP) a argymhellir ar gyfer Elusennau a ddiwygiwyd yn 2015 a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd (Atodiad 1).

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'i symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- dilyn y penderfyniad cymwys ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys
- datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor o dan adran 52 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (fel y'i diwygiwyd). Wrth wneud hynny, gofynnir iddi ystyried yr egwyddorion a nodwyd ym Mhennod 3 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu a'r canllawiau ehangach a geir yn 'Managing Public Money' (Trysorlys EM, 2013, gydag atodiadau a ddiwygiwyd fis Mawrth 2018).

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mae'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Prif le busnes

Mae'r NMC yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place
Llundain
W1B 1PZ

### Cynghorwyr

#### Archwilydd Allanol Annibynnol

Haysmacintyre LLP
Chartered Accountants
10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

#### Bancwyr

HSBC Bank Plc
Space One, Floor 2
1 Beadon Road
Llundain
W6 0EA

#### Archwilydd Statudol

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

#### Archwilydd Mewnol

RSM Risk Assurance Services LLP
25 Farringdon Street
Llundain
EC4A 4AB

#### Cyfreithwyr


Blake Morgan LLP
Harbour Court
Compass Road
North Harbour
Portsmouth
PO6 4ST

Capsticks Solicitors LLP
1 St Georges Road
Llundain
SW19 4DR

Field Fisher Waterhouse LLP
Riverbank House
2 Swan Lane
Llundain
EC4R 3TT

# Datganiad llywodraethu blynyddol

Rydym yn gorff statudol annibynnol. Nodwyd ein pwerau a'n cyfrifoldebau mewn deddfwriaeth.[3] Rydym hefyd yn elusen gofrestredig.[4] Ein hamcan elusennol yw amddiffyn a diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) wrth wneud penderfyniadau a thrwy gydol yr adroddiad hwn, eglurwn sut mae ein gwaith yn dangos budd i'r cyhoedd.




## Y Cyngor

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gydgyfrifol am sicrhau bod yr NMC yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd i'r cyhoedd.

Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu ein cyfeiriad strategol a'n hamcanion corfforaethol, yn unol â'n diben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer ein swyddogaethau a defnyddio cyllid, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt. Mae ein Cynllun Dirprwyo yn nodi pa faterion y mae'n rhaid i'r Cyngor, a'r Cyngor yn unig, wneud penderfyniadau yn eu cylch.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 o aelodau, a hanner yr aelodau hynny'n weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a hanner yn aelodau lleyg.[5] Aelodau lleyg yw'r rheini nad ydynt erioed wedi'u cofrestru'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio. Fel rheoleiddiwr i'r DU gyfan, mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

3 OS 2002/253 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn)
4 Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362)
5 OS 2012/2745 Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012

Penodir y Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor, gan ddilyn prosesau dethol agored a chystadleuol. Caiff y Cyfrin Gyngor sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ynghylch cadernid ein proses ar gyfer penodi neu ailbenodi aelodau.

Roeddem wedi cynnal proses dethol yn 2019–2020 ar gyfer pedwar aelod newydd o'r Cyngor. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r aelodau newydd yn dechrau eu tymor ar 1 Mai 2020 i gymryd lle pedwar aelod o'r Cyngor yr oedd eu tymor i fod i ddod i ben ar 30 Ebrill 2020. Oherwydd y pandemig COVID-19, mae'r Cyfrin Gyngor, ar ein hargymhelliad ni, wedi gohirio penodi'r pedwar aelod newydd o'r Cyngor fel y bydd hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2020. Y darpar aelodau o'r Cyngor yw:

- Eileen McEneaney (aelod o'r gofrestr)
- Lynne Wigens (aelod o'r gofrestr)
- Anna Walker (lleyg)
- Sue Whelan Tracy (lleyg)

Er mwyn sicrhau cysondeb yn y cyfamser, roedd y Cyfrin Gyngor wedi ymestyn tymor yr aelodau canlynol o'r Cyngor, a oedd i fod i ymadael â'r Cyngor ar ddiwedd Ebrill 2020, hyd 30 Medi 2020.

- Maura Devlin (aelod o'r gofrestr)
- Lorna Tinsley (aelod o'r gofrestr)
- Stephen Thornton (lleyg)
- Dr Anne Wright (lleyg)

Mae'r aelodau canlynol o'r Cyngor wedi'u hailbenodi am ail dymor o 1 Mai 2020:

- Ruth Walker (aelod o'r gofrestr – ei thymor yn dod i ben 30 Ebrill 2024)
- Syr Hugh Bayley (lleyg – ei dymor yn dod i ben 30 Ebrill 2023)
- Derek Pretty (lleyg – ei dymor yn dod i ben 30 Ebrill 2024)
- Marta Phillips (lleyg – ei thymor yn dod i ben 30 Ebrill 2023)

## Aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd* | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd* | Canran y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Philip Graf CBE (Cadeirydd) | 13 | 13 | 100% |
| Sir Hugh Bayley | 11 | 13 | 85% |
| Professor Karen Cox | 11 | 13 | 85% |
| Maura Devlin MBE | 13 | 13 | 100% |
| Claire Johnston | 12 | 13 | 92% |
| Robert Parry | 13 | 13 | 100% |
| Stephen Thornton CBE | 13 | 13 | 100% |
| Lorna Tinsley | 10 | 13 | 77% |
| Dr Anne Wright CBE | 11 | 13 | 85% |
| Ruth Walker MBE | 9 | 13 | 69% |
| Derek Pretty | 12 | 13 | 92% |
| Marta Phillips OBE | 11 | 13 | 85% |

** Yn cynnwys sesiynau cyhoeddus a chyfrinachol*

Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cynnwys sesiwn gyhoeddus a sesiwn gyfrinachol. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, mae aelodau'r Cyngor hefyd yn mynychu seminarau misol, yn cynnal telegynadleddau, ac yn cymryd rhan mewn llawer math o weithgareddau eraill. Mae hyn yn cynnwys mynychu gweithdai a digwyddiadau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, cleifion, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag ymweld â lleoedd gwaith nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ac ymweld â sefydliadau addysgol. Oherwydd y pandemig COVID-19, mae seminarau a chyfarfodydd y Cyngor wedi'u cynnal yn rhithiol, fel y mae Rheolau Sefydlog yn caniatáu, ers mis Mawrth 2020.

## Llywodraethu effeithiol

Rydym wedi ymrwymo i safonau llywodraethu uchel. Mae ein harfer yn cydymffurfio â Chod Arfer Da Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet i adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau y bo'n gymwys. Rydym hefyd yn ceisio bodloni'r egwyddorion a'r arfer a argymhellwyd sydd yn y Cod Llywodraethu Elusennau ac Egwyddorion Moesegol Elusennau NCVO. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae aelodau'r Cyngor yn derbyn hyfforddiant sefydlu trylwyr ar adeg eu penodi ac yn cael arfarniad unigol bob blwyddyn. Rhoddir sylw i'r arfarniadau hyn wrth benderfynu ar weithgareddau datblygu unigol ac ar y cyd, ac wrth ystyried ailbenodi aelodau'r Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd aelodau'r Cyngor i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau datblygu. Yn eu plith, roedd ymweliadau allanol i glywed am brofiadau myfyrwyr, addysgwyr, aelodau'r gofrestr a chyflogwyr.

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiadau o'i effeithiolrwydd yn gyson. Yn unol â gofynion llywodraethu da, cynhaliwyd adolygiad annibynnol allanol o effeithiolrwydd a llywodraethu yn 2019 i sicrhau bod ein trefniadau'n gyson ag arferion da a'u bod yn ystwyth ac yn addas i'r dyfodol. Canfu'r adolygiad fod ein dull o lywodraethu'n un cadarn a manwl, a bod nifer o agweddau ar lywodraethu da i'w gweld. Cynigiwyd rhai awgrymiadau ymarferol a logistaidd i gryfhau'r trefniadau presennol ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n raddol, yn cynnwys newid i bapurau Cyngor a Phwyllgor electronig, newid y cydbwysedd gwaith rhwng y Cyngor a'r Weithrediaeth a mabwysiadu adroddiadau chwarterol ar berfformiad a risg.

## Pwyllgorau'r Cyngor

Mae Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, Pwyllgor Buddsoddi a Bwrdd Penodiadau gan y Cyngor, fel yr oedd ganddo mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r broses o benodi aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgorau Archwilio, Cydnabyddiaeth Ariannol a Buddsoddi yn cael ei llywodraethu gan Reolau Sefydlog y Cyngor a'i Gynllun Dirprwyo, ynghyd â set o egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2015. Adolygir aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor bob blwyddyn.

Mae cylch gwaith, aelodaeth a chofnodion presenoldeb pob Pwyllgor wedi'u dangos isod.

## Y Pwyllgor Archwilio

Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd y sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd | Canran y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Marta Phillips OBE (Cadeirydd) | 4 | 4 | 100% |
| Robert Parry | 3 | 4 | 75% |
| Derek Pretty | 4 | 4 | 100% |

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a chynllunio olyniaeth. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd* | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd* | Canran y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Yr Athro Karen Cox (Cadeirydd) | 4 | 4 | 100% |
| Sir Hugh Bayley | 4 | 4 | 100% |
| Maura Devlin MBE | 4 | 4 | 100% |

** Mae'n cynnwys dau gyfarfod a gynhaliwyd drwy delegynadledda*

Hefyd cynhaliodd y Pwyllgor weithdy anffurfiol yn Hydref 2019 a gwnaeth nifer o benderfyniadau drwy ohebu.

## Y Pwyllgor Buddsoddi

Cylch gwaith y Pwyllgor Buddsoddi yw goruchwylio'r broses o roi strategaeth fuddsoddi'r Cyngor ar waith a monitro portffolio buddsoddiadau'r Cyngor.

Roedd aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn, ac yn cynnwys dau aelod annibynnol a benodwyd i ddechrau yn eu swydd o 15 Ebrill 2019.

| Member | Nifer y sesiynau a fynychwyd* | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd* | Canran y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Derek Pretty (Cadeirydd) | 5 | 5 | 100% |
| Thomasina Findlay (penodwyd 15 Ebrill 2019) | 5 | 5 | 100% |
| Nick McLeod-Clarke (penodwyd 15 Ebrill 2019) | 5 | 5 | 100% |
| Stephen Thornton CBE | 5 | 5 | 100% |
| Claire Johnston | 4 | 5 | 80% |

** Mae'n cynnwys un cyfarfod a gynhaliwyd drwy delegynadledda*

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ymgymryd â gweithgarwch sylweddol yn ystod y flwyddyn ar gaffael ac ar benodi rheolwr cronfeydd ar gyfer ein buddsoddiadau tymor hir, a gwnaeth benderfyniadau drwy ohebu.

## Y Bwrdd Penodiadau

Mae holl aelodau'r Bwrdd Penodiadau yn rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor (aelodau partneriaid), a benodwyd drwy ddilyn prosesau recriwtio agored cystadleuol. Ailbenodwyd Frederick Psyk i wasanaethu am ail dymor o 1 Medi 2019.

Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor mewn perthynas ag arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Paneli ac Aseswyr Cyfreithiol.

Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd | Canran y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Jane Slatter (Cadeirydd) | 4 | 4 | 100% |
| Robert Allan | 4 | 4 | 100% |
| Angie Loveless | 4 | 4 | 100% |
| Frederick Psyk | 4 | 4 | 100% |
| Clare Salters | 4 | 4 | 100% |

## Rôl y Weithrediaeth

Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Rôl y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain a rheoli materion rheoleiddio, proffesiynol, busnes ac ariannol yr NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn bersonol gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnyddio adnoddau yn effeithiol.

Y Bwrdd Gweithredol yw'r prif gorff rheoli a phenderfynu. Aelodau'r Bwrdd yw'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r holl gyfarwyddwyr. Bydd Cwnsler Cyffredinol hefyd yn bresennol. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac yn darparu sicrwydd i'r Cyngor drwy wneud y canlynol: datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes, a chyllidebau; sicrhau y caiff adnoddau, cyllid a phobl eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon; ac adnabod a rheoli risg.

## Goruchwyliaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)

Mae'r PSA yn goruchwylio ac yn adrodd i'r Senedd ar ein gwaith ni, yn ogystal â gwaith cyrff eraill sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.

Yn Ebrill 2020, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2018–2019. Canfu'r PSA ein bod wedi cyflawni 22 o'r 24 Safon Rheoleiddio Da. Roedd y ddwy a oedd heb eu cyflawni yn ymwneud â'r Safonau Cymhwyster i Ymarfer:

- Proses dryloyw, deg a chymesur sy'n canolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd (Safon 5)
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon mewn achosion am y cynnydd ar eu hachos a chynnig cymorth iddynt i'w galluogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses (Safon 7).

Roedd y PSA wedi cydnabod y gwaith helaeth rydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r canfyddiadau yn Lessons Learned Review, a gyhoeddwyd ym Mai 2018, ar y ffordd roeddem wedi delio ag achosion cymhwyster i ymarfer Bae Morecambe.

Mae'r PSA wedi diwygio'r Safonau Rheoleiddio Da a ddefnyddir i asesu perfformiad rheoleiddwyr bob blwyddyn, yn cynnwys cyflwyno set newydd o Safonau Cyffredinol. Treialodd y PSA y pum Safon Gyffredinol Rheoleiddio Da newydd rhwng Ebrill a Medi 2019. Roeddem yn falch o gymryd rhan yn y cynllun i dreialu Safon 3, sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac roeddem wedi cyflawni'r Safon hon. Bydd y Safonau newydd yn gymwys i adolygiad perfformiad 2019–2020, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

## Monitro perfformiad ac ansawdd data

Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd ar ein cynllun corfforaethol a'n cyllideb yn rheolaidd drwy adroddiadau perfformiad, dangosyddion perfformiad allweddol, adroddiadau ariannol a diweddariadau ar risg mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Drwy gydweithio â'r Weithrediaeth, mae'r Cyngor yn penderfynu pa wybodaeth a data am berfformiad y mae'n dymuno eu hadolygu er mwyn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol am ein perfformiad a'r graddau rydym yn agored i risg. Mae ein trefniadau i adrodd ar berfformiad yn cael eu hadolygu'n gyson ac rydym wedi gwneud nifer o welliannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran y data rydym yn eu monitro a sut rydym yn adrodd ar y data hynny.

Yn ystod 2020–2021, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad sylfaenol o'n mesurau perfformiad corfforaethol i sicrhau eu bod yn gyson â'r uchelgeisiau yn ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025. Drwy gydgynhyrchu â thimau cyflawni, byddwn yn parhau i wella adroddiadau dros amser i sicrhau bod gennym fesurau cytbwys i dracio ein perfformiad presennol ar sail ein cynllun corfforaethol a'n strategaeth.

Er mwyn hwyluso'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein galluoedd ar gyfer rheoli, dadansoddi a llywodraethu data.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system gadarn ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol. Pwrpas y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg yn hytrach na'i dileu, a rhoi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn darparu sicrwydd i'r Cyngor am weithrediad y system rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Trafododd y Cyngor y prif risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Gellir trafod materion cyfrinachol sy'n gysylltiedig â risgiau penodol mewn sesiwn gaeëdig lle bo angen. Dim ond dau faes a drafodwyd fel hyn yn ystod 2019–2020, sef y rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg (MOTS) a'r pandemig COVID-19, a drafodwyd mewn sesiynau preifat yn ogystal â rhai cyhoeddus .

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd y system rheoli risg a rheolaeth fewnol ac, ar y cyd â'r cyfarwyddwyr, am sicrhau bod y system hon yn cael ei rhoi ar waith. Ar y cyd â'r cyfarwyddwyr, mae'n gyfrifol am adnabod a gwerthuso risgiau, am roi mesurau lliniaru priodol ar waith ac am fonitro cynnydd ac adrodd arno. Mae'r Weithrediaeth wedi adolygu ein proffil risg yn rheolaidd.

Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd ein prosesau a'n gweithdrefnau rheoli risg bob blwyddyn. Cynhelir adolygiadau sicrwydd cynhwysfawr gan y Pwyllgor Archwilio, fel y bo'n briodol.

Y casgliad gan archwiliad mewnol o aeddfedrwydd ein trefniadau i reoli risg a gynhaliwyd yn Chwefror 2020 oedd ein bod yn parhau i gadw lefelau rhesymol o sicrwydd bod rheolaethau wedi'u cynllunio'n briodol a'u cymhwyso'n gyson. Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud, rydym yn cydnabod nad ydym wedi gallu gwneud cymaint o gynnydd ag a ddymunem mewn perthynas â'n trefniadau i reoli risg yn ystod 2019–2020. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn asesiad yr archwiliad mewnol o aeddfedrwydd ein trefniadau i reoli risg, sef 'Yn datblygu'. Byddwn yn canolbwyntio o'r newydd yn 2020–2021 ar ein gwaith i gyrraedd statws 'Yn aeddfedu' yn ein trefniadau rheoli risg. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:

- cryfhau ein dull o reoli risg ar bob lefel yn y sefydliad gan gynnwys y cyfarwyddiaethau newydd a sefydlwyd yn ein cynllun sefydliadol newydd
- addysg a hyfforddiant mewn risg i gydweithwyr ar draws y sefydliad
- adolygu a chysoni'r parodrwydd i dderbyn risg â'n strategaeth newydd
- gwella ein ffordd o adnabod risgiau a chyfleoedd yn ein fframwaith cynllunio busnes
- cynllunio fframwaith sicrwydd risg wedi'i seilio ar fewnwelediadau o'r holl ffynonellau sicrwydd (rhai mewnol ac allanol).

## Sicrwydd

Mae ein system rheolaethau mewnol yn cynnwys:

- prosesau recriwtio a hyfforddi a gynlluniwyd i sicrhau bod ein cydweithwyr yn meddu ar y sgiliau, y gwerthoedd a'r profiad priodol ar gyfer eu rolau
- cynlluniau sy'n llifo o'r amcanion a amlinellwyd yn ein strategaeth a'n cynlluniau corfforaethol blynyddol drwy gynlluniau'r cyfarwyddiaethau a'r timau at amcanion cydweithwyr unigol. Rheolir y cynnydd ar y cynlluniau hynny ar lefel yr unigolyn drwy gyfarfodydd ac arfarniadau un-i-un, ac ar lefel cyfarwyddiaethau a chorfforaethol drwy wybodaeth reoli a adroddir i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor
- cyllidebau a gaiff eu pennu er mwyn rhoi'r cynlluniau ar waith ar gyfer y flwyddyn i ddod, a chyllidebau dangosol tymor hwy, a gaiff eu monitro drwy gyfrifon rheoli misol
- polisïau, prosesau a chanllawiau i gydweithwyr a chyflenwyr sy'n nodi sut rydym yn gweithredu, gan gynnwys rheolaethau awdurdodi dros drafodion ariannol ac anariannol unigol
- cynlluniau dirprwyo sy'n cyfleu'n glir y lefelau awdurdod ar gyfer penderfynu.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am y canlynol:

- cymeradwyo'r cynllun gwaith sicrhau ansawdd blynyddol ar gyfer ein tîm gwella ansawdd mewnol, adolygu canlyniadau adolygiadau sicrhau ansawdd, a chytuno ar argymhellion i wella trefniadau sicrhau ansawdd a goruchwylio'r argymhellion hynny
- rhoi sicrwydd bod y cynllun gwaith archwilio mewnol blynyddol a'r cynllun gwaith sicrhau ansawdd blynyddol yn ategu ei gilydd ac yn canolbwyntio ar feysydd lle ceir gwendidau posibl o ran rheolaeth fewnol
- adolygu perfformiad ein portffolio newid strategol ochr yn ochr â'n cofrestr risg gorfforaethol bob mis
- cynnal asesiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar hunanasesiadau a gwblheir gan bob cyfarwyddwr ar gyfer ei briod gyfarwyddiaeth.

Fel arfer, cynhelir asesiad blynyddol o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg ac o reolaeth fewnol ar sail hunanasesiad gan bob cyfarwyddwr o'r risgiau a rheolaethau yn ei briod faes. Yn 2019–2020, oherwydd y pandemig COVID-19 a'r angen i roi blaenoriaeth i'n hymateb i'r argyfwng, paratowyd asesiadau gan y tîm risg corfforaethol i bob cyfarwyddwr a oedd wedyn wedi cymeradwyo'r cynnwys. Daeth yr ymarfer asesu hwn i'r casgliad bod gennym sicrwydd rhesymol, yn gyffredinol, fod ein hamgylchedd rheolaeth fewnol yn gweithredu'n ddigonol ar lefel y gorfforaeth a'r cyfarwyddiaethau. Yn ystod 2020–2021, byddwn yn sicrhau bod cyfarwyddiaethau newydd a geir o ganlyniad i ailstrwythuro'r sefydliad yn ffurfio amgylchedd rheolaeth priodol.

## Adrodd ar ddigwyddiadau difrifol/hysbysadwy

Yn yr un modd â nifer mawr o elusennau, cawsom lythyr gan y Comisiwn Elusennau yn 2019 yn atgoffa'r ymddiriedolwyr am eu cyfrifoldeb i adrodd ar ddigwyddiadau difrifol. Roedd hyn yn dilyn y materion diogelu a ganfuwyd mewn elusen cymorth rhyngwladol ar ddechrau 2018.

Adolygodd y Pwyllgor Archwilio ein prosesau ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau i'r Comisiwn Elusennau ac OSCR a darparodd sicrwydd i'r Cyngor eu bod yn parhau'n briodol. Nodir materion y mae angen adrodd amdanynt i'r Comisiwn Elusennau/ OSCR drwy nifer o ffyrdd sef, yn bennaf, y polisi a phroses Adolygu Digwyddiadau Difrifol, ond hefyd y polisïau a phrosesau ar Chwythu'r Chwiban; Atal Twyll; Llwgrwobrwyo a Llygredd; a Diogelu. Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau/OSCR, lle'r ydym yn nodi mater y dylid adrodd amdano, byddai adroddiad arno'n cael ei gyflwyno'n ddi-oed i'r Cyngor, fel ymddiriedolwyr, a byddid yn gofyn am ganiatâd i adrodd i'r Comisiwn Elusennau/OSCR.

Yn 2019–2020, rhoesom adroddiad am un digwyddiad difrifol i'r Comisiwn Elusennau, a gafodd ei fodloni bod y Cyngor yn delio â'r mater mewn ffordd briodol a chyfrifol. Cododd y mater hwn fel pryder am ddiogelu a chyfeirir ato yn yr adran berthnasol isod.

## Datgelu er budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban)

Mae ein polisi ar Chwythu'r Chwiban yn annog cydweithwyr ac eraill sy'n gweithio i ni neu gyda ni i godi llais os byddant yn gweld bod rhywbeth o'i le. Byddwn yn adolygu'r polisi'n rheolaidd ac rydym wedi parhau i hybu ymwybyddiaeth o'r polisi drwy ei hyrwyddo mewn canllawiau i reolwyr, mewn cyfathrebiadau mewnol a thrwy nifer o gyfarfodydd briffio 'dysgu dros ginio' sy'n agored i'r holl staff.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad ar chwythu'r chwiban ym mhob un o'i gyfarfodydd. Roedd pum achlysur pan oedd pobl wedi defnyddio'r polisi ar chwythu'r chwiban i godi pryderon yn 2019–2020 (2018–2019: dim).

Credir bod y cynnydd yn nifer y pryderon a godwyd yn adlewyrchu newid cadarnhaol yn niwylliant yr NMC at un lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i godi llais. Roedd mwyafrif y materion a godwyd yn gymysgedd o gwynion mewnol, anghydfodau posibl a phryderon ehangach yn gysylltiedig ag adnoddau dynol/pobl. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â lefelau'r adnoddau mewn timau, trefniadau rheoli, diwylliant ac ymddygiadau, cymhwyso polisïau sy'n ymwneud â dyrchafu a datblygu mewn ffordd anghyson, y ffordd o gynorthwyo cydweithwyr wedi iddynt ddychwelyd i weithio ar ôl absenoldeb hir, a chymesuredd y camau a gymerir mewn perthynas â honiadau yn erbyn staff. Trafodwyd y pryderon mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys cymysgedd o adolygiadau mewnol ac asesiadau allanol. Ym mhob achos, cafodd yr unigolion a gododd y pryderon eu hysbysu am y camau a gymerwyd a'r canlyniadau.

Rhai o'r prif gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r pryderon a godwyd oedd:

- Sicrhau bod unrhyw adolygiad allanol yn cael ei gynnal yn unol â gwerthoedd ac ymddygiadau'r NMC ac ymgorffori hyn yn ein dull caffael.
- Trefnu bod cyfarwyddyd a chymorth pwrpasol ar gael i gydweithwyr sy'n delio ag achosion sy'n anodd ac yn achosi straen, yn cynnwys trefniadau ôl-drafod effeithiol.
- Egluro ein prosesau i unigolion sy'n dymuno codi pryderon yn ffurfiol y tu allan i'r broses anghydfodau a chwythu'r chwiban er mwyn cymell pobl i godi llais a rhannu pryderon a bod yn glir hefyd ynghylch beth a wneir i ddelio â phryderon.

Rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i gymryd camau ar yr argymhellion hyn a rhai eraill, a bydd y Weithrediaeth yn monitro'r cynnydd arnynt.

Mae ymchwiliad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i un pryder a godwyd o dan y polisi chwythu'r chwiban yn Chwefror 2020 sy'n ymwneud ag anghysondeb posibl wrth gymhwyso'r gofynion ar gyfer ymuno â'r gofrestr.

## Diogelu ac amddiffyn pobl

Mabwysiadwyd polisi ar Ddiogelu ac Amddiffyn Pobl rhag Niwed sy'n adlewyrchu pa mor bwysig yn ein golwg yw ein cyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn rhag niwed bawb sy'n dod i gysylltiad â ni a'r rheini sy'n gweithio i ni ac ar ein rhan. Penodwyd cyfarwyddwr dynodedig yn arweinydd diogelu corfforaethol ym Mawrth 2019. Rydym wedi adolygu ein polisi i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn effeithiol. Mae'r polisi'n canolbwyntio ar rôl cydweithwyr o ran canfod a rheoli pryderon allanol a all ddod i'w sylw a hefyd, yn fewnol, ar amddiffyn cydweithwyr rhag cam-drin ac aflonyddu. Roedd ein hadolygiad wedi dangos bod rhai meysydd i'w gwella, fel yr angen am fwy o ymwybyddiaeth ymhlith cyflogeion o'n prosesau diogelu gweithredol ac am wella ein ffordd o gofnodi pryderon fel y bydd y darlun yn gliriach ar draws y sefydliad. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r meysydd y mae angen eu gwella a chymeradwywyd diweddariadau i'r polisi gan y Cyngor yn Ionawr 2020.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd 299 o gyflogeion wedi cwblhau ein cwrs e-ddysgu ar ddiogelu ac roedd 67 o gyflogeion mewn timau allweddol wedi cymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi undydd a hwyluswyd gan aelod o'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth. Yn 2020–2021, byddwn yn parhau i annog rhagor o gydweithwyr i gwblhau'r cwrs e-ddysgu a hefyd yn darparu hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion am gymorth mewn timau penodol, fel y bydd cydweithwyr yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau diogelu ac yn gallu eu cyflawni'n hyderus.

Roeddem yn ymwybodol o 14 o bryderon diogelu yn ystod 2019–2020. Trafodwyd y rhain yn briodol, ac atgyfeiriwyd pump ohonynt i gorff diogelu allanol neu i'r heddlu. Mewn un achos, roeddem wedi adrodd am bryder diogelu i'r Comisiwn Elusennau fel y nodwyd uchod.

## Dysgu gwersi o gwynion a digwyddiadau

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd ein swyddogaeth Ymholiadau a Chwynion newydd i wella ein ffordd o drafod cwynion. Mae rhagor o fanylion yn yr adran ar adolygu perfformiad yn yr adroddiad hwn.

### Adroddiadau mewnol ar ddigwyddiadau

Byddwn yn adrodd yn fewnol am ddigwyddiadau ac achosion a fu bron â digwydd lle mae pethau wedi mynd o'i le. Ymchwilir i'r rhain o dan ein proses adolygiadau digwyddiadau difrifol (ADD) i ganfod gwersi i'w dysgu a rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag digwydd eto. Adroddir bob chwarter blwyddyn am themâu a gwersi i'w dysgu i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.

Yn ystod 2019–2020, adroddwyd am gyfanswm o 179 o ddigwyddiadau corfforaethol ac achosion a fu bron â digwydd (2018–2019: 184).

O dan ein proses adrodd am ddigwyddiadau byddwn yn gwahaniaethu rhwng Digwyddiadau Niweidiol (DNau) a Digwyddiadau Difrifol (DDau) ar sail difrifoldeb y digwyddiad. O'r 179 o ddigwyddiadau corfforaethol a gofnodwyd yn 2019–2020, roedd 49 wedi'u dynodi'n DDau (2018–2019: 46), a'r 130 a oedd yn weddill yn DNau (2018–2019: 138). O ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol, cafodd ein prosesau eu hadolygu a'u cryfhau, yn enwedig mewn perthynas â diogelu gwybodaeth a chyfathrebu allanol a mewnol. Roedd y newidiadau'n cynnwys diweddaru canllawiau mewnol, a darparwyd hyfforddiant diweddaru ac ychwanegol i gyflogeion. Nid oes gennym dystiolaeth bod niwed gwirioneddol wedi codi o ddigwyddiadau difrifol a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Mae pryderon diogelu yn cael eu trafod ar wahân, fel y nodwyd uchod.

Yn 2019–2020 cofnodwyd **179** **o ddigwyddiadau corfforaethol ac achosion a fu bron â digwydd** (2018–2019: 184)

## Llywodraethu gwybodaeth a diffygion o ran diogelu gwybodaeth

Rydym yn parhau i reoli diogelwch gwybodaeth yn unol ag ISO 27001, y safon ryngwladol ar ddiogelu gwybodaeth.

Mae digwyddiadau'n cael eu cofnodi, eu rheoli a'u hymchwilio yn unol â'n proses Adroddiadau Digwyddiadau Difrifol sy'n nodi gwersi i'w dysgu ac argymhellion ar gyfer gwella.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o nifer y digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn 2019–2020, ynghyd â'r ffigurau ar gyfer 2018–2019 er mwyn eu cymharu. Nid ydym yn cynnwys digwyddiadau dibwys yn y cyfanswm hwn bellach. O'r 98 o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth a gofnodwyd yn 2019–2020, roedd 61 yn achosion o ddatgelu data heb awdurdod (tor diogelwch data).

Yn 2019–2020, adroddwyd am ddau achos o dor diogelwch data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (2018–2019: pump). Nid yw'r ICO wedi cymryd unrhyw gamau rheoleiddio mewn perthynas â'r tor diogelwch hwn.

| | Digwyddiadau diogelwch gwybodaeth | |
|---|---|---|
| | **2019–20** | **2018–19** |
| Critigol | 0 | 0 |
| Mawr | 2 | 0 |
| Cymedrol | 31 | 27 |
| Bach | 65 | 74 |
| **Cyfanswm** | **98** | **101** |

## Atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd

Ni chanfuwyd unrhyw achosion gwirioneddol neu bosibl o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd yn 2019–2020 (2018–2019: dim). Mae pob cyflogai newydd yn gorfod dilyn hyfforddiant atal twyll a llwgrwobrwyo. Derbynnir hyfforddiant diweddaru bob yn ail flwyddyn a datblygwyd canllawiau newydd ynghylch caffael sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol a mesurau diogelu i osgoi twyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Mabwysiadwyd polisi Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer aelodau'r Cyngor, aelodau partneriaid a chydweithwyr sy'n hyrwyddo arferion da yn y maes hwn. Dosbarthir nodyn atgoffa yn rheolaidd am y pwysigrwydd o gydymffurfio â'r polisi hwn. Cedwir cofrestr o'r holl roddion a lletygarwch sydd wedi'u derbyn neu eu gwrthod.

Yn ystod 2020–2021, byddwn yn cyflwyno prosesau fetio ychwanegol ar gyfer recriwtio i rolau allweddol lle gall risgiau o ran twyll, llwgrwobrwyo a llygredd fod yn fwy, er enghraifft, yn y tîm cyllid.

## Caethwasiaeth fodern

Nid oes lle mewn cymdeithas i gaethwasiaeth fodern ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau na cheir troseddu o ran caethwasiaeth fodern yn ein cadwyn gyflenwi.

Y flwyddyn hon, roeddem wedi parhau i wella ein harferion a phrosesau busnes i helpu i hybu ymwybyddiaeth a sicrhau nad oes troseddu o ran caethwasiaeth fodern yn ein cadwyn gyflenwi. Ymhlith y gwelliannau y mae: datblygu modiwl e-ddysgu ar gaethwasiaeth fodern sydd ar gael i'n holl gydweithwyr; cynnwys caethwasiaeth fodern yn ein gweithdrefnau safonol ar gyfer sicrwydd gan gyflenwyr a rheoli contractau; a chydweithio â'n cyflenwr teithiau busnes i adolygu'r gwestai a ddefnyddiwn amlaf.

Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, roeddem wedi diweddaru a chyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern ym Mawrth 2020. Nid oeddem wedi canfod unrhyw faterion dichonol o ran caethwasiaeth fodern yn ystod y flwyddyn.

## Y Gymraeg

Byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad monitro blynyddol am wasanaethau a gynigiwyd i siaradwyr Cymraeg i Gomisiwn y Gymraeg yn yr hydref yn ôl yr arfer. Gwneir yr adroddiad hwn o dan y rhwymedigaethau sydd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg. Rydym wedi ymgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill i baratoi at gyflwyno deddfwriaeth newydd ar y Gymraeg sy'n destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd y ddeddfwriaeth hon yn dod i rym yn 2021. Rydym wedi cynnal dadansoddiad mewnol i rag-weld y gwaith y bydd ei angen i gydymffurfio â'r safonau newydd. Rydym yn falch o allu cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

## Materion a risgiau allweddol y gweithredwyd arnynt yn ystod y flwyddyn

Rydym wedi cymryd camau i ddelio â gwendidau a risgiau mewn rheolaethau ar feysydd allweddol sydd wedi'u disgrifio isod.

### Y pandemig COVID–19

Gan ein bod yn cadw'r gofrestr fwyaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU, roedd yn hanfodol i ni weithredu'n gyflym i gynorthwyo ein proffesiynau drwy ddarparu canllawiau, cynnig cyngor clir i bartneriaid, ac addasu ein ffordd o weithio i sicrhau ein bod yn gallu parhau i reoleiddio'n effeithiol.

Elfen allweddol yn y gwaith hwn oedd cydweithio'n rhagweithiol â'n partneriaid yn y sector. Roedd hyn yn cynnwys: datganiadau ar y cyd gan reoleiddwyr am y ffordd roeddem yn bwriadu rheoleiddio ac ystyried y cyd-destun yn ystod y pandemig; adolygu a chysoni ein pwerau rheoleiddio dros dro â rheoleiddwyr eraill er mwyn gallu dysgu gwersi oddi wrth eraill; ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y pedair gwlad i ddeall sut roedd pob gwlad yn bwriadu ymateb a sut y gallem gydweithio; cysylltu'n rheolaidd ac yn barhaus â Phrif Swyddogion Nyrsio er mwyn deall anghenion y gweithlu ar lawr gwlad, a chydweithio'n agos â'r pedair gweinyddiaeth i ychwanegu at allu'r gweithlu drwy gofrestru dros dro.

Yn fewnol, roeddem wedi defnyddio ein cynlluniau parhad busnes i gymryd nifer o gamau gwahanol a oedd yn lleihau'r ymyrraeth â'n gweithrediadau ein hunain yn ystod yr argyfwng. Roedd y rhain yn cynnwys: yr uwch reolwyr yn cwrdd bob dydd i drafod a datrys materion COVID-19; cymryd camau'n gyflym i drefnu i'n Canolfan Gyswllt weithredu o bell; helpu cydweithwyr yn yr NMC i weithio gartref ac mewn ffordd hyblyg; newid blaenoriaethau ar draws y sefydliad i sicrhau bod y gweithlu a oedd ar gael yn gallu canolbwyntio ar gyflawni gweithgareddau rheoleiddio craidd; a sicrhau trefniadau cadarn i ymgysylltu a chyfathrebu'n fewnol ac allanol er mwyn darparu cyngor clir a chryno.

Bydd yr ymateb i'r argyfwng yn parhau yn 2020–2021 a byddwn yn ei gadw fel risg fyw ddifrifol ar ein cofrestr risg gorfforaethol. Rydym yn disgwyl y bydd y pandemig COVID-19 yn arafu'r cynnydd ar ein cynllun corfforaethol a'n cyllideb ar gyfer 2020–2021 ac mae'r Cyngor a'r Weithrediaeth wedi ymrwymo i adolygu'r effaith yn rhan olaf y flwyddyn.

## Risgiau TGCh

Risg gorfforaethol sylweddol sydd wedi aros ar ein cofrestr risg yw bod ein systemau TGCh craidd wedi dyddio. Fel y nodwyd yn adran yr adolygiad o berfformiad, cafwyd cynnydd ar ein rhaglen i foderneiddio ein systemau TGCh. Yn ystod 2020–2021, byddwn yn cwblhau cam 1 y rhaglen, sef gweithredu'r gofrestr newydd ar Microsoft Dynamics 365, a fydd yn lleihau'r risg o ran TGCh yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn rhedeg yn hwyr ac mae'r gwariant yn fwy na'r gyllideb ar ei chyfer.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cafwyd newid yn arweinyddiaeth y rhaglen, a chryfhawyd dulliau llywodraethu a rheoli'r rhaglen. Cymeradwywyd cynllun cyflawni a chyllideb ddiwygiedig gan y Cyngor ym mis Tachwedd, ond rydym hefyd yn rhedeg yn hwyr ar y cynllun hwnnw.

Mae'r problemau a brofwyd yn gyffredin mewn rhaglenni datblygu TGCh, yn cynnwys anawsterau o ran rheoli cwmpas y rhaglen, rheoli dibyniaethau, a chadw'n wastad â'r amserlen. Rydym wedi comisiynu adolygiad allanol annibynnol o'r rhaglen er mwyn canfod ffyrdd i reoli'r rhaglen yn well a dysgu gwersi ar gyfer gweithredu'r cam nesaf.

Cwblhawyd ein prawf blynyddol ar ymadfer ar ôl trychineb yn llwyddiannus yn Chwefror 2020. Fel y nodwyd uchod ac yn adran yr adolygiad o berfformiad yn yr adroddiad hwn, am ein bod wedi dosbarthu gliniaduron i bron pob un o'n cydweithwyr, rydym wedi gallu parhau i weithio o bell yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud ar gyfer y pandemig COVID-19. Mae hyn wedi rhoi hyder i ni y byddai ein technoleg yn parhau i gynnal ein blaenoriaethau corfforaethol pe byddai argyfwng mawr pellach yn digwydd.

Er mwyn hyrwyddo'r dull mwy ystwyth hwn o weithio, rydym yn parhau i adolygu ein mesurau diogelwch i sicrhau ein bod yn diogelu data'r NMC. Mae hyn wedi cynnwys rheoli dyfeisiau symudol a dilysu amlffactor lle'r oedd hynny'n bosibl, a threfnwyd i gyflwyno rhagor o fesurau diogelwch cysylltiedig yn y misoedd nesaf.

### Y gallu i gyflawni ein blaenoriaethau

Un pryder allweddol i ni ar ddechrau'r flwyddyn oedd ein gallu i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio craidd yn ogystal â nifer o flaenoriaethau cyflawni critigol. Roeddem wedi lliniaru'r risg hon yn ystod y flwyddyn drwy leihau trosiant cyflogeion yn sylweddol, rheoli'n llwyddiannus y trefniadau i symud ein cydweithwyr Cymhwyster i Ymarfer i swyddfeydd newydd, cyflwyno gweithgareddau'n raddol, a chynnal arolygon rheolaidd ymysg ein cydweithwyr er mwyn deall unrhyw bryderon allweddol.

Mae hon yn aros yn risg fyw ddifrifol ar ein cofrestr risg gorfforaethol er mwyn adlewyrchu'r tebygolrwydd o leihau gallu'r gweithlu a'r oedi disgwyliedig o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

## Y Pwyllgor Archwilio

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi hysbysu'r Cyngor am gryfder y sicrwydd sydd ar gael. Mae'r Pwyllgor wedi croesawu presenoldeb yr Archwilwyr Mewnol, yr Archwilwyr Allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei gyfarfodydd ac, yn unol ag arfer da, mae wedi cynnal cyfarfodydd preifat â phob un ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn.

Rhai o'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor oedd:

- adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol am Gymhwyster i Ymarfer, ac argymell i'r Cyngor y dylai gymeradwyo'r adroddiadau hynny. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi adolygu'r adroddiadau gan yr Archwilwyr Allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac ymatebion y Weithrediaeth i argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr
- adolygu'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2020
- adolygu trefniadau rheoli risg a sicrwydd, yn cynnwys cynnydd ar y cynllun gwella trefniadau rheoli risg i ymateb i gamau gweithredu allweddol a oedd wedi'u hargymell yn yr archwiliad mewnol o drefniadau rheoli risg a gynhaliwyd yn ystod haf 2018
- cynnal adolygiadau cynhwysfawr o'r risgiau, mesurau lliniaru a ffynonellau sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol: gwaith y gyfarwyddiaeth Materion Allanol; symud i'n swyddfeydd newydd a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â phobl; a'r gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, yn cynnwys y diwylliant sefydliadol
- asesu digonolrwydd y rheolaethau mewnol a'r sicrwydd cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gadw trosolwg manwl ar gadernid busnes TGCh ac wedi rhoi mwy o sylw i'r rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg, oherwydd y problemau sydd wedi codi
- adolygu gwaith a gyflawnwyd ar fapio sicrwydd yn ein prosesau cymhwyster i ymarfer ar sail Safonau Rheoleiddio Da y PSA a'r argymhellion yn nogfen *Lessons Learned Review* y PSA
- ystyried newidiadau arfaethedig yn y Rheoliadau Ariannol i'w cymeradwyo gan y Cyngor
- adolygu'r diweddariad o'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern
- cymeradwyo'r cynllun gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2019–2020, adolygu'r canlyniadau i adroddiadau archwilio mewnol a goruchwylio camau i gwblhau'r gwaith ar argymhellion gan yr archwilwyr mewnol sydd heb eu gweithredu
- adolygu digwyddiadau difrifol a thor diogelwch data, i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu a bod camau'n cael eu cymryd i'w hatal rhag digwydd eto
- adolygu camau tendro unigol a cheisio sicrwydd bod y Weithrediaeth yn cydymffurfio â phrosesau caffael priodol a bod cyfiawnhad dros gamau tendro unigol
- monitro'r camau i weithredu a defnyddio'r polisïau mewnol ar Chwythu'r chwiban ac Atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd er mwyn cael sicrwydd bod unrhyw faterion a godir yn cael eu hymchwilio'n drwyadl a bod unrhyw gamau gweithredu a gwersi a ddysgwyd yn cael eu cyflawni.

## Barn flynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2019–2020

Cynhaliwyd naw aseiniad archwilio mewnol, gan gynnwys y rheini y cyfeiriwyd atynt eisoes, yn ystod y flwyddyn yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio. Derbyniwyd pob un o argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac maent naill ai wedi cael eu hystyried neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Rhoddodd y gwasanaeth archwilio mewnol sicrwydd hefyd ynghylch gweithredu'r argymhellion o archwiliadau a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Heblaw wyth cam gweithredu â blaenoriaeth isel a chanolig, yr estynnwyd y terfynau amser ar eu cyfer, mae'r holl argymhellion o archwiliadau 2018–2019 wedi cael eu gweithredu.

Barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

*"Mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.*

*Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ddigonol ac effeithiol."*

Roedd adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydnabod bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn y 12 mis blaenorol, yn y fframwaith risg cyffredinol ac mewn arferion gweithio mewn rhai meysydd yn yr NMC. Fodd bynnag, mae nifer o welliannau arfaethedig wedi'u gohirio ac mae angen gwelliannau o hyd i ddelio â gwendidau sydd wedi para am gyfnod hwy.

Yr heriau allweddol a nodwyd wrth edrych tua'r dyfodol oedd: sicrhau bod dulliau effeithiol o lywodraethu a rheoli rhaglenni a phrosiectau'n cael eu mabwysiadu'n gadarn mewn cysylltiad â'r rhaglen MOTS; rhoi sylw i wendidau mewn rheolaethau yn ein prosesau pobl; sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'n cynllun sefydliadol newydd; aeddfedu ein fframwaith rheoli risg; a rheoli gweithrediadau yng nghyd-destun y pandemig COVID-19.

## Materion a risgiau allweddol yn y dyfodol

Dyma'r materion, y risgiau a'r cyfleoedd y byddwn yn parhau i ganolbwyntio arnynt:

- **Y pandemig COVID-19:** Wrth i'r argyfwng barhau, byddwn mewn gwell sefyllfa i werthuso holl raddau'r effaith ar reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a chymdeithas ehangach wrth i ni addasu i oblygiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac ariannol y canlyniadau i'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer gadael yr argyfwng, elwa o'r gwersi a ddysgwyd wrth ystyried sut byddwn yn rheoleiddio yn y dyfodol, ac addasu ein blaenoriaethau darparu ar gyfer y flwyddyn.
- **Perfformiad ar gymhwyster i ymarfer:** Bydd y pandemig COVID-19 yn cael effaith hir a sylweddol ar ein perfformiad gweithredol ac ar weithredu ein dull strategol ar gymhwyster i ymarfer. Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i'n gwasanaethau hanfodol er mwyn amddiffyn y cyhoedd tra byddwn yn ailddechrau mwy o'n gweithrediadau, yn cynnwys camau pellach i weithredu ein dull strategol. Rydym yn gwybod

y bydd oedi wrth ddelio ag achosion yn cael effaith sylweddol ar y partïon cysylltiedig. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau ein bod yn trin pawb mewn ffordd garedig a pherson-ganolog.

- **Diwygio rheoleiddio:** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y llywodraeth wedi nodi ei bod am symud at ddull mwy atebol ac ymatebol o reoleiddio. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i helpu i foderneiddio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.
- **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd:** Mae ansicrwydd ynghylch trefniadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Rydym yn parhau i ddilyn negodiadau'r llywodraeth â Chyngor yr UE a hefyd ar gytundebau masnach, a byddwn yn cynllunio unrhyw newidiadau angenrheidiol a negeseuon clir am y ffordd y bydd y rhain yn effeithio ar y bobl rydym yn eu rheoleiddio. Fodd bynnag, rydym wedi cyflawni llawer o waith eisoes i bennu camau gweithredu ar gyfer gwahanol senarios a bydd nifer o'r rhain yn gymwys i ba ganlyniad bynnag y bydd y llywodraeth yn ei gyrraedd.
- **Amnewid systemau TG a etifeddwyd:** Parhawn i gyflawni ein rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg er mwyn disodli hen systemau gan ymdrechu'n benodol i gwblhau'r gwaith ar amnewid y gofrestr yn ystod 2020–2021. Byddwn yn dechrau gweithio ar y cam nesaf, sy'n cynnwys amnewid ein system rheoli achosion.

## Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd

Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol.

Wrth benderfynu ar ein hasesiad, rydym wedi dibynnu ar wahanol fathau o dystiolaeth, gan gynnwys barn ac adroddiad Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol; asesiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o'n haeddfedrwydd risg; yr asesiad corfforaethol o ansawdd y rheolaethau a threfniadau sicrwydd sydd ar waith mewn cyfarwyddiaethau, a'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg. Rydym hefyd wedi dibynnu ar Farn ac Adroddiad Canfyddiadau Archwilio ein harchwilwyr allanol; ac Adroddiad Cwblhau Archwiliad a Llythyr Rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Yn gyffredinol, credwn fod sicrwydd rhesymol bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Rydym yn cydnabod bod angen trafod a chryfhau ein rheolaethau mewn perthynas â rheoli rhaglenni a'n prosesau recriwtio, yn ogystal â chanolbwyntio ar gyflawni gwelliannau arfaethedig yn ein fframwaith rheoli risg.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**6 Gorffennaf 2020**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**6 Gorffennaf 2020**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwysadwy yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2020 a'r symudiad net yn ei chronfeydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006.

## Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011, ac adran 44(1) (c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n weithredol oddi tanynt. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU a'r gyfraith gymwysadwy. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn cynnig sail ddigonol a phriodol dros ein barn.

## Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr (y Cyngor) am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am hynny o reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu bod ei hangen er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, lle y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai fod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu un ai diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt ddewis ymarferol ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol cyfan heb gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a dyroddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

## Casgliadau sy’n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennym ddim i’w adrodd mewn perthynas â’r materion canlynol, sy’n rhai y mae’n ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) lle:

- nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw’r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu’r elusen i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o 12 mis o leiaf o’r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy’n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a’r Cynllun Strategol. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ar wahân i’r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi casgliad am unrhyw fath o sicrwydd am y wybodaeth honno.

O ran ein harchwiliad o’r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, am ystyried a yw’r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd berthnasol â’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gawsom yn yr archwiliad neu’n ymddangos fel arall ei bod wedi’i chamddatgan mewn ffordd berthnasol. Os nodwn anghysonderau perthnasol o’r fath neu gamddatganiadau sy’n ymddangos yn berthnasol, mae’n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a yw’r wybodaeth arall wedi’i chamddatgan mewn ffordd berthnasol. Os deuwn i’r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethom, fod camddatganiad perthnasol o’r wybodaeth arall hon, mae’n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i’w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi os credwn fod y canlynol yn wir:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan yr elusen, neu na dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol i'n harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol a phriodol; neu
- nad yw datganiadau ariannol yr elusen yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

## Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, yn unig, yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu ymddiriedolwyr yr elusen o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yn adroddiad yr Archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb tuag at unrhyw un ac eithrio ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

**Haysmacintyre LLP**
Archwilwyr Statudol
**6 Gorffennaf 2020**

10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

Mae Haysmacintyre LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn nhermau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

## Barn am y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad o'r Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol y maent wedi'i ddefnyddio wrth eu paratoi yn unol â chyfraith gymwysadwy a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad am Gydnabyddiaeth Ariannol y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

**Yn fy marn i:**

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2020 ac o'i incwm net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a phenderfyniad y Cyfrin Gyngor a ddyroddwyd o dan y gorchymyn hwnnw.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Arfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016.

Rwyf yn annibynnol ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn cynnig sail ddigonol a phriodol i lunio barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, sy'n rhai y mae'n ofynnol i mi adrodd i chi amdanynt o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) lle:

- nad yw defnydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf oddi ar y dyddiad y rhoddwyd awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon, y Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd amdanynt yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle mae'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwyf yn arfer barn broffesiynol ac yn cadw amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall, yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol sy'n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o wall, oherwydd gall twyll gynnwys cynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu anwybyddu rheolaeth fewnol.
- yn meithrin dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn am effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- yn gwerthuso priodoldeb y polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wneir gan y rheolwyr.
- yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn dangos y prif drafodion a digwyddiadau mewn ffordd deg.
- yn dod i gasgliad ar briodoldeb y defnydd o sail gyfrifyddu busnes hyfyw gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gafwyd, ynghylch a oes ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a all fwrw amheuaeth ylweddol dros allu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel busnes hyfyw. Os deuaf i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os nad yw'r datganiadau hynny'n ddigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau wedi'u seilio ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol beri na fydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn parhau fel busnes hyfyw.

Rwyf yn cyfathrebu â'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio pwysig, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth arall

Y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Y wybodaeth arall yw'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd i amdanynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad am sicrwydd y wybodaeth honno. O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, rwyf yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan mewn ffordd berthnasol. Os deuaf i'r casgliad, ar sail fy ngwaith, fod camddatganiad perthnasol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

**Yn fy marn i:**

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;
- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r dealltwriaeth a gafwyd o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'i amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y rhoddaf farn gadarnhaol am ei chysondeb ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu na chafwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad am Gydnabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- os yw'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn anghyson mewn unrhyw fater perthnasol â'r datganiadau ariannol; neu
- os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

**Date**
8 July 2020

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiad o weithgareddau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o'r canlynol:** | | | |
| Gweithgareddau elusennol: | | | |
| Ffioedd | 2 | 88,450 | 85,244 |
| Buddsoddiadau | 3 | 953 | 607 |
| Incwm arall | 3 | 436 | 6,134 |
| **Cyfanswm** | | **89,839** | **91,985** |
| **Gwariant ar y canlynol:** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | (82,349) | (81,558) |
| **Incwm net** | | **7,490** | **10,427** |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill:** | | | |
| Enillion/(colledion) actwaraidd ar y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio | 17 | 1,705 | (3,282) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **9,195** | **7,145** |
| **Cysoni cronfeydd:** | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 48,332 | 41,187 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **57,527** | **48,332** |

Mae'r holl gronfeydd yn ddigyfyngiad yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac mewn blynyddoedd ariannol blaenorol. Mae'r holl weithgareddau sydd wedi'u dangos yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod wedi deillio o weithrediadau sy'n parhau. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102-126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Y fantolen ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau diriaethol sefydlog** | 10 | 26,541 | 19,685 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 13 | 2,744 | 4,335 |
| Buddsoddiadau | 12 | 63,915 | 65,998 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 33,067 | 28,790 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **99,726** | **99,123** |
| **Rhwymedigaethau:** | | | |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 14 | (54,365) | (52,729) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(54,365)** | **(52,729)** |
| **Asedau cyfredol net** | | **45,361** | **46,394** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **71,902** | **66,079** |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 15 | (299) | (293) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | 16 | (2,454) | (3,215) |
| **Asedau net heb gynnwys rhwymedigaeth pensiwn** | | **69,149** | **62,571** |
| **Rhwymedigaeth y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio** | 17 | (11,622) | (14,238) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | **57,527** | **48,332** |
| **Cronfeydd yr NMC** | | | |
| **Cronfeydd digyfyngiad** | | **57,527** | **48,332** |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **57,527** | **48,332** |

**Philip Graf**
Cadeirydd
**6 Gorffennaf 2020**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**6 Gorffennaf 2020**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102-126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | | | |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu** | | | **9,972** | | **15,555** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Llog o fuddsoddiadau | 3 | 953 | | 607 | |
| Buddsoddi arian parod – arian cadw hirdymor | 12 | (343) | | (20,093) | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | (8,731) | | (3,550) | |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | | **(8,121)** | | **(23,036)** |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y cyfnod adrodd** | | | **1,851** | | **(7,481)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn** | | | **74,695** | | **82,176** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y** | | | **76,546** | | **74,695** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102-126 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Cysoni'r incwm net â'r llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm net o'r cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | 7,490 | 10,427 |
| Llog o fuddsoddiadau | (953) | (607) |
| Taliadau dibrisiant | 1,564 | 2,797 |
| Dileu dyledion am adnewyddu adeiladau | 311 | - |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | 1,591 | (252) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | 880 | 3,933 |
| Symudiadau mewn pensiynau | (911) | (743) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **9,972** | **15,555** |

# Dadansoddiad o arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 33,067 | 28,790 |
| Buddsoddiadau byrdymor[6] | 43,479 | 45,905 |
| | **76,546** | **74,695** |

Yn unol â'r SoRP ar gyfer Elusennau, FRS 102, dynodwyd buddsoddiadau â chyfnodau aeddfedu o dri mis neu lai ar 31 Mawrth 2020 fel symiau sy'n cyfateb i arian parod. Disgrifiwyd buddsoddiadau â chyfnodau aeddfedu rhwng tri mis a deuddeg mis fel "buddsoddiadau hirdymor" yn Nodyn 12 ac fe'u dynodwyd yn asedau cyfredol ar y fantolen.

Yn y cyfrifon hyn, ystyr arian parod yn y banc ac mewn llaw yw cyfrifon banc lle mae arian ar gael yn syth. Nid yw'r NMC yn dal unrhyw arian parod ffisegol.

Mae buddsoddiadau byrdymor yn cynnwys arian a gadwyd mewn banc sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o'r dyddiad ar y fantolen.

At ddiben y datganiad o'r llif arian parod, mae arian parod yn y banc ac mewn llawn a buddsoddiadau byrdymor yn cael eu trin fel arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod.

At ddiben y fantolen, mae buddsoddiadau asedau cyfredol yn cynnwys arian a gadwyd sy'n aeddfedu mewn 12 mis neu lai o'r dyddiad ar y fantolen.

6 Gweler nodyn 12 buddsoddiadau

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Y sail ar gyfer paratoi a pholisïau cyfrifyddu

Rydym yn paratoi ein cyfrifon yn unol â'r SoRP ar gyfer Elusennau (FRS 102). Fel y nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gawsom gan y Cyfrin Gyngor, sydd wedi'i atgynhyrchu yn Atodiad 1, rydym hefyd yn ystyried Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), i'r graddau y mae gofynion y Llawlyfr yn egluro neu'n ymhelaethu ar ofynion y SoRP ar gyfer Elusennau.

Rydym yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102.

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y dyfarniadau a'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r cyfrifon fel a ganlyn:

### a) Busnes hyfyw

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Ein hamcan yw amddiffyn y cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Cawn ein hariannu gan y ffioedd cofrestru a delir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae'r Cyngor wedi adolygu ein hamgylchiadau yn fanwl iawn yng nghyd-destun y pandemig COVID-19 presennol ac wedi asesu ein gallu i ariannu ein gweithgareddau hyd y gellir rhag-weld. Mae wedi adolygu ein rhagolygon o lif arian parod a lefel bresennol ein cronfeydd, ynghyd â'r cynlluniau gwaith. Un ystyriaeth allweddol oedd natur ddiogel iawn ein cyllid, mewn termau cymharol. Yn dilyn yr asesiad hwn, mae'r Cyngor o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch gallu'r NMC i barhau fel busnes hyfyw.

### b) Confensiwn cyfrifyddu

Rydym yn paratoi ein cyfrifon yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau ar sail cost hanesyddol neu werth trafodiad oni nodir fel arall yn y nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

### c) Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn, mae'n ofynnol i ni wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch gwerth cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Yn y pen draw, gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Y meysydd pwysig lle gwneir amcangyfrifon a dyfarniadau yw:

- **Dibrisiant**

Mae oes economaidd ddefnyddiol asedau diriaethol sefydlog wedi'i seilio ar farn a phrofiad rheolwyr.

- **Pensiynau**

Dangoswyd y prif dybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio yn nodyn 17.

## d) Incwm

Cydnabyddir pob incwm unwaith y bydd gan yr NMC hawl iddo, a'i bod yn debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

- **Incwm o weithgareddau elusennol**

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu ffi gofrestru flynyddol er mwyn cofrestru gyda'r NMC a gallu gweithio. Telir ffioedd cofrestru un ai'n flynyddol ymlaen llaw neu'n chwarterol ymlaen llaw. Rydym yn cydnabod y ffioedd fel incwm ar sail fisol drwy gydol y flwyddyn y mae'r ffi gofrestru yn berthnasol iddi. Swm yr incwm gohiriedig o fewn ein credydwyr yw gwerth y ffioedd rydym wedi'u cael ar ddyddiad pob mantolen sy'n berthnasol i flwyddyn ariannol yn y dyfodol. Caiff ffioedd eraill, gan gynnwys ffioedd dilysu, eu credydu i'r incwm ar y diwrnod derbyn.

- **Incwm o fuddsoddiadau**

Rhoddir cyfrif am incwm o fuddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy.

## e) Gwariant

- **Gweithgareddau elusennol**

Mae'r gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl wariant sy'n gysylltiedig ag amcanion yr elusen sy'n cynnwys: hyrwyddo safonau a datblygu polisïau, addysg, cadw'r gofrestr, cymhwyster i ymarfer, a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Gweler nodyn 4.

- **Costau cymorth**

Costau cymorth yw costau ein swyddogaethau corfforaethol, gan gynnwys safleoedd, TG, cyllid ac adnoddau dynol. Cânt eu dosrannu i'r swyddogaethau rheoleiddio ar sail nifer y cyflogeion yn y swyddogaethau rheoleiddio.

## f) Costau datblygu

Mae costau mewnol a ysgwyddwyd wrth ddatblygu meddalwedd yn cael eu dileu yn y flwyddyn y cawsant eu hysgwyddo.

## g) Cyfrifyddu cronfeydd

Mae'r holl gronfeydd yn ddigyfyngiad ar hyn o bryd ac adroddir amdanynt ar y sail honno yn y datganiadau ariannol. Maent ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion cyffredinol yr NMC.

Pe byddem yn cael cronfeydd cyfyngedig, byddai'r rhain yn cael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr.

## h) Asedau ar les

Mae rhenti sy'n gymwysadwy i lesoedd gweithredol, lle mae'r holl fuddion a risgiau o berchenogaeth yn aros gyda'r lesddeiliad i raddau helaeth, yn cael eu codi ar y datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r lesoedd.

## i)Buddion i gyflogeion

- ### Tâl gwyliau

Mae tâl gwyliau yn cael ei gydnabod yn draul yn y cyfnod pan gafwyd y gwasanaeth.

- ### Costau pensiwn

Darperir buddion pensiwn drwy gynllun buddion wedi'u diffinio a chynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Ariennir y ddau gynllun drwy gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân i'r NMC yn ariannol.

Gwneir taliadau i'r cynllun buddion wedi'u diffinio yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwariaid sydd â chymhwyster proffesiynol, a chyfrifyddir am gostau pensiwn y cynllun buddion wedi'u diffinio ar sail codi'r gost ddisgwyliedig am ddarparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r NMC yn cael gwasanaeth gan y cyflogeion. Taenir effaith amrywiadau ar gostau rheolaidd dros gyfnod a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

Gwneir taliadau i'r cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio ar sail cyfraniadau canrannol penodedig gan yr NMC a chyflogeion, a chodir y costau ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

## j) Asedau sefydlog

Caiff asedau diriaethol sefydlog sy'n costio mwy na £5,000 eu cyfalafu. Darperir dibrisiant ar asedau diriaethol sefydlog er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar | 3-5 mlynedd |
| Dodrefn | 10 mlynedd |
| Prosiectau TG | 3-5 mlynedd |
| Dodrefnu ac adnewyddu swyddfeydd | 10 mlynedd |
| Safle ar lesddaliad hir – 23 Portland Place[7] | 50 mlynedd |

Roeddem wedi ailbrisio 23 Portland Place yn ystod 2013–2014 ac ar adeg mabwysiadu FRS 102 am y tro cyntaf, roeddem wedi dewis defnyddio'r prisiad hwn fel y gost dybiedig wrth fynd ymlaen.

## k) Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ac incwm cronnus yn ôl y swm sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Pennir gwerth rhagdaliadau ar y swm a ragdalwyd.

## l) Arian parod yn y banc ac mewn llaw

Mae arian parod yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys cyfrifon lle mae arian ar gael ar unwaith.

## m) Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau lle mae gennym rwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd fwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd ac y gellir mesur y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar eu swm setlo ar ôl darparu ar gyfer unrhyw ddisgownt masnach sy'n ddyledus.

## n) Offerynnau ariannol

Yr unig asedau a rhwymedigaethau ariannol sydd gennym yw rhai a ystyrir yn offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth trafodiad ac yna fe'u mesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Mae asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys balansau arian parod, buddsoddiadau, masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys credydwyr masnach, credydwyr eraill a chroniadau.

7 Gweler Nodyn 10.1

## 2. Incwm ffioedd

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd cofrestru | 83,572 | 82,990 |
| Ffioedd eraill a delir gan ymgeiswyr a rhai sydd ar y gofrestr | 4,878 | 2,254 |
| **Cyfanswm** | **88,450** | **85,244** |

## 3. Buddsoddiadau ac incwm arall

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Llog ar arian mewn cyfrifon cadw yn y banc | 953 | 607 |
| Incwm arall | 436 | 6,134 |
| **Cyfanswm** | **1,389** | **6,741** |

Mae incwm arall yn cynnwys:

£0.308 miliwn o dan gontract a wnaed â'r Adran iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith a gyflawnwyd gan yr NMC i gynnwys cymdeithion nyrsio yn y gofrestr (2018-2019: £2.259 miliwn).

Ad-daliad o £0.010 miliwn gan CThEM mewn perthynas â thaliadau treth incwm ac yswiriant gwladol dros Banelwyr mewn blynyddoedd blaenorol (2018-2019: £2.119 miliwn).

## 4. Dadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Gweithgareddau a gyflawnwyd yn uniongyrchol | | Costau cymorth | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Costau cyflogeion | Costau eraill | Costau cyflogeion | Costau eraill | Cyfanswm 2019–2020 |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | 1,671 | 93 | 426 | 483 | 2,673 |
| Addysg | 960 | 2,345 | 213 | 242 | 3,760 |
| Cadw'r Gofrestr | 5,925 | 515 | 2,518 | 2,857 | 11,815 |
| Cymhwyster i Ymarfer | 22,448 | 15,475 | 8,431 | 13,766 | 60,120 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 1,902 | 742 | 626 | 711 | 3,981 |
| **Cyfanswm** | **32,906** | **19,170** | **12,214** | **18,059** | **82,349** |

| | Gweithgareddau a gyflawnwyd yn uniongyrchol | | Costau cymorth | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Costau cyflogeion | Costau eraill | Costau cyflogeion | Costau eraill | Cyfanswm 2018–2019 |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | 1,454 | 275 | 417 | 527 | 2,673 |
| Addysg | 1,275 | 1,947 | 224 | 283 | 3,729 |
| Cadw'r Gofrestr | 5,877 | 2,228 | 2,066 | 2,611 | 12,782 |
| Cymhwyster i Ymarfer | 19,978 | 19,072 | 7,075 | 13,360 | 59,485 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 1,238 | 553 | 485 | 613 | 2,889 |
| **Cyfanswm** | **29,822** | **24,075** | **10,267** | **17,394** | **81,558** |

Mae Nodyn 5 isod yn didoli'r costau cymorth rhwng costau'r gwahanol swyddogaethau corfforaethol, ac yn dangos sut y dyrannwyd y costau hynny i weithgareddau elusennol.

## 5. Dadansoddi costau cymorth

| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | Addysg | Cadw'r Gofrestr | Cymhwyster i Ymarfer | Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | Cyfanswm 2019–2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfleusterau | 70 | 35 | 414 | 5,585 | 103 | 6,207 |
| Cyllid a chaffael | 106 | 53 | 628 | 2,105 | 156 | 3,048 |
| Adnoddau dynol | 148 | 74 | 874 | 2,927 | 217 | 4,240 |
| TGCh | 339 | 170 | 2,006 | 6,716 | 499 | 9,730 |
| Llywodraethu | 143 | 71 | 844 | 2,825 | 210 | 4,093 |
| Cyfreithiol | 40 | 20 | 234 | 785 | 58 | 1,137 |
| Dibrisiant | 65 | 33 | 387 | 1,294 | 96 | 1,875 |
| Addasiad pensiynau | (2) | (1) | (12) | (39) | (3) | (57) |
| **Cyfanswm** | **909** | **455** | **5,375** | **22,198** | **1,336** | **30,273** |

| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | Hyrwyddo safonau a datblygu polisi | Addysg | Cadw'r Gofrestr | Cymhwyster i Ymarfer | Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | Cyfanswm 2018–2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfleusterau | 84 | 45 | 414 | 5,832 | 97 | 6,472 |
| Cyllid a chaffael | 131 | 71 | 658 | 2,261 | 156 | 3,277 |
| Adnoddau dynol | 139 | 75 | 689 | 2,359 | 162 | 3,424 |
| TGCh | 277 | 148 | 1,371 | 4,690 | 320 | 6,806 |
| Llywodraethu | 149 | 80 | 732 | 2,514 | 173 | 3,648 |
| Cyfreithiol | 38 | 21 | 191 | 650 | 45 | 945 |
| Dibrisiant | 114 | 61 | 563 | 1,927 | 132 | 2,797 |
| Addasiad pensiynau | 12 | 6 | 59 | 202 | 13 | 292 |
| **Cyfanswm** | **944** | **507** | **4,677** | **20,435** | **1,098** | **27,661** |

## 6. Costau llywodraethu

Y dadansoddiad o'r costau llywodraethu (sydd wedi'u cynnwys yn y costau cymorth) yw:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Lwfansau, yswiriant gwladol, costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Cyngor | 351 | 373 |
| Tâl archwilwyr: Haysmacintyre | 30 | 21 |
| Tâl archwilwyr: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 7 | 6 |
| Ffi flynyddol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 1,884 | 1,775 |
| Costau gweithredu (yn cynnwys cyflogau) | 1,821 | 1,472 |
| **Cyfanswm** | **4,093** | **3,648** |

## 7. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn ôl categori cost

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 45,121 | 40,089 |
| Costau cysylltiedig â Chymhwyster i Ymarfer | 14,342 | 17,424 |
| Datblygu a chymorth TG | 5,014 | 3,818 |
| Ffioedd proffesiynol | 4,531 | 6,802 |
| Costau eraill cysylltiedig â safleoedd | 2,441 | 3,100 |
| Rhent sy'n daladwy ar lesoedd swyddfeydd | 2,716 | 2,542 |
| Costau eraill cysylltiedig â chyflogeion | 2,303 | 2,096 |
| Sicrhau ansawdd addysg | 2,202 | 1,284 |
| Dibrisiant | 1,875 | 2,797 |
| Costau cyllid ac yswiriant[8] | 802 | 677 |
| Argraffu, postio a deunydd ysgrifennu | 551 | 478 |
| Costau'r Cyngor a phwyllgorau | 451 | 450 |
| **Cyfanswm** | **82,349** | **81,558** |

8 Yn cynnwys yswiriant indemnio ymddiriedolwyr

### Gwariant ar ymgynghoriaeth

Y diffiniad o ymgynghoriaeth yw darparu cyngor gwrthrychol i reolwyr mewn perthynas â strategaeth, strwythur, rheoli neu weithrediadau'r sefydliad er mwyn cyflawni ei ddibenion ac amcanion. Darperir cyngor o'r fath y tu allan i'r amgylchedd 'busnes fel arfer' os na fydd sgiliau ar gael o fewn y sefydliad a bydd yn para am gyfnod penodol. Gall ymgynghoriaeth gynnwys gwaith i ganfod opsiynau gydag argymhellion, neu gymorth i weithredu ar atebion (ond nid eu cyflawni). Ar y sail hon, mae costau ymgynghoriaeth wedi'u dangos isod.

Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y categori Ffioedd proffesiynol yn bennaf, a hefyd yn y categori Datblygu a chymorth TG.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ymgynghoriaeth | 902 | 783 |

## 8. Gwybodaeth am gyflogeion

| | Y Weithrediaeth | Cyflogeion eraill | Cyfanswm y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Cyfanswm y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau a chostau cysylltiedig** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tâl a chyflogau | 1,126 | 32,806 | 33,932 | 29,483 |
| Costau nawdd cymdeithasol Cyfraniadau YG y cyflogwr a'r ardoll prentisiaethau) | 151 | 3,589 | 3,740 | 3,240 |
| Costau pensiwn buddion wedi'u diffinio – y cyflogeion presennol[9] | 53 | 1,658 | 1,711 | 2,197 |
| Costau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio – y cyflogeion presennol | 102 | 2,367 | 2,469 | 2,020 |
| Gweithwyr dros dro ac ar gontract | 0 | 3,167 | 3,167 | 2,868 |
| Taliadau terfynu[10] | 0 | 102 | 102 | 281 |
| **Cyfanswm** | **1,432** | **43,689** | **45,121** | **40,089** |

9 Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau pensiwn cyflogeion yr NMC yn Nodyn 17.

10 Mae hyn yn cynnwys taliadau contractiol ychwanegol o £dim, taliadau diswyddo o £47,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £55,000 (2018-19: taliadau contractiol ychwanegol o £23,000, taliadau diswyddo o £87,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £171,000).

## Gwybodaeth am gyflogeion ar gyflogau uwch (yn cynnwys y Weithrediaeth)

Roedd 101 (2018-2019: 87) o gyflogeion (yn cynnwys aelodau'r Weithrediaeth dros y cyfnod hwn) â'u cydnabyddiaeth ariannol o fewn y bandiau canlynol:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| Bandiau tâl (£) | Nifer y cyflogeion | Nifer y cyflogeion |
| 60,001 - 70,000 | 46 | 46 |
| 70,001 - 80,000 | 25 | 12 |
| 80,001 - 90,000 | 19 | 15 |
| 90,001 - 100,000 | 2 | 2 |
| 100,001 - 110,000 | - | 2 |
| 120,001 - 130,000 | 4 | 6 |
| 130,001 - 140,000 | 2 | 1 |
| 140,001 - 150,000 | 1 | - |
| 150,001 - 160,000 | 1 | 1 |
| 170,001 - 180,000 | 1 | - |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys wyth aelod o'r Weithrediaeth a gafodd fwy na £60,000 yn y flwyddyn. Roedd aelod ychwanegol o'r Weithrediaeth a oedd yn ei swydd am ran o'r flwyddyn â'i enillion o fewn y band £50,001-£60,000. Mae rhagor o wybodaeth am y gydnabyddiaeth ariannol i'r Weithrediaeth yn y flwyddyn yn yr adroddiad am gydnabyddiaeth ariannol.

Mae'r cynnydd yn nifer y cyflogeion sydd ar gyflogau uwch yn ganlyniad i ddyrchafu nifer o gyflogeion, cyflwyno rolau newydd ar raddau uwch yn yr NMC, cynnydd cyffredinol yng nghyfrif pennau'r NMC a chynnydd mewn graddau a chyflogau (cyflogai sy'n ennill £67,000 neu ragor yn symud i'r band £70,000 neu ragor).

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | Nifer y cyflogeion | Nifer y cyflogeion |
| Nifer cyfartalog y cyflogeion ar gontract parhaol a chontract cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn | | |
| Y Weithrediaeth | 9 | 8 |
| Cyflogeion eraill | 787 | 716 |
| Nifer cyfartalog staff dros dro asiantaethau a chontractwyr yn ystod y flwyddyn | 83 | 74 |
| **Cyfanswm** | **879** | **798** |

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor i aelodau'r Weithrediaeth fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| R Sheldon | - | 6,001 - 7,000 |

## 9. Statws elusennol

Rydym wedi ein cofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif elusen 1091434) ac yn yr Alban gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif elusen SC038362).

O ganlyniad i'n statws elusennol, nid ydym yn atebol i dalu treth gorfforaeth ar ein gweithgareddau elusennol. Rydym hefyd yn cael rhyddhad ardrethi elusennol gan Ddinas Westminster, Bwrdeistref Newham yn Llundain a Chyngor Dinas Caeredin.

# 10. Asedau diriaethol sefydlog at ddefnydd yr

| | 23 PP safle lesddaliad hir[11] holdremi | Dodrefnu ac adnewyddu swyddfeydd | Prosiectau TG | Dodrefn | Cyfarpar | Gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo[12] | Cyfanswm 2019-2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost:** | | | | | | | |
| 01 Ebrill 2019 | 15,448 | 12,198 | 2,986 | 555 | 10,334 | 3,094 | **44,615** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | - | 8,731 | **8,731** |
| Gwarediadau | - | (2,014) | - | - | - | - | **(2,014)** |
| Trosglwyddiadau | - | 3,467 | 162 | - | - | (3,629) | **-** |
| 31 Mawrth 2020 | 15,448 | 13,651 | 3,148 | 555 | 10,334 | 8,196 | **51,332** |
| **Dibrisiant:** | | | | | | | |
| 01 Ebrill 2019 | 1,715 | 10,641 | 2,072 | 395 | 10,107 | - | **24,930** |
| Tâl dibrisiant am y flwyddyn | 354 | 550 | 414 | 26 | 220 | - | **1,564** |
| Gwarediadau | - | (1,703) | - | - | - | - | **(1,703)** |
| 31 Mawrth 2020 | 2,069 | 9,488 | 2,486 | 421 | 10,327 | - | **24,791** |
| **Gwerth Llyfr Net:** | | | | | | | |
| 01 Ebrill 2019 | 13,733 | 1,557 | 914 | 160 | 227 | 3,094 | 19,686 |
| **31 Mawrth 2020** | **13,379** | **4,163** | **662** | **134** | **7** | **8,196** | **26,541** |

11 Gweler Nodyn 10.1
12 Gweler Nodyn 10.2

Ychwanegir prosiectau gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo at y gofrestr asedau sefydlog a'u dibrisio pan ddechreuir eu defnyddio.

Yn ystod y flwyddyn, daeth y lesoedd i ben ar swyddfeydd ein timau cymhwyster i ymarfer yn Kemble Street ac Aldwych, Llundain WC2, ac rydym wedi symud y timau hynny i swyddfeydd newydd yn One Westfield Avenue, Stratford, Llundain E20. Y costau gwaredu ar gyfer dodrefnu ac adnewyddu swyddfeydd yw'r costau a gyfalafwyd o'r blaen am ddodrefnu swyddfeydd Kemble Street ac Aldwych, a'r trosglwyddiad o £3.467 miliwn o waith sy'n mynd rhagddo yw cost dodrefnu swyddfeydd One Westfield Avenue.

### 10.1 Safle lesddaliad hir

Roedd yr UKCC (y corff a ragflaenodd yr NMC) wedi caffael y buddiant lesddaliadol yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Mae'r les yn cynnwys rhent rhad o £250 y flwyddyn ac yn dod i ben yn y flwyddyn 2933. Prisiwyd y les ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan y priswyr allanol Carter Jonas, yn £17.185 miliwn. Mae cyfamod cyfyngol ar y les sy'n golygu mai dim ond yr NMC a all ddefnyddio a meddiannu'r eiddo.

### 10.2 Gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo

Mae'r rhain yn brosiectau i greu asedau cyfalaf i'w defnyddio yn y busnes lle mae gwariant wedi'i ysgwyddo at ddiwedd y cyfnod ond yr asedau heb eu cwblhau neu eu defnyddio eto. Un o'r prosiectau hyn yw rhaglen i foderneiddio ein systemau TG.

## 11. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn nodi natur ein perthynas â'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad ydym yn atebol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rydym yn cysylltu'n rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, mae'r Cyngor wedi'i awdurdodi i ddarparu ar gyfer talu ffioedd a lwfansau i'w aelodau, yn cynnwys y Cadeirydd, ac aelodau o'i bwyllgorau (aelodau partneriaid).

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr NMC wedi derbyn gwasanaethau hwyluso a hyfforddi gan Aim Higher Leadership Cyf. Mae John Welsh, sy'n frawd i Edward Welsh, y Cyfarwyddwr Materion Allanol, yn is-gontractwr cyswllt allanol i Aim Higher Leadership. Talodd yr NMC gyfanswm o £22,487 i Aim Higher Leadership yn ystod y flwyddyn a chafodd John Welsh £600 gan Aim Higher Leadership fel ffi gyflwyno.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, y lwfans a dalwyd i'r Cadeirydd oedd £78,000 (2018-2019: £81,500, ynghyd â £5,300 a dalwyd i'r Cadeirydd blaenorol). Cyfanswm y lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth a hyfforddi a dalwyd i holl aelodau'r Cyngor, yn cynnwys y Cadeirydd, neu a ysgwyddwyd mewn perthynas â nhw, oedd £289,692 (2018-2019: £304,027). Roedd y cyfansymiau hynny'n cynnwys y dreth sy'n daladwy ar dreuliau mewn perthynas â chyfarfodydd yn Llundain, sy'n cael eu trin fel budd mewn nwyddau sy'n drethadwy. Mae aelodau'r Cyngor yn cael eu talu'n uniongyrchol drwy gyflogres yr NMC. Mae manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor wedi'u dangos yn yr adroddiad am gydnabyddiaeth ariannol.

## 12. Buddsoddiadau

| | Ar 31 Mawrth 2020 | Ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian cadw byrdymor (cyfnod aeddfedu o 3 mis neu lai) | 43,479 | 45,905 |
| Arian cadw hirdymor (cyfnod aeddfedu o fwy na 3 mis ond llai na 12 mis) | 20,436 | 20,093 |
| **Total** | **63,915** | **65,998** |

## 13. Dyledwyr

| | Ar 31 Mawrth 2020 | Ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dyledwyr | 170 | 518 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 2,574 | 3,817 |
| **Cyfanswm** | **2,744** | **4,335** |

# 14. Creditors

| Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr a chroniadau | 9,403 | 9,235 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 1,270 | 1,074 |
| Incwm gohiriedig | 43,692 | 42,420 |
| **Cyfanswm** | **54,365** | **52,729** |

# 15. Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 106 | 42 |
| Premiwm les | 193 | 251 |
| **Cyfanswm** | **299** | **293** |

# 16. Darpariaethau

| | Dadfeiliad | Pensiwn – ymddeol yn gynnar | TAW[1] | Panelwyr[2] | Cyfanswm 2019–2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 992 | 223 | 500 | 1,500 | 3,215 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (36) | (67) | (228) | - | (331) |
| Ychwanegiadau | 126 | - | - | - | 126 |
| Rhyddhadau | (284) | - | (272) | - | (556) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **798** | **156** | **-** | **1,500** | **2,454** |

1. Mae atebolrwydd am TAW wedi codi o ganlyniad i adolygiad gan CThEM sydd bellach wedi'i gwblhau. Mae'r atebolrwydd a aseswyd a'r balans nas defnyddiwyd wedi'u rhyddhau o'r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn, gan fod CThEM wedi cwblhau ei archwiliad ac wedi cadarnhau'r holl rwymedigaethau sy'n ddyledus.

2. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau ychwanegol dichonol mewn perthynas â phanelwyr yn adlewyrchu ein hamcangyfrif darbodus o'r effaith ehangach bosibl o un hawliad i dribiwnlys cyflogaeth am symiau ychwanegol gan banelydd cymhwyster i ymarfer. Mae panelwyr yn gontractwyr annibynnol sy'n eistedd ar ein paneli cymhwyster i ymarfer. Mae'r hawliad hwn yn un newydd sy'n ymwneud â phenderfynu a yw'r panelydd yn weithiwr ac, felly, yn un sydd â'r hawl i gael tâl gwyliau. Rydym wedi herio'r hawliad er mwyn cael eglurhad ynghylch sefyllfa gyfreithiol ansicr. Gwrandawyd yr achos ond nid yw dyfarniad wedi'i wneud eto. Yn ôl y canlyniad, mae'n bosibl y bydd angen adlewyrchu'r dyfarniad yn ein trefniadau â phanelwyr eraill, a darparu ar gyfer y costau dichonol mewn sefyllfa o'r fath.

# 17. Rhwymedigaethau pensiwn

Rydym yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio a chynllun buddion wedi'u diffinio.

## Y cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio

Mae ein prif gynllun pensiwn yn gynllun pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio sy'n cael ei weithredu gan The People's Pension. Y lleiafswm y gall cyflogeion ei gyfrannu yw 1 y cant o'u cyflog pensiynadwy a bydd NMC yn cyfrannu 8 y cant (2018-2019: 8 y cant). Gall cyflogeion wneud cyfraniadau ychwanegol a bydd yr NMC yn gwneud cyfraniadau cyflogwr cyfatebol hyd at fwyafswm o 12 y cant. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 85 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyfraniadau gan yr NMC (cyflogwr) at y cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn ystod y flwyddyn | **2,468** | 2,020 |
| | **%** | **%** |
| Cyfraniad sylfaenol yr NMC (cyflogwr) at y cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio | **8.00%** | 8.00% |
| Cyfraniad sylfaenol cyflogeion at y cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio | **1.00%** | 1.00% |

## Y cynllun buddion wedi'u diffinio

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r NMC cyn Tachwedd 2013 yn gallu ymaelodi â'n cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio, Cynllun Pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru cynllun 101652586. Mae'n gynllun wedi'i ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited.

Roedd y cyfranogwyr blaenorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac NHS Education for Scotland wedi tynnu'n ôl o'r cynllun yn ystod 2013 a 2015 yn y drefn honno. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 11 y cant o gyflogeion yr NMC yn aelodau o'r cynllun.

Codir cyfraniadau i'r cynllun ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn rhannu cost pensiynau dros oes gweithio'r cyflogeion. Mae cyfraniadau'n cael eu pennu gan actiwari cymwysedig ar sail prisiadau tair blynedd.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf o'r cynllun ar ran ymddiriedolwyr y pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2016, gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol o brisio. Ar ddyddiad y prisiad, gwerth asedau'r cynllun oedd £106.9 miliwn (gan gynnwys blwydd-daliadau a ddelir ar ran pensiynwyr yswiriedig). Roedd gwerth yr asedau'n cyfateb i 88 y cant o werth y buddion, a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl darparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg asedau mewn perthynas â gwasanaethau yn y gorffennol yn cael ei amorteiddio dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd enillion gwirioneddol o fuddsoddiadau uwchlaw cynnydd o 0.65 y cant y flwyddyn mewn cyflogau ac uwchlaw cynnydd o -0.15 y cant a -0.20 y cant y flwyddyn mewn pensiynau ar gyfer y rhai nad ydynt yn bensiynwyr a phensiynwyr, yn y drefn honno.

Pe byddai'r cynllun wedi'i ddirwyn i ben ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2016), byddai'r asedau wedi cyfrif am tua 72 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i gwrdd â'r buddion a gronnwyd gan aelodau gweithredol a'r rhai a oedd wedi gadael y cynllun yn y gorffennol a'r buddion cyfredol i bensiynwyr. Byddai'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £42.8 miliwn.

Mae Cynllun Adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actwaraidd presennol, erbyn 31 Mawrth 2026. Byddwn yn unioni'r diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026 drwy wneud taliadau o dan y Cynllun Adfer o £983,000 y flwyddyn, gyda chynnydd o 3.65 y cant bob mis Ebrill (gwnaed y cynnydd cyntaf o'r fath ym mis Ebrill 2015). Gwerth taliadau'r Cynllun Adfer yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 oedd £1,172,309 (31 Mawrth 2019: £1,134,348).

Mae'r prisiad tair blynedd nesaf, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac mae'r canlyniadau cyntaf a gwahanol gynigion yn cael eu trafod ag Ymddiriedolwyr y Cynllun.

Seiliwyd y prisiad FRS 102 ar asesiad llawn o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Mawrth 2020.

| Symiau wedi'u cydnabod yn y Fantolen | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 67,004 | 76,862 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | (78,626) | (91,100) |
| **Diffyg** | **(11,622)** | **(14,238)** |
| **Rhwymedigaeth net** | **(11,622)** | **(14,238)** |

| Symiau wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost gwasanaeth bresennol | (2,014) | (2,223) |
| Cost gwasanaeth flaenorol | 0 | (82) |
| Elw disgwyliedig o asedau'r cynllun | 2,021 | 1,866 |
| Llog ar y rhwymedigaeth pensiwn | (2,377) | (2,152) |
| **Swm net wedi'i gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol** | **(2,370)** | **(2,591)** |
| | % | % |
| Cyfraniad yr NMC (cyflogwr) i'r cynllun buddion wedi'u diffinio | 39.30% | 39.30% |
| Cyfraniad y cyflogeion i'r cynllun buddion wedi'u diffinio | 6.00% | 6.00% |

| Cysoni gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Y balans agoriadol ar 31 Mawrth 2019** | **91,100** | **84,114** |
| Cost gwasanaeth bresennol | 2,014 | 2,223 |
| Cost gwasanaeth flaenorol | 0 | 82 |
| Cost llog | 2,377 | 2,152 |
| Cyfraniad cyflogeion | 282 | 311 |
| (Enillion)/colledion actwaraidd | (15,494) | 4,180 |
| Buddion a dalwyd | (1,653) | (1,962) |
| **Y balans terfynol ar 31 Mawrth 2020** | **78,626** | **91,100** |

| Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Y balans agoriadol ar 31 Mawrth 2019** | **76,862** | **72,414** |
| Elw disgwyliedig o'r asedau | 2,021 | 1,866 |
| Enillion/(colledion) actwaraidd | (13,789) | 898 |
| Cyfraniad y cyflogwr | 3,281 | 3,335 |
| Cyfraniad y cyflogeion | 282 | 311 |
| Buddion a dalwyd | (1,653) | (1,962) |
| **Y balans terfynol ar 31 Mawrth 2020** | **67,004** | **76,862** |

| Cysoni'r newid mewn statws ariannu | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Y balans agoriadol ar 31 Mawrth 2019** | **(14,238)** | **(11,700)** |
| Costau pensiwn | (2,370) | (2,591) |
| Enillion/(colledion) actwaraidd | 1,705 | (3,282) |
| Cyfraniad y cyflogwr | 3,281 | 3,335 |
| **Y balans terfynol ar 31 Mawrth 2020** | **(11,622)** | **(14,238)** |
| **Elw gwirioneddol o asedau'r cynllun** | **(11,768)** | **2,764** |

| Hanes yr addasiadau profiad | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019<br>£'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018<br>£'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | (78,626) | (91,100) | (84,114) | (80,467) |
| Asedau'r cynllun | 67,004 | 76,862 | 72,414 | 68,279 |
| **Diffyg** | **(11,622)** | **(14,238)** | **(11,700)** | **(12,188)** |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaeth y cynllun – enillion/(colledion) | 5,226 | (695) | (2,795) | 2,238 |
| Addasiadau profiad ar asedau'r cynllun | (13,789) | 898 | (49) | 4,839 |

| Cyfraniad disgwyliedig yn y flwyddyn ddilynol | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 |
|---|---|
| Y cyflogwr | 3,183 |
| Cyflogeion | 265 |
| **Cyfanswm** | **3,448** |

| Prif dybiaethau | 2020<br>y flwyddyn | 2019<br>y flwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfradd disgownt | 2.45% | 2.60% |
| Chwyddiant prisiau manwerthu | 2.75% | 3.45% |
| Chwyddiant prisiau defnyddwyr | 1.75% | 2.45% |
| Cynnydd mewn pensiwn | 2.75% | 3.40% |
| Elw disgwyliedig o asedau | 2.45% | 2.60% |
| **Disgwyliad oes yn 60 oed** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Dynion a aned 1960 | 26.5 | 26.9 |
| Menywod a aned 1960 | 29.0 | 28.9 |
| Dynion a aned 1980 | 28.0 | 28.8 |
| Menywod a aned 1980 | 30.5 | 30.9 |

| Asedau'r cynllun | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cronfeydd twf | 37,128 | 36,549 |
| Bondiau | 1,656 | 1,990 |
| Buddsoddiadau seiliedig ar rwymedigaeth | 4,646 | 0 |
| Giltiau | 0 | 4,263 |
| Arian parod | 2,354 | 7,028 |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | 21,220 | 27,032 |
| **Cyfanswm** | **67,004** | **76,832** |

## 18. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2020, roedd contractau wedi'u gwneud ar gyfer gwariant cyfalaf o £0.5 miliwn ar brofion cymhwyster ar gyfer Cofrestru ond ni ddarparwyd ar gyfer hyn yn y datganiadau ariannol.

Mae'r gwariant cyfalaf canlynol wedi'i gymeradwyo ond heb wneud contractau ar ei gyfer:

| | Ar 31 Mawrth 2020 | Ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Moderneiddio gwasanaethau technoleg | 6,700 | 2,300 |
| Rhaglen swyddfeydd | 3,500 | 2,900 |
| **Cyfanswm** | **10,200** | **5,200** |

## 19. Ymrwymiadau lesoedd gweithredu

Ar 31 Mawrth 2020 roedd y taliadau isaf canlynol gennym am lesoedd gweithredu yn y dyfodol:

| | Tir ac adeiladau | |
|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2020 | Ar 31 Mawrth 2019 |
| **Lesoedd sy'n dod i ben:** | £'000 | £'000 |
| O fewn un flwyddyn | 1,630 | 2,388 |
| Ymhen un i bum mlynedd | 5,534 | 7,163 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | 3,481 | 3,481 |
| **Cyfanswm** | **10,645** | **13,032** |

Rydym yn lesio eiddo yn Clarendon House (y llawr gwaelod a'r cyntaf), 114-116 George Street, Caeredin, am y cyfnod hyd 24 Ebrill 2021; 2 Stratford Place, Llundain, am y cyfnod hyd 21 Gorffennaf 2024; ac 1 Westfield Avenue, Llundain, am y cyfnod hyd 6 Chwefror 2029.

## 20. Offerynnau ariannol

Mae offerynnau ariannol yn chwarae llai o ran mewn creu a rheoli risg nag y byddent mewn sefydliad masnachol.

| | Ar 31 Mawrth 2020 | Ar 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Asedau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio | 99,726 | 99,123 |
| Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio | (10,673) | (10,309) |

Yr asedau ariannol sy'n cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio yw balansau arian parod o £33.067 miliwn (2018-2019: £28.790 miliwn), buddsoddiadau mewn adneuon banc cyfnod penodol £63.915 miliwn (2018-2019: £65.998 miliwn), dyledwyr £2.744 miliwn (2018-2019: £4.335 miliwn). Y rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu dal ar gost wedi'i hamorteiddio yw credydwyr a chroniadau £9.403 miliwn (2018-2019: £9.235 miliwn) a threthi eraill a nawdd cymdeithasol £1.270 miliwn (2018-2019: £1.074 miliwn).

## 21. Datganiad cymharol o weithgareddau ariannol

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, roedd yr holl incwm a gwariant yn anghyfyngedig ac nid oedd unrhyw falans cyfyngedig wedi'i ddwyn ymlaen.

## 22.Taliadau allgontractiol

Nid oedd unrhyw daliadau allgontractiol yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, roedd un taliad allgontractiol o £0.023 miliwn i aelod o'r staff fel digolledIad am golli swydd.

## 23. Asedau digwyddiadol a rhwymedigaethau digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2020, nid oedd unrhyw asedau na rhwymedigaethau digwyddiadol.

## 24. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a oedd yn golygu bod angen addasu neu ddatgelu yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r adroddiad blynyddol a chyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Fel rheoleiddiwr proffesiynau, roeddem wedi ymateb i ddeddfwriaeth argyfwng y llywodraeth a oedd yn caniatáu i ni greu cofrestr dros dro COVID-19. Mae hon yn gofrestr ar wahân a fydd yn parhau yn ystod cyfnod yr argyfwng yn unig.

# Atodiad 1

## The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001.[1]

This determination has effect from 23rd February 2010.

**Interpretation**

1. In this Determination-

“the accounts” means the accounts which it is the Council’s duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;

“the Charities’ SoRP” means the “Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.

“the Council” means the Nursing and Midwifery Council;

“the FReM” means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

1 S.I 2002/253

**Determination**

2. The accounts must-

(a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council's state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; and

(b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SORP; and

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council

Dated: 18th July 2011

Nursing & Midwifery Council

ISBN 978-1-5286-2032-1
CCS0620790214